

CWMNI COFRESTREDIG RHIF: 07779153 (Cymru a Lloegr)  
ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF: 1146560



## **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

**a Datganiadau Ariannol Archwiliedig ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020**

**ar gyfer**

**Llenyddiaeth Cymru**

Radnor House  
Greenwood Close  
Cardiff Gate Business Park  
Cardiff CF23 8AA

Registered to carry on audit work  
and regulated for a range of  
investment business activities by  
the Institute of Chartered  
Accountants in England and Wales

**bpu** Chartered Accountants is a  
trading name of BPU Ltd  
Company Number 3723948  
Registered in Wales

A list of directors is available from the  
registered office above.

## **Llenyddiaeth Cymru**

**Cynnwys y Datganiadau Ariannol  
ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020**

---

|                                                   | <b>Tudalen</b>   |
|---------------------------------------------------|------------------|
| <b>Adroddiad yr Ymddiriedolwyr</b>                | <b>3 - 76</b>    |
| <b>Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr</b> | <b>77</b>        |
| <b>Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol</b>         | <b>78 - 80</b>   |
| <b>Datganiad o Weithgareddau Ariannol</b>         | <b>81</b>        |
| <b>Mantolen</b>                                   | <b>82</b>        |
| <b>Datganiad Llif Arian</b>                       | <b>83</b>        |
| <b>Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian</b>          | <b>84</b>        |
| <b>Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol</b>          | <b>85 - 102</b>  |
| <b>Datganiad Manwl o Weithgareddau Ariannol</b>   | <b>103 - 104</b> |

Llenyddiaeth Cymru

# Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

2019/2020

Ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020



Llenyddiaeth  
Cymru  
Literature  
Wales

**Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno'u hadroddiad a'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.**

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol a'r polisiau cyfrifyddu a amlinellir yn nodyn 1 y cyfrifon ac maent yn cydymffurfio ag Erthyglau Cymdeithasu'r elusen, Deddf Cwmnïau 2006, a'r ddogfen "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)" (fel y'i diwygiwyd ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau o 1 Ionawr 2016).

## Cynnwys

|                                                           |           |
|-----------------------------------------------------------|-----------|
| <b>Ein Strategaeth .....</b>                              | <b>7</b>  |
| <b>Crynodeb o'n Perfformiad .....</b>                     | <b>12</b> |
| <b>Ein Gweithgareddau .....</b>                           | <b>15</b> |
| Cyfranogi .....                                           | 16        |
| Datblygu Awduron .....                                    | 17        |
| Diwylliant Llenyddol Cymru.....                           | 23        |
| Iechyd a Llesiant.....                                    | 28        |
| Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb.....                       | 30        |
| Plant a Phobl Ifanc.....                                  | 32        |
| <b>Materion Gweithredol.....</b>                          | <b>35</b> |
| Codi Arian .....                                          | 36        |
| Cyfathrebu .....                                          | 39        |
| Monitro a Gwerthuso.....                                  | 42        |
| Adnoddau Dynol .....                                      | 44        |
| Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd.....                 | 47        |
| Llywodraethu ac Ymgynghori â'r Sector .....               | 49        |
| Hwyluso yn y Sector .....                                 | 51        |
| Cyllid .....                                              | 53        |
| Partneriaethau .....                                      | 55        |
| Rheoli Risg .....                                         | 57        |
| <b>Cynlluniau'r Dyfodol .....</b>                         | <b>64</b> |
| Adolygu'r Model Cyflawni a Phrosiectau Gweithgaredd ..... | 66        |
| Adolygu Partneriaethau .....                              | 66        |
| <b>Strwythur, Llywodraethu a Rheoli .....</b>             | <b>67</b> |
| <b>Atodiad .....</b>                                      | <b>69</b> |



## **Datganiad gan Gadair Bwrdd y Cyfarwyddwyr a Phrif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru**

Fel Cadair a Phrif Weithredwr, mae'n braf cael achub ar y cyfle hwn i ddangos ein llwyddiannau a'r holl bethau a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn gyntaf ein **Cynllun Strategol 2019-2022**.

Roedd y Cynllun yn benllanw blwyddyn o lafur caled ac ymroddiad gan dîm gweithredol a Chyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru, gyda chymorth nifer o bartneriaid, rhanddeiliaid ac unigolion o'r sector a'r tu hwnt. Cafodd ei greu gyda chefnogaeth hynod werthfawr Rhaglen Wytnewch Cyngor Celfyddydau Cymru, cyn ei lansio yng Ngŵyl y Gelli yn 2019. O ganlyniad, mae gan ein sefydliad genhadaeth gliriach o lawer, ynghyd ag amcanion uchelgeisiol, cyfres eglur o flaenoriaethau, ac effaith bellgyrhaeddol.

Mae'r Cynllun hefyd yn cyflwyno dulliau cwbl wahanol o weithio, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y mae strwythurau newydd wedi gwella ein systemau adrodd a gwerthuso yn sylweddol. Sefydliad sy'n dysgu ac yn myfyrio'n barhaus ydym, ac yn ganolog i'n gwaith cynllunio a rhaglennu o ddydd i ddydd, rydym wedi cyflwyno system i gael adborth ac i ymgynghori â'n cleientiaid a'n rhanddeiliaid.

Mae casglu a dadansoddi data'n hanfodol er mwyn cyfathrebu ein heffaith a'n gwerth, sy'n dra phwysig inni. Ceir tystiolaeth gref fod gwaith Llenyddiaeth Cymru yn rhoi gwerth i'r sector, i'r gymdeithas ac i'r trethdalwr. Rydym o ddifrif ynghylch ein statws fel Cwmni Cenedlaethol, ac wedi cyflwyno dulliau gweithio newydd i symud tuag at fodel effeithiol sy'n ein galluogi i wneud gwaith hwyluso yn y sector, yn hytrach na darparu prosiectau yn uniongyrchol.

Ym mhopeth a wnawn, byddwn yn bartner, yn cyd-greu, ac yn cefnogi gweithgareddau llenyddol, gan weithio gydag ystod eang o sefydliadau yn y sector diwylliannol a'r tu hwnt, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae natur y gefnogaeth y byddwn yn ei rhoi, yn ariannol ac ar ffurfiau eraill, wastad yn ddibynnol ar yr angen a'r galw. Rydym yn dod yn sefydliad cynyddol strategol. Dim ond y gweithgareddau pwysicaf sy'n cyfuno dulliau niferus o fesur llwyddiant y byddwn yn eu darparu'n uniongyrchol, a hynny pan mai ni fydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Wrth weithio mewn partneriaeth, byddwn yn defnyddio dull fesul cam, ac yn ceisio trosglwyddo rheolaeth dros brosiectau i bartneriaid yn raddol, er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn gynaliadwy a bod iddo waddol.

Mae'n ein cynnyrch wedi'i strwythuro o amgylch tair Colofn Gweithgaredd: Cyfranogi, Datblygu Awduron, a Diwylliant Llenyddol Cymru. Mae'r rhain yn plethu yn ei gilydd, tra bo'r prosiectau ym mhob colofn yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn cryfhau'i gilydd. Ceir llwybrau clir sy'n galluogi ein cleientiaid i wneud cynnydd rhwng y naill a'r llall. Yn sail i'r rhain mae ein tair Blaenoriaeth Dactegol, sy'n ymddangos yn ein holl waith partneriaeth a hwyluso: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb, Iechyd a Llesiant, a Phlant a Phobl Ifanc. Mae'r blaenoriaethau hyn yn ein galluogi i sicrhau bod gweithgareddau'n rhoi pwyslais ar gael yr effaith fwyaf.

Wrth gyflawni blwyddyn gyntaf ein Cynllun Strategol, blaenoriaeth o bwys oedd gweithio gyda phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth ac anghydraddoldebau strwythurol yn y sector llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru. Lansiwyd dau brosiect newydd o bwys yn 2019/2020 i roi cyfleoedd i nifer o leisiau llenyddol sydd heb eu clywed o'r blaen: Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli a Rising Stars Cymru. Bydd mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn dal yn flaenoriaeth am flynyddoedd lawer, a bydd yn llywio holl gynlluniau a gweithgareddau'r dyfodol.

Blynyddoedd ansicr fu'r rhai diwethaf wrth ystyried ein perthynas yn y dyfodol â gwledydd eraill Ewrop. Yn gynnar yn 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Ryngwladol sy'n datgan bod cysylltiadau diwylliannol rhwng Cymru a'r byd yn ganolog i'w huchelgais fyd-eang. Yn 2019/2020, darparodd Llenyddiaeth Cymru nifer o brosiectau a'r rheini'n cefnogi strategaeth y Llywodraeth. Dynodwyd 2019 yn Flwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO. Gyda chefnogaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r British Council Cymru, rhoddwyd rhaglen o sgysiaid creadigol a chyfnewidfeydd ar waith rhwng sefydliadau llenyddol yng Nghymru, Iwerddon,

Gogledd Iwerddon, yr Alban a'r Almaen. Roedd y pwyslais ar farddoniaeth gyfoes yn Gymraeg, Gaeleg yr Alban, Scoteg a Gwyddeleg, a hynny dan arweiniad Bardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn.

Uchafbwynt amlwg arall yn 2019/2020 oedd cyhoeddi mai Eloise Williams, yr awdures lwyddiannus, fyddai'r gyntaf i gyflawni swydd y Children's Laureate Wales, ar ôl proses ymgeisio gystadleuol, agored. Ers dechrau yn y swydd, mae hi wedi swyno miloedd o blant gyda'i hegni, ei thalent a'i brwdfrydedd rhyfeddol, gan sicrhau y bydd cenedlaeth newydd sbon o blant yn syrthio mewn cariad â'r gair ysgrifenedig a'r gair llafar.

O'r holl ffurfiau ar gelfyddyd, efallai mai llenyddiaeth yw'r fwyaf hyblyg, ac rydym wastad yn chwilio am gyfleoedd i gyflwyno llenyddiaeth mewn llefydd newydd ac annisgwyl. Mae ein partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru yn parhau i fynd o nerth i nerth, ac uchafbwynt arall yn 2019 oedd lansio ffilm a gomisiynwyd yn arbennig i gefnogi ymgyrch ragbrofol Ewro 2021 UEFA Merched Cymru. Roedd y ffilm yn cyflwyno cerdd a ysgrifennwyd gan ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon yng Nghasnewydd gyda chymorth cyn-Fardd Plant Cymru, Casia Wiliam.

Yn 2019, cyhoeddwyd cyfres o alwadau agored ar gyfer comisiynau a phrosiectau, gan gynnwys ail rownd y cynllun nawdd Llên a Lles. Roedd y cynllun yn gwahodd awduron ac artistiaid i gynnig syniadau am brosiect ysgrifennu creadigol a fyddai'n cyfuno ffurfiau celfyddydol gwahanol, gyda golwg ar ddarparu ar gyfer grŵp penodol o bobl ac ymwneud â rhai o'r unigolion a'r cymunedau mwyaf ymylol a bregus yng Nghymru. Ar ôl galwad agored am gynigion ar gyfer y prosiect ym mis Mehefin 2019, cafodd 10 o brosiectau eu hariannu a'u darparu drwy 50 o sesiynau.

Mae nifer o brosiectau a strwythurau gweithredol a sefydliadol newydd wedi'u cyflwyno, ac mae'r rhain wedi gwella ein prosesau llywodraethu, rheoli ac atebolrwydd yn sylweddol. Am y tro cyntaf, bydd yr Arolwg Hydredol yn ein galluogi i ddadansoddi'n fanwl ein heffaith go iawn ar ein cleientiaid dros gyfnod hir o amser. Mae'r dulliau adrodd newydd, gan gynnwys yr adroddiad chwarterol, yn dangos yn glir ein cynnydd tuag at ein targedau blynyddol. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos ein hyblygrwydd wrth inni addasu a mireinio ein gwaith yn barhaol, gan ddibynnu ar yr angen, y galw a dylanwadau allanol. Mae system rheoli risg newydd wedi'i chyflwyno drwy'r holl sefydliad, gyda dangosfwrdd yn dynodi'r risgiau mwyaf rydym yn eu hwynebu ar y pryd. Mae'r dangosfwrdd hefyd yn rhoi'r risgiau yn eu cyd-destun, ac yn amlygu'r prif dactegau lliniaru y dylai'r Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr eu rhoi ar waith.

Yn 2019/2020, gyda rhagor o gefnogaeth gan Raglen Wytnwch Cyngor Celfyddydau Cymru, buom yn gweithio gydag ymgynghorydd adnoddau dynol allanol ar Adolygiad Sefydliadol trylwyr. Y nod oedd creu strwythur staffio a fyddai'n hyblyg ac yn gweddu i sefydliad sy'n esblygu ac yn dysgu, a gweithredu mewn ffordd fwy gwydn. Bu'r holl staff yn rhan o'r broses drwy ymgynghoriadau un-i-un a thrafodaethau wedi'u hwyluso. Roedd consensws cryf y byddai angen i'r strwythur newydd fod yn hyblyg, gan addasu i ateb anghenion rhanddeiliaid wrth i'r rheini esblygu, ac ymateb i bwysau allanol wrth i sefyllfaoedd newid yn gyflym. Rhoddwyd pwys ar greu diwylliant un llais drwy'r holl sefydliad, gyda'r holl staff yn awyddus i weithio ar y cyd ac yn gynhwysol.

Drwy'r strwythur hyblyg a gwydn newydd hwn, llwyddodd y sefydliad a'i staff i addasu'n gyflym i oblygiadau digynsail pandemig byd-eang Covid-19, gan gyflwyno newidiadau'n chwim ac yn effeithiol. Roedd modd inni hefyd ailgyfeirio prosiectau a chynlluniau i'w darparu ar-lein, a chyflwyno rhaglen newydd o alwadau am gomisiynau gyda thâl, a'r rheini'n targedu awduron llawrydd a oedd wedi wynebu gostyngiadau mawr yn eu hincwm oherwydd y cyfyngiadau symud.

Mae'r adroddiad hwn yn dystiolaeth bendant o lwyddiant blwyddyn gyntaf y Cynllun Strategol newydd, o ran gweithgareddau a materion gweithredol ill dau. Mae hefyd yn dangos sut y mae'r dulliau cyflawni newydd hyn a gwaith ymgynghori parhaus yn sicrhau ein bod yn sefydliad cwbl hyblyg sy'n croesawu newid. Mae'n dangos ein bod yn wydn ac mewn sefyllfa gref i wynebu heriau'r dyfodol, ac i achub ar gyfleoedd y dyfodol hefyd.



Dr Kate North  
Chair



Lleucu Siencyn  
CEO

# Ein strategaeth

2019/2020





## Amcanion

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol sy'n datblygu llenyddiaeth yng Nghymru. Mae'n aelod o Bortffolio Celfyddydol Cymru Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn hwyluso, yn cyllido ac yn darparu gweithgareddau llenyddol yn uniongyrchol ledled Cymru, a hynny'n Gymraeg, yn Saesneg, yn ddwyieithog ac yn amlieithog. Syr Phillip Pullman yw ein noddwr.

Diweddarwyd amcanion Llenyddiaeth Cymru yn 2019/2020. Er budd y cyhoedd yng Nghymru ac yn fyd-eang, y rhain yw hyrwyddo'r celfyddydau, treftadaeth a diwylliant, ac yn enwedig llenyddiaeth Cymru yn ei holl ffurfiau ac ieithoedd, a gwella addysg am lenyddiaeth yng Nghymru yn ei holl ffurfiau ac ieithoedd, gan gynnwys, ond nid yn unig, drwy'r dulliau hyn:

- (a) cefnogi awduron ac ysgrifennu ym mhob ffurf lenyddol yn ieithoedd Cymru;
- (b) datblygu sgiliau creadigol, artistig a llenyddol plant a phobl ifanc;
- (c) hwyluso'r defnydd o lenyddiaeth fel ffurf ar fynegiant ymysg y cyhoedd yn gyffredinol, gan gynnwys ymysg pobl fregus a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli, ymhlith eraill.

## Cynllun Strategol 2019-2022

Mae [Cynllun Strategol 2019-2022](#) yn cyflwyno'r strategaeth ar gyfer cyflawni amcanion elusennol Llenyddiaeth Cymru, ac yn datgan:

Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Ein cenhadaeth yw ysbrydoli cymunedau, datblygu awduron, a dathlu diwylliant llenyddol Cymru drwy wneud y pethau hyn:

- Gwneud ysgrifennu creadigol yn fwy hygyrch i gyfranogwyr yng Nghymru, a chryfhau ei effaith arnynt;
- Galluogi egin awduron i achub ar gyfleoedd i freinio'u sgiliau a datblygu sgiliau mwy amrywiol;
- Cryfhau ystod, cyrhaeddiad ac enw da awduron Cymru.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon a'r genhadaeth hon, rydym ein strwythuro ein gwaith o dan dair Colofn Gweithgaredd:

- Cyfranogi
- Datblygu Awduron
- Diwylliant Llenyddol Cymru

Mae'r colofnau hyn yn perthyn yn uniongyrchol i'n grwpiau o gleientiaid:

- Cyfranogwyr Creadigol
- Egin Awduron
- Awduron Profiadol

Mae pob gweithgaredd yn cael ei gyflwyno gyda Chynulleidfaoedd Creadigol mewn golwg. Gan fod angen sicrhau bod gweithgareddau'n cael yr effaith fwyaf, rydym hefyd yn mynd ati'n benodol i ganfod a blaenoriaethu'r nodweddion canlynol yn achos y cleientiaid a dargedir:

- Unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Unigolion ar incwm isel
- Unigolion sydd ag anableddau neu salwch (corfforol neu feddyliol)

Mae'r Colofnau Gweithgaredd yn gysylltiedig â'i gilydd, ac mae llawer o'n gwaith yn llifo o'r naill golofn i'r llall. Mae tair Blaenoriaeth Dactegol yn plethu drwy'r colofnau:

- Iechyd a Llesiant
- Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb



- Plant a Phobl Ifanc

Rydym yn dynodi nifer o dargedau i'w cyflawni, a chaiff cynnydd a llwyddiant eu mesur yn unol â'r rhain:

- **Cynnyrch**  
Newidiadau uniongyrchol i'r sector llenyddiaeth drwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n gysylltiedig â phrosiectau, ac 11 o Brif Nodau Llwyddiant ([sydd i'w gweld yn ein Hadroddiadau Sefydliadol](#)) o dan ein Colofnau Gweithgaredd
- **Canlyniadau**  
Newidiadau a gaiff eu sicrhau i'n cleientiaid yn y tymor canolig, a'r rheini'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) drwy 8 o ganlyniadau llesiant
- **Effaith**  
Y newid y byddwn yn ei gyflwyno yng Nghymru yn y tymor hir, a hwnnw wedi'i seilio ar sut y bydd y canlyniadau'n cyflawni gweledigaeth Llenyddiaeth Cymru

Bydd Tîm Gweithredol Llenyddiaeth Cymru yn adolygu'r gweithgareddau a'r materion gweithredol bob mis, a bydd yr ymddiriedolwyr yn eu hadolygu bob chwarter drwy Adolygiadau Sefydliadol sydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld [fan hyn](#). Caiff prosiectau eu hasesu'n barhaus i weld sut y maent yn cyfrannu at Brif Nodau Llwyddiant y sefydliad, ac yn sgil hynny sut y maent yn cyflawni gweledigaeth a chenhadaeth Llenyddiaeth Cymru. Er mwyn cyflawni amcanion Llenyddiaeth Cymru yn well, mae modd mireinio neu newid pwyslais gweithgareddau yn ystod yr adolygiadau hyn, yn ogystal ag yn ystod y Diwrnodau Cynllunio Creadigol y bydd y Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr yn eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Cyhoeddir diweddariad blyneddol am y Cynllun Strategol hefyd, gan ddiweddarau'r rhestr o weithgareddau a'r materion gweithredol. Cynhelir adolygiad strategol cynhwysfawr bob tair blynedd. Mae disgwyl i'r broses hon aildechrau yn haf 2021 ar ôl lansio Cynllun Strategol 2019-2022 yng ngwanwyn 2019.

#### **Budd Cyhoeddus**

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau am fudd cyhoeddus a bod hyn wedi'i ystyried wrth wneud penderfyniadau am gyfeiriad strategol y sefydliad ac wrth gynllunio'i weithgareddau. Mae ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru yn fodlon y bydd amcanion y sefydliad, a'r strategaethau ar gyfer eu cyflawni, yn rhoi budd i bobl Cymru.

Mae datblygu'r tair Blaenoriaeth Dactegol yn crynhoi sut y mae Llenyddiaeth Cymru yn darparu'r budd cyhoeddus mwyaf:

#### **Iechyd a Llesiant**

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gwybod y gall llenyddiaeth wella lles pobl. Mae treialon clinigol niferus, lle caiff ysgrifennu creadigol a darllen eu presgripsiynu fel meddyginiaeth ataliol, liniarol neu iachaol, wedi dangos amryw o ganlyniadau lles pendant, gan gynnwys risg is o ddementia, llai o symptomau iselder, gwell gallu i ddangos empathi, ac ymdeimlad cryfach o hunan-werth a hunaniaeth. Yn 2019/2020, mabwysiadodd Llenyddiaeth Cymru y Model Rhesymeg ar gyfer cynllunio'i holl weithgareddau. Mae'r model hwn yn sicrhau bod yr adnoddau a fuddsoddir, a'r dulliau a ddefnyddir, yn gymesur ac yn ein rhoi yn y sefyllfa orau i gyflawni 8 nod lles y sefydliad:

- Gwell sgiliau siarad ac ysgrifennu
- Mwy o hunanhyder
- Rhagor o gyfleoedd gwaith
- Llai o bobl yn teimlo'n ynysig
- Risg is o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well
- Y cyfle i brofi bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd
- Gwell sgiliau amlieithog

Mae manylion ein perfformiad o dan y Flaenoriaeth Dactegol hon yn 2019/2020 i'w gweld ar dudalen 24.

#### **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb**

Mae Llenyddiaeth Cymru hefyd yn gwybod bod llenyddiaeth wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y cysyniad o ryddid mynegiant. Fodd bynnag, mae angen rhoi cyfleoedd cyfartal a chynrychiolaeth deg er mwyn i'r rhyddid hwnnw




fod yn rhywbeth go iawn. Ceir rhwystrau sylweddol, sydd wedi bodoli ers tro byd, i gyfleoedd cyfartal a theg ym mhob rhan o yrfa awdur proffesiynol yng Nghymru, gan gynnwys barn elitaidd am y syniad o 'ansawdd' a ffurfiau llenyddol. Law yn llaw â'i brif bartneriaid strategol, un o flaenoriaethau Llenyddiaeth Cymru yw rhoi sylw i'r diffyg amrywiaeth yn lleisiau sector llenyddiaeth a cyhoeddi Cymru. Ei nod yw bod yn sefydliad sy'n sbarduno diwylliant llenyddol cenedlaethol a hwnnw'n cynrychioli holl amrywiaeth y Gymru gyfoes. Yn 2019/2020, dechreuodd Llenyddiaeth Cymru gymryd camau cadarnhaol i gefnogi awduron i oresgyn y rhwystrau hyn, ac ar yr un pryd dechreuodd weithio gyda'r sector i gael gwared ar y rhwystrau. Mae'r gwaith hwn yn golygu bod yn barod o hyd i groesawu syniadau newydd, gwrandao ar y rheini sydd wedi profi rhagfarn a hiliaeth go iawn, cynnal sgysysau a all fod yn anodd ar brydiau, a chael deialog agored. Mae manylion ein perfformiad o dan y Flaenoriaeth Dactegol hon yn 2019/2020 i'w gweld ar dudalen 26.

### Plant a Phobl Ifanc

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gwybod y gall ymwneud yn greadigol â llenyddiaeth berthnasol, ystyrion a chynrychioladol drwy gydol plentyndod a glasencyndod gael effaith gadarnhaol a pharhaus ar fywydau pobl yn oedolion. Mae gwaith ymchwil diweddar i brofiadau llenyddol mewn ysgolion yn dangos sut y gall ysgrifennu a darllen creadigol gyfrannu at greu dinasyddion uchelgeisiol, galluog, mentrus, moesegol, iach, hyderus a gwybodus. Ceir tystiolaeth gref hefyd sy'n dangos bod rhwystrau systemig sylweddol sy'n atal pobl rhag cael y profiadau hyn mewn ffordd deg a chyfartal. Mae hynny'n cyfrannu at yr anghydraddoldebau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y bydd rhai o'n pobl ifanc yn eu hwynebu yn oedolion. Yn 2019/20, canolbwyntiodd Llenyddiaeth Cymru ar roi budd amlycach i blant a phobl ifanc sy'n uniaethu ag o leiaf un o Nodweddion y Cleientiaid a Dargedir. Cydweithiwyd drwy'r holl sector i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu mwynhau ac ymwneud â'n diwylliant llenyddol, a hwnnw'n ddiwylliant sy'n ehangu. Mae manylion ein perfformiad o dan y Flaenoriaeth Dactegol hon yn 2019/2020 i'w gweld ar dudalen 28.

### Ein Model Cyflawni Newydd



Yn 2019/2020, cyflwynwyd model cyflawni newydd. Mae hwn wedi galluogi Llenyddiaeth Cymru i wneud mwy wrth gyflawni'i waith fel Cwmni Cenedlaethol a darparu ar gyfer y sector llenyddiaeth ehangach. Mae wedi golygu darparu llai o weithgareddau'n uniongyrchol, a symud tuag at ddull o weithio mewn partneriaeth a

hwyluso: ysgogi a chefnogi pobl eraill i ddarparu gweithgareddau llenyddol i'w cynulleidfaoedd a'u cymunedau. Mae'r dull newydd hwn yn cynyddu cyrhaeddiad ac effaith gwaith yr holl randdelliaid drwy fanteisio ar arbenigeddau gwahanol a rhoi mynediad i rwydwaith ehangach o awduron, cyfranogwyr, cynulleidfaoedd a sefydliadau. Mae'r model cyflawni'n golygu cydbwysu cyfrifoldebau o'r newydd o fewn y prosiectau sy'n darparu gweithgareddau ar hyn o bryd, a hynny'n unol ag arbenigeddau a pherthnasedd. Dim ond y gwaith pwysicaf sy'n cyfrannu'n sylweddol at Nodau Llwyddiant niferus y bydd Llenyddiaeth Cymru yn ei wneud yn uniongyrchol, a hynny pan mai Llenyddiaeth Cymru fydd yn y sefyllfa orau i wneud hynny. Bydd Llenyddiaeth Cymru yn cychwyn prosiectau eraill, neu'n bartner ynddynt, pan fydd tystiolaeth o angen a galw, ond gan ddefnyddio dull fesul cam lle bydd y cyfrifoldeb yn cael ei drosglwyddo'n raddol i bartneriaid ac ymarferwyr sydd mewn sefyllfa well i gyflawni'r prosiectau yn y tymor hir.


Trydedd elfen yng ngwaith Llenyddiaeth Cymru yw'r pwyslais cynyddol ar hwyluso yn y sector. Mae'r sefydliad yn mynd ati'n rhagweithiol i annog ac ymateb i weithgarwch llenyddol gan bobl eraill nad ydynt o anghenraid yn gweithio yn y sector ar hyn o bryd e.e. elusennau yn y gymuned a grwpiau awduron ar lawr gwlad. Rhoddir cefnogaeth nad yw'n ariannol (e.e. amser staff i olygu ceisiadau am grantiau neu farchnata digwyddiadau, gofod mewn lleoliad, rhannu polisïau ac arferion), a chefnogaeth drwy grantiau (e.e. Awduron ar Daith, Llenyddiaeth er Iechyd a Llesiant), ond heb i Llenyddiaeth Cymru fod yn bartner ffurfiol yn y cynllun. Yr angen a'r galw fydd yn llywio faint o gefnogaeth a gynigir. Mae hynny'n golygu bod Llenyddiaeth Cymru yn gynyddol strategol wrth ddefnyddio'i adnoddau ac mae'n fodd i gynyddu ei gyrhaeddiad a maint ei effaith yn sylweddol. Yn 2019/2020, mae'r model cyflawni newydd hwn wedi golygu bod Llenyddiaeth Cymru wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid o wahanol sectorau i gryfhau ac ehangu'i effaith a'r budd cyhoeddus ehangach y mae'n ei greu. Mae manylion ein perfformiad o dan y crynodeb gweithredol hwn yn 2019/2020 i'w gweld ar dudalen 47, a gwybodaeth am ein partneriaid i'w gweld ar dudalen 52.

**Mae'r ymddiriedolwyr gan hynny'n fodlon bod rhaglen Llenyddiaeth Cymru yn 2019/2020 wedi rhoi budd cyhoeddus sylweddol i Gymru a'i bod wedi cyflawni amcanion elusennol y sefydliad.**




# Crynodeb o'n perfformiad

2019/2020









# Ein gweithgaredd

2019/2020



## Cyfranogi

### Strategaeth

Byddwn yn gwneud ysgrifennu creadigol yn fwy hygyrch i gyfranogwyr yng Nghymru, ac yn cynyddu'i effaith, drwy wneud y canlynol:

- Dangos gallu llenyddiaeth i wella lles pobl a helpu pobl eraill sy'n gweithio yn y maes hwn
- Ymwneud yn uniongyrchol ag unigolion a chymunedau sydd wedi'u tangynrychioli, a hynny ar draws ystod o brofiadau diwylliannol a ffurfiau llenyddol
- Cyfeirio cyfranogwyr sydd â photensial creadigol tuag at gyfleoedd o dan ein gweithgareddau datblygu awduron

Bydd hyn yn *ysbrydoli* rhai o'n hunigolion a'n cymunedau mwyaf ymylol drwy eu galluogi i gyfranogi.

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Bu **82,435** o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd yn ymwneud â gweithgareddau a drefnwyd neu a gefnogwyd gan Llenyddiaeth Cymru
- Cymerodd **11.5%** o oedolion yng Nghymru ran mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol
- Cyfeiriwyd **518** o gyfranogwyr creadigol at gyfleoedd datblygu awduron Llenyddiaeth Cymru

### Uchafbwyntiau

#### Uchafbwyntiau Cyfranogi

- Cafodd y **Cynllun Nawdd Llên er Lles** 68 o geisiadau a rhoddwyd cyllid i 10 o brosiectau llwyddiannus i weithio gydag unigolion sydd ar gyrion cymdeithas, gan gynnwys carcharorion a ffoaduriaid
- Cynhaliwyd **Prosiect Partnerlaeth Preswylad Awduron Ifanc** ar y cyd â Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Theatr Genedlaethol Cymru, a rhyddhawyd fideo i ddangos effaith y prosiect
- Yn dilyn galwad agored, cyhoeddwyd mai Eloise Williams fyddai'r gyntaf erioed i gyflawni swydd y **Children's Laureate for Wales 2019-21**
- Mewn partnerlaeth a Llyfrgelloedd Casnewydd a Mind Casnewydd, lanswyd pamffled **Be Brave #Changeit**
- Cyhoeddwyd partneriaeth **Bardd Plant Cymru** a Chymdeithas Bêl-droed Cymru drwy ryddhau cerdd ffilm a ysgrifennwyd gan blant ysgol yng Nghasnewydd i gefnogi ymgyrch ragbrofol Ewro 2021 UEFA Merched Cymru
- Cynhaliwyd diwrnodau hyfforddiant **Llên er Lles** i egin awduron, gyda sesiynau am ddiogelu, monitro a gwerthuso, a hwyluso cyfranogi creadigol



## Hydref

- Fel rhan o **Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth**, argraffwyd 192,600 o gardiau post amlieithog i'w dosbarthu i blant yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Mae'r gyfres o 6 cherdyn post yn cynnwys comisiynau barddoniaeth newydd gan Gruffudd Owen a Casia Wiliam drwy gynllun Bardd Plant Cymru

## Ewro

- Dewiswyd **Ffrindiau Darllen** yn rhan o Apêl Nadolig *The Times* 2019
- Cynhaliwyd **Penwythnos Beirniaid Ifanc** yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd fel rhan o'n rhaglen addysgol
- Parhaodd y **bartneriaeth** â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, drwy lansio Cystadleuaeth Barddoniaeth Ewro 2020 Cymru
- Lanslodd y **Beirdd Plant** heriau ysgrifennu wythnosol i blant Cymru wrth i gyfyngiadau symud pandemig COVID-19 ddechrau

## Crynodeb o Brosiectau

### Llên Pawb

Mae Llên Pawb yn gwella iechyd a Llesiant yr unigolion mwyaf difreintiedig a bregus yn ein cymunedau, a hynny drwy gyfranogi creadigol. Yn ystod 2019/2020, llwyddodd Llên Pawb i ymwneud â dros 400 o gyfranogwyr mewn 25 o weithdai drwy Gymru.

Mewn partneriaeth a Llyfrgelloedd Casnewydd a Mind Casnewydd, lansiwyd prosiect *#Changelt Be Brave*. Dan arweiniad y bardd a'r berfformwraig Rufus Mufasa, cydweithiodd grŵp o bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau Mind Casnewydd i edrych ar brofiadau pobl o broblemau iechyd meddwl. Mae pamffled *#Changelt Be Brave* yn cynnwys rhywfaint o'r gwaith a gafodd ei greu gan y grŵp.

'There I found...

a special group of people  
eyes that met mine, that didn't pierce  
a space I could call my own, be unashamed to occupy'

**Darn o gerdd 4**

Gweithdy *#Changelt Be Brave*

"Roedd yn gyfle mor wych ac yn ffordd mor unigryw i fynegi ein teimladau ni, fel pobl ifanc, am ein trafferthion ni a thrafferthion pobl eraill gydag iechyd meddwl. O'r dechrau i'r diwedd, roedd modd inni fod yn ni'n hunain, ac rydyn ni'n ddiochgar ein bod ni wedi cael y cyfle a'r llais".

**Unigolyn Ifanc**

Gweithdy *#Changelt Be Brave*

### Cyrsiau Addysgol Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Mae Llenyddiaeth Cymru yn darparu cyfres o gyrsiau ysgrifennu creadigol unigryw yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, yn gyrsiau preswyl ac yn gyrsiau undydd, a hynny i ysgolion cynradd ac uwchradd yn ogystal ag i brifysgolion a sefydliadau addysg uwch. Mae pob cwrs yn unigryw, a'n lleoliad tawel yn gyfle i ddianc rhag prysurdeb bywyd modern. Yn ystod 2019/2020, darparwyd 11 o gyrsiau i 176 o blant a phobl ifanc o Gymru a'r tu hwnt. Cymerodd 19 o awduron profiadol ran yn y prosiect, a chyfeiriwyd 29 o'r awduron ifanc at ein cyfleoedd datblygu i awduron. Wrth fyfyrir ar eu profiadau, dywedodd un cyfranogwr:

"Rwy'n teimlo'n gyfforddus wrth gael beirniadaeth nawr bod gen i fwy o hyder yn fy ngallu fy hun..."

**Billie Ingram Sofokleous**

Awdur ar gwrs Beirniaid Ifanc Tŷ Newydd



### Cynllun Nawdd Awduron ar Daith

Awduron ar Daith yw cynllun ariannu hynaf y Deyrnas Unedig sy'n benodol ar gyfer digwyddiadau llenyddol. Mae'n cynnig hyd at 50% o gostau awduron wrth iddynt ymwneud â gweithgareddau creadigol ledled Cymru. Yn ystod 2019/2020, cefnogodd y cynllun 289 o ddigwyddiadau, gyda 6,284 o aelodau o gynulleidfaoedd yn eu mynychu. Darparwyd 115 o ddigwyddiadau'n benodol i 5,750 yn rhagor o blant a phobl ifanc. Rhoddwyd 15 o gyfleoedd creadigol proffesiynol i egin awduron a chefnogodd 28 o wirfoddolwyr weithgareddau ledled Cymru. Dywedodd un aelod o gynulleidfa:

**"Mae'r cysylltiad rhwng bardd sy'n teithio a'r gymuned leol yn creu profiad dysgu cadarnhaol sydd o fudd i'r naill a'r llall."**

#### Aelod o Gynulleidfa

Digwyddiad a ariannwyd gan Awduron ar Daith

### Cynllun Nawdd Llên er Lles

Mae Llên er Lles yn cynnig cymorth ariannol a hyfforddiant i awduron ac artistiaid greu a darparu prosiectau ysgrifennu creadigol yn y gymuned. Bydd yr awdur/artist yn datblygu pob prosiect gyda golwg ar grŵp penodol o bobl, gan ganolbwyntio ar rai o'r unigolion a'r cymunedau mwyaf ymylol a bregus yng Nghymru. Ar ôl galwad agored am syniadau ar gyfer y prosiect ym mis Mehefin 2019, cafodd 10 o brosiectau eu hariannu a'u darparu drwy 50 o sesiynau. Byddai pob un yn arwain at gynnyrch oedd wedi'i ddiffinio'n glir, o greu pamffled barddoniaeth i arddangosfa, monologau radio, ac EP o ganeuon. Cynhaliwyd y prosiectau ledled Cymru, ac ymhlith y cyfranogwyr roedd aelodau o grwpiau LGBTQ+, carcharorion, ffoaduriaid, rhieni newydd, a phobl sy'n cael cymorth iechyd meddwl. Cafodd awduron gyfle i feithrin sgiliau newydd wrth ddarparu gweithgareddau llenyddol mewn lleoliadau cyfranogol. Ymhlith y partneriaid roedd Carchar y Parc, Uned Gofal Arbennig Babanod Wrecsam, Mind Aberystwyth, Prifysgol De Cymru, Voices from Care, Theatr Genedlaethol Cymru a Galeri Caernarfon.

**"Roedd yn brofiad cadarnhaol ym mhob ffordd. Roedd y dull o ddysgu yn golygu nad oedd hyn yn rhywbeth cyfarwydd imi o gwbl... Rwy'n falch imi allu meddwl yn greadigol am sut i ddarparu'r gweithdal er mwyn i bawb elwa."**

#### Egin Awdur

Diwrnod Hyfforddiant Llên er Lles

**"Gwellodd sgiliau caffael iaith a sgiliau integreiddio'r cyfranogwyr, ac fe wnaethon nhw ffrindiau newydd."**

#### Prif Awdur

Siaradwch â Mi – cynllun a ariannwyd drwy Llên er Lles

## Datblygu Awduron

### Strategaeth

Byddwn yn ymwneud ag awduron Cymru drwy roi cyfleoedd iddynt hogi eu sgiliau a datblygu sgiliau amrywiol, a hynny drwy wneud y canlynol:

- Datblygu a darparu gweithgareddau i ddatblygu'n greadigol a phroffesiynol, a'r rheini wedi'u creu'n benodol ar gyfer anghenion egin awduron
- Rhoi gwybodaeth a chyfeirio awduron at gyfleoedd perthnasol eraill
- Canfod carfan o awduron ifanc sydd â photensial llenyddol sylweddol, a datblygu eu sgiliau drwy ymyriadau hirdymor a chefnogaeth gan eu cymheiriaid.

Bydd hyn yn *datblygu* potensial creadigol a phroffesiynol awduron.

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Darparwyd **293** o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron
- Gwelwyd ein gwybodaeth ar-lein am ddatblygu awduron **31,562** o weithiau (y tudalennau unigryw a welwyd) ac 35,169 o weithiau (cyfanswm y tudalennau a welwyd)
- Elwodd **140** o awduron ifanc o gefnogaeth ariannol neu gefnogaeth hwyluso barhaus

### Uchafbwyntiau

#### Uchafbwyntiau Datblygu Awduron

|          |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
|----------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cyhoeddi | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fel rhan o <b>Ddiwrnod Diwydiant Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli</b>, mewn partneriaeth â Llenyddiaeth Cymru, cafodd 20 o awduron hyfforddiant unigryw fel rhan o gynllun chwe misol y rhaglen</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                  |
| Haf      | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Agorodd <b>Bwthyn Encll Awduron Nant</b> a chafodd ei osod yn ddi-dor dros yr haf</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| Hydref   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafwyd 186 o geisiadau am <b>Ysgoloriaethau i Awduron a'r Cynllun Mentora</b> – y mwyaf erioed (155 o geisiadau am Ysgoloriaethau, 6 am yr Ysgoloriaethau Cefnogi, 25 am Fentora)</li> <li>• Lansiwyd rhaglen <b>Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd 2020</b>, a honno yng ngofal dros 60 o awduron a fyddai'n cael eu cyflogi fel tlwtoriaid i helpu egin awduron ac awduron profiadol i ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu</li> </ul> |
| Ffawr    | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lansiwyd cynllun <b>Rhol Llwyfan i Awduron a Galff eu Tangynrychloll</b> yn benodol i gefnogi awduron o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a phobl sy'n byw ag anableddau neu salwch. Cefnogwyd 8 o awduron fel rhan o'r rhaglen newydd</li> </ul>                                                                                                                                                        |
| Ebrill   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Croesawodd <b>Tŷ Newydd Y Stamp</b>, cydweithfa llenyddol Gymraeg a chyhoeddiad ar-lein, a greodd rifyn arbennig wedi'i argraffu yn Nhŷ Newydd fel rhan o'r preswiliad</li> <li>• Rhoddwyd cymorth hwyluso i <b>WriteNow</b>, rhaglen gan Penguin Random House i feithrin awduron newydd o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli</li> </ul>                                                                                   |



- Lansiodd cwrs preswyl **Ysgrifennu i Oedolion Ifanc** yn Nhŷ Newydd ym mis Chwefror, mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru
- Lansiodd diwrnodau **Hyfforddiant i Awduron**, gan gynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol i awduron wella'u sgiliau wrth ddarparu gweithgareddau llenyddol mewn lleoliadau cyfranogol, ynghyd â chael gwybodaeth a chynghor perthnasol am y diwydiant

## Crynodeb o Brosiectau

### Ysgoloriaethau i Awduron

Mae ein Hysgoloriaethau i Awduron yn rhoi cefnogaeth ariannol i awduron ddatblygu gwaith penodol sydd ar y gweill dros gyfnod o 12 mis. Cwblhaodd carfan 2019 o 22 awdur y rhaglen ym mis Rhagfyr, ac mae nifer wedi mynd yn eu blaenau i gael mwy o lwyddiant. Cyhoeddwyd mai Ailbhe Darcy, sydd wedi cael ysgoloriaeth yn y gorffennol, oedd un o brif enillwyr Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2019, a dewiswyd Nasia Sarwar-Skuse i gynnal gweithdy cyfranogol fel rhan o'n prosiect Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli.

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddwyd carfan newydd o 21 awdur a gafodd symiau o £3,000 yr un. Ymhlith y rhain roedd 5 Ysgoloriaeth i Awduron Newydd, a gynlir i awduron sydd heb gyhoeddi cyfrol lawn o'u gwaith eu hunain eto, 1 ysgoloriaeth a neilltuir yn benodol i awdur o dan 25 oed, ac Ysgoloriaeth Cefnogi. Roedd 16 o'r awduron yn cael ysgoloriaeth am y tro cyntaf.

"Cael fy newis i gael Ysgoloriaeth i Awduron oedd yr hwb oedd ei angen arnaf. **Newidiodd fy mywyd.** Mae cael amser i ysgrifennu wedi fy ngalluogi i fy ystyried fy hun yn awdur o ddifrif."

**Janine Barnett-Phillips**

Unigolyn a gafodd Ysgoloriaeth i Awduron yn 2019

"Rydym yn gweld sŵn lenyddol fywlog yn datblygu yng Nghymru, a honno'n ennyn diddordeb. Mae egin awduron ac awduron profiadol yn archwilio'n ddychmygus gyfuniad pwysig o bynciau a syniadau, gan edrych ar ddiddordebau a heriau ein hoes..."

**Phil George**

Cadair, Cyngor Celfyddydau Cymru

### Y Cynllun Mentora

A hwnnw'n cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r Ysgoloriaethau i Awduron, rhaglen flwyddyn o hyd yw'r Cynllun Mentora, sy'n ceisio rhoi cefnogaeth arbenigol bwrpasol i helpu awduron ddatblygu gwaith sydd ar y gweill. Roedd 9 o awduron yng ngharfan 2020, gan gynnwys 6 a gafodd yr Ysgoloriaethau i Awduron sydd wedi'u neilltuo. Bu pawb sy'n cael eu mentora ar gwrs yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ym mis Mawrth 2020, a byddant yn parhau i fod yn rhan o sesiynau monitro drwy gydol 2020/2021, ynghyd â chael cyfleoedd i rwydweithio â chynrychiolwyr o'r diwydiant cyhoeddi. Trelalwyd partneriaeth cyfieithu llenyddiaeth newydd gyda'r Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol yn Norwich, gyda chefnogaeth Cyfnewidfa Llen Cymru. Rhoddwyd un lle mentora i'r awdur Susan Walton i weithio ar gyfieithiad Saesneg o nofel Gymraeg, ac i fod yn rhan o'r penwythnos preswyl i egin gyfieithwyr yn Norwich.

"Mewn difrif calon, **dydw i ddim eisiau gadael.** Mae'r ysbryd yma'n iach ac yn fywiog. Lle i ymlacio, i gael ysbrydoliaeth..."

**Awdur Dlenw yn Encil Mentora Tŷ Newydd**

Unigolyn a oedd yn rhan o'r Cynllun Mentora yn 2019

"Mae'r encil wedi **rhoddi amser** lmi i beidio â phoeni am gyfrifoldebau fy swydd, a chanolbwyntio o'r newydd ar fy ngwaith creadigol."

**Awdur Dlenw yn Encil Mentora Tŷ Newydd**

Unigolyn a oedd yn rhan o'r Cynllun Mentora yn 2019



### Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli

Rhaglen datblygu proffesiynol i awduron yw [Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli](#). Cafodd 20 o awduron gyfle i fod yn rhan o'r ŵyl lenyddol unigryw yn y Gelli Gandryll, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant o Gymru a'r tu hwnt. Rhannodd Sara Gethin rywfaint am ei phrofiad [fan hyn](#). Nod y rhaglen yw gwella gwybodaeth awduron am y sector a rhoi hwb i'w hyder, gan gynnig cefnogaeth gan eu cymheiriaid. Gwahoddwyd carfan Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli hefyd i fod yn rhan o Benwythnos y Gaeaf Gŵyl y Gelli ym mis Tachwedd 2019, lle cynhaliwyd mwy o sgysiau am y diwydiant. At hynny, trefnwyd diwrnodau i ddysgu am y diwydiant ym mis Mai a mis Tachwedd i garfan yr Ysgoloriaethau a'r Cynllun Mentora, ar y cyd â charfan Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli, er mwyn iddynt allu dysgu gan ei gilydd a datblygu cyfleoedd i gael cefnogaeth barhaus gan gymheiriaid.

"Er y bydd fy amser gydag Awduron Wrth eu Gwaith yn dod i ben eleni, rwy'n sylweddoli y bydd gen i gyfleoedd i barhau i ddatblygu drwy'r rhaglenni eraill a gafodd eu cyflwyno heddiw. Does dim pen draw iddi..."

**Un o Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli**  
2019

### Cysiau Addysgol Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Llenyddiaeth Cymru sy'n gyfrifol am Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, ac mae'n cynnal rhaglen flynyddol o rhwng 25 a 30 o gyrsiau creadigol a chysiau datblygu proffesiynol i awduron ym mhob cam yn eu gyrfaedd llenyddol, mewn genres amrywiol.

Mae mynd ar gwrs preswyl yn brofiad i ymgolli ynddo, gyda gweithdai, darlenniadau, a sesiynau mentora uni-un yn cael eu cynnal drwy gydol y diwrnod, ynghyd â chyfleoedd i gymdeithasu â chyd-awduron gyda'r nos. Yn ystod 2019/2020, bu 303 o bobl ar y 36 o gyrsiau a gynigiwyd, gyda 95 o'r rheini'n cael eu cyfeirio at gyfleoedd datblygu eraill i awduron. Rhoddwyd cefnogaeth barhaus i 17 o awduron ifanc hefyd.

"Byddwn yn cyngori unrhyw un, waeth pwy ydyn nhw nac o ble maen nhw'n dod, i ymweld â Thŷ Newydd – byddan nhw'n sicr o gael croeso cynnes ac yn gadael wedi'u hysbrydoli'n llwyr."

**Arthur Robinson**  
Cwrs Ysgrifennu i Iacháu

### Cyfleoedd Hyfforddiant a Chysgodi i Awduron

Yn ystod 2019/2020, treialwyd diwrnodau hyfforddiant proffesiynol newydd i unrhyw awduron a oedd yn byw yng Nghymru, gyda'r nod o ddatblygu eu harferion wrth wneud gwaith hwyluso, a'u helpu i ddysgu am y diwydiant. Cynhaliwyd gweithdai dwyleithog yn Llanystumdwy a Chaerdydd, a'u darparu gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys Celfyddydau Anabledd Cymru, Firefly Press, Graffeg a Chyngor Llyfrau Cymru. Bu 37 o awduron yn rhan o'r gweithdai drwy gydol y flwyddyn, ac o blith y rhain rhoddwyd cefnogaeth uniongyrchol ychwanegol i 19 ohonynt.

Datblygwyd cynllun cysgodi hefyd lle calff ymarferydd creadigol profiadol ei baru ag egin awdur er mwyn ei fentora mewn maes penodol, fel lechyd a Llesiant, er enghraifft. Cafodd Mari Ellis Dunning ei mentora gan Helen Sandler fel rhan o Gynllun Nawdd Llên er Lles i'w helpu i ddatblygu gweithdai llenyddol gyda chleientiaid Mind Aberystwyth.

"Mae cymuned ysgrifennu i'w chael, ac fe allaf fod yn rhan ohoni..."

**Awdur Dienw**  
Unigolyn a oedd yn bresennol yn y Diwrnod Hyfforddiant i Awduron yn y de

"Un o'r mantelion i mi oedd bod sgwrslo'n hŷr â thiwtor arall wedi gwneud imi feddwl am fy nulliau fy hun a dangos ffyrdd gwahanol o weithio imi."

**Helen Sandler**  
Mentor



**"Yn bersonol ac yn broffesiynol, roedd yn wych meithrin perthynas ag awdur lleol arall, ac rwy'n siŵr y bydd ein llwybrau'n croesi eto yn y dyfodol."**

**Mari Ellis Dunning**

**Awdur a gafodd ei mentora**

## Diwylliant Llenyddol Cymru

### Strategaeth

Byddwn yn cryfhau cwrpas, cyrhaeddiad ac enw da awduron Cymru drwy wneud y canlynol:

- Darparu a chefnogi prosiectau cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol sy'n dathlu pa mor unigryw yw ieithoedd, llenyddiaethau ac awduron Cymru
- Hwyluso comisiynau llenyddol, yn enwedig gan sefydliadau sy'n gweithio y tu allan i'r sector llenyddiaeth
- Datblygu cyfleoedd i roi cydnabyddiaeth ehangach drwy fynd ati i ddod o hyd i awduron newydd a allai achub ar y cyfleoedd hyn, yn enwedig o grwpiau a gaiff eu tangynrychioli.

Bydd hyn yn *dathlu'r* gorau o'n hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol amrywiol Cymru.

### Data am Berfformiad

Yn 2019/2020:

- Bu **250** o awduron profiadol a **244** gwaith llenyddol yn rhan o'r prosiectau proffil uchel
- Cafodd **21** prosiect partneriaeth a chyfnawid y tu allan i Gymru gefnogaeth gan Llenyddiaeth Cymru
- Rhoddwyd **43** o gomisiynau i awduron profiadol
- Bu **54** o egin awduron yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel

### Uchafbwyntiau

#### Uchafbwyntiau Diwylliant Llenyddol Cymru

2019/2020

1109

- Lansiodd Ifor ap Glyn, **Bardd Cenedlaethol Cymru**, naw o bodlediadau a thair rhaglen radio ar BBC Radio Cymru am ei waith rhyngwladol yn Lithwania, Tsieina a Chamerŵn
- Comisiynwyd **Bardd Cenedlaethol Cymru** gan Lywodraeth Cymru i nodi 20fed pen-blwydd datganoli yng Nghymru
- Datblygwyd a chryfhawyd **Partneriaethau Rhyngwladol** yn yr Almaen ac Iwerddon gyda chefnogaeth gan gronfa Ewrop British Council Cymru 2019/2020 a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
- Cynhaliwyd seremoni **Uyfr y Flwyddyn** yn Aberystwyth gyda £12,000 o wobrau i'r awduron buddugol. Ailbhe Darcy a Manon Steffan Ros a enillodd y prif wobrau
- Roedd **Llenyddiaeth Cymru** yn bresennol yn yr **Elsteddfod Genedlaethol**, gyda gweithgareddau drwy gydol yr ŵyl i amlygu llawer o'n gwaith partneriaeth
- Drwy **gydwelthio rhyngwladol**, gyda chefnogaeth cronfa Ewrop British Council Cymru 2019/2020, bu Alys Conran, y nofelydd o Gymru, yn cymryd rhan mewn dau ddigwyddiad/gweithdy llenyddol ym Mhrifysgol Humboldt yn Berlin
- Agorodd arddangosfa **Cymru Ryfedd a Chyfareddol** yn Galerí Caernarfon, gan ymweld â 6 o safleoedd Cadw yn ystod yr haf
- Dechreuodd dathliadau **Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth** wrth i #Her100Cerdd (her i ysgrifennu 100 o gerddi) ddychwelyd am y 7fed tro



## Llyfrau

- Datblygwyd **cydweithio rhwngwladol** rhwng sefydliadau llenyddol yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon fel rhan o Flwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO, gyda chefnogaeth y llywodraethau perthnasol, i godi proffil ieithoedd a llenyddiaethau cynhenid
- Rhoddwyd **llwyfan i lenyddiaeth Cymru** yng Ngŵyl Transpoesie ym Mrwsel drwy hyrwyddo barddoniaeth o Gymru, gydag Ifor ap Glyn, **Bardd Cenedlaethol Cymru**, yn un o'r beirdd a gyflwynodd ei waith
- Drwy'r prosiect **Llenyddiaeth Gymreig mewn Addysg**, mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, darparwyd cyfres newydd o adnoddau barddoniaeth i helpu disgyblion gyda chwrs TGAU Llenyddiaeth Saesneg CBAC
- Cyhoeddwyd enwau beirniaid **Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2020** ynghyd â'r newyddion y byddai Ymddiriedolaeth Rhys Davies yn noddwr newydd i'r wobr
- Dechreuodd dathliadau **Diwrnod Llyfr y Byd** wrth i Eloise Williams, y **Children's Laureate Wales**, gyflwyno diwrnod o weithdal creadigol i ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Nercwys mewn partneriaeth â Theatr Clwyd
- Cyhoeddwyd bod Ifor ap Glyn, **Bardd Cenedlaethol Cymru**, wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Dewi Sant 2020
- Parhaodd dathliadau **rhwngwladol yn Berlin** fel rhan o Flwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO, gyda thrafodaethau panel a pherfformiadau yn y Ganolfan Astudiaethau Prydeinig ym Mhrifysgol Humboldt, a hynny gydag Ifor ap Glyn, **Bardd Cenedlaethol Cymru**, Ciara Ní É, yr awdur a'r berfformwraig o Iwerddon, a Marc an Tuairneir, perfformiwr barddoniaeth o'r Alban. Roedd Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru, yn cadeirio
- Nododd Ifor ap Glyn, **Bardd Cenedlaethol Cymru**, 30 mlynedd ers dymchwel wal Berlin gyda cherdd gomisiwn newydd, a honno'n cael ei pherfformio a'i recordio o flaen y *Mauerpark* yn Berlin

## Crynodeb o Brosiectau

### Gwobr Llyfr y Flwyddyn

Gwobr flynyddol yw Llyfr y Flwyddyn sy'n dathlu talent lenyddol ragorol o Gymru a hynny mewn genres amrywiol, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynhaliwyd seremoni 2019 yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Enillodd Manon Steffan Ros ac Ailbhe Darcy y prif wobrau am *Llyfr Glas Nebo* (Y Lolfa) ac *Insistence* (Bloodaxe Books). Mae *Llyfr Glas Nebo* eisoes yn cael ei ystyried yn glasur modern Cymraeg, ac ers ennill Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2019 mae'r hawliau iddo wedi'u gwerthu i 3 gwlad gan gynnwys yr Unol Daleithiau. Mae wedi'i gynnwys ar faes llafur Llenyddiaeth Gymraeg TGAU ac fe'i haddaswyd yn ddrama gan Gwmni'r Frân Wên, a werthodd yr holl docynnau i'r sioeau.

Roedd rhestr fer 2019 yn cynnwys ystod o awduron ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfaedd, gan gynnwys yr egin awduron Malan Wilkinson a Mari Ellis Dunning, ynghyd ag awduron profiadol a llwyddiannus fel Manon Rhys ac Oliver Bullough. Cyflwynwyd 143 o weithiau llenyddol am y gwobrau i gyd. Rhoddwyd cyfanswm o £12,000 i'r awduron a ddaeth i'r brig, a chafodd pob un y tîs trawiadol sydd wedi'i ddylunio a'i greu gan yr artist Angharad Pearce Jones. Roedd gwobrau ychwanegol i enillwyr Gwobrau Barn y Bobl yn y ddwy iaith, a'r rhain yn cael eu noddi gan y Wales Arts Review a Golwg360.

**"Mae'r gwobrau'n dangos arwyddocâd Cymru i ddarlennwyr byd-eang. Mae Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn gyfle hollbwysig i ddathlu ysgrifennu yng Nghymru, gan wobrwyo awduron drwy eu cydnabod, boed nhw'n awduron**



proffesiynol sydd wedi hen ennill eu plwyf... neu'n awduron newydd sbon. Mae'n hwb i werthiant llyfrau, am gyfnod, o leiaf, ac mae hynny wastad yn beth da."

**Mari Ellis Dunning**

Awdur a gyrhaeddodd Restr Fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2019

"Bu'n ffrainc a hanner bod yn feirniad yng Ngwobr Llyfr y Flwyddyn 2019. Mae ystod ac ansawdd y llyfrau a ddaeth i law yn dangos drachefn dalent anhygoel awduron Cymru a chyfraniad diwylliannol awduron sy'n dod o Gymru ac yn byw yng Nghymru at dreftadaeth lenyddol hirhoedlog y wlad. Nid yn unig y mae rhestr fer 2019 yn dangos ehangder gorwelion ac amrywiaeth anhygoel yr ysgrifennu, ond hefyd arwyddocâd straeon Cymru i ddarlennwyr byd-eang."

**Louise Holmwood-Marshall**

Un o feirniaid Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2019

### Bardd Cenedlaethol Cymru

Mae Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru, yn llysgennad diwylliannol i Gymru, a hynny ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol. Yn 2019/2020 bu'r prosiect yn ymwneud â dros 3,000 o gyfranogwyr ac aelodau o gynulleidfaoedd mewn 16 gweithdy, 46 digwyddiad ac 8 o ymweliadau rhyngwladol. Cynrychiolodd Ifor ap Glyn lenyddiaeth Cymru mewn 4 gwlad gan gynnwys yr Almaen, lle bu'n rhan o drafodaeth banel amlieithog yng Nghanolfan Astudiaethau Prydeinig Prifysgol Humboldt, Berlin, i ddathlu Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO. Ysgrifennodd Bardd Cenedlaethol Cymru 16 o gerddi a gomisiynwyd, gan gynnwys un i nodi Dydd Gŵyl Dewi a gafodd ei throi'n fideo hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru. Llwyddodd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol gan Fardd Cenedlaethol Cymru i ymwneud â 81,000 o bobl dros y flwyddyn. Cyhoeddodd Prif Weinidog Llywodraeth Cymru fod Ifor ap Glyn wedi cyrraedd y rownd derfynol yng nghategori diwylliant Gwobrau Dewi Sant 2020.

Ac yn y tŷ hwn, a thu hwnt,  
rhaid clywed ein cân o hyd, i 'nabod ei gwerth;  
'nerth gwlad yw ei phobl',  
ond ein hyder yw ein nerth.

**Ifor ap Glyn, darn o 'Y Cynulliad yn 20'**

Bardd Cenedlaethol Cymru

### Ymgyrchoedd Cenedlaethol

Mae Llenyddiaeth Cymru yn cefnogi pob math o ymgyrchoedd cenedlaethol i ddathlu diwylliant lenyddol Cymru. Fel rhan o Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth, comisiynir pedwar bardd Cymraeg i greu 100 o gerddi newydd mewn 24 awr mewn ymateb i geisiadau gan y cyhoedd. Dychwelodd Her 100 Cerdd am y 7fed blwyddyn, gyda'r beirdd Beth Celyn, Dyfan Lewis, Elinor Wyn Reynolds a Matthew Tucker yn treulio 24 awr yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd i gwblhau'r her. Mae'r her hon yn ennyn cryn ddiddordeb ymhlith y cyhoedd, gyda channoedd o geisiadau am gerddi'n dod i law ar y cyfryngau cymdeithasol. Ers y flwyddyn gyntaf yn 2012, mae prosiect Her 100 Cerdd wedi arwain at greu 700 o gerddi newydd, a phob blwyddyn yn cynnig ciplun unigryw o Gymru ar y pryd.

### Gair o Gyngor

Marathon, nid sbrint,  
yw'r cyngor dro ar ôl tro,  
pan raeadra'r storïau ohona'i  
mai fi di'r un sy'n slo.

**Beth Celyn**

Her 100 Cerdd, 10:59 am

### Gwyliau Cenedlaethol



Bob blwyddyn, byddwn yn cyfrannu at bresenoldeb llenyddiaeth Cymru mewn gwyliau llenyddol a diwylliannol yng Nghymru drwy bartneriaethau a digwyddiadau. Yn 2019/2020, buom yn ymwneud â dros 1,200 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd mewn gwyliau fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Gŵyl y Gelli a Ffair Lyfrau Llundain. Cynhaliwyd rhaglen o ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ynghyd â stondin yn hyrwyddo ein cyfleoedd datblygu i awduron. Bu Bardd Plant Cymru yn arwain gweithdai, a chynhaliwyd gweithdai blasu gan Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Lansiwyd Cynllun Strategol 2019-2022 Llenyddiaeth Cymru yng Ngŵyl y Gelli ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2019, gan roi cyfle i ymwneud â rhanddeiliaid pwysig a chyfathrebu ein cyfeiriad newydd a'n cynlluniau at y dyfodol.

#### Cydweithio Rhyngwladol

Er mwyn sicrhau ein bod yn mynd ati mewn ffordd gydlynus i gyflwyno llenyddiaeth o Gymru mewn cyddestunau cenedlaethol a rhyngwladol, rydym yn cydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau o Gymru a'r tu hwnt. Yn 2019/2020, ymunwyd â chynrychiolwyr Scottish Literature Now ar gyfer Seminar Llenyddiaeth y British Council yn yr Almaen. Cynhaliwyd y seminar yn Hambwrg, ac mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu pwyslais Cymreig ar gyfer y Seminar Llenyddiaeth yn 2021. Aethom ati i gryfhau ein perthynas hir â'r Ganolfan Astudiaethau Prydeinig ym Mhrifysgol Humboldt yn Berlin, gyda chyllid gan y British Council Cymru a Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, gan ddathlu llenyddiaethau Cymraeg, Gwyddeleg a Gaeleg drwy gyfres o ddigwyddiadau i nodi Blwyddyn Ryngwladol Ieithoedd Cynhenid UNESCO. Bu myfyrwyr rhyngwladol sy'n dilyn Astudiaethau Prydeinig yn y Ganolfan Astudiaethau Prydeinig yn gweithio fel interniaid inni hefyd.

"Doeddwn i ddim wedi disgwyl y gallai barddoniaeth mewn iaith nad ydw i'n ei deall wneud cymaint o argraff arnaf. Ond mae'n debyg mai dyma yw gwir gelfyddyd – mae'n goresgyn pob ffin ieithyddol, cymdeithasol a diwylliannol."

#### Cymrawd Ymchwil

Y Sefydliad Astudiaethau Cynaliadwyedd Uwch

#### Llenyddiaeth Cymru mewn Addysg

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn dylanwadu ar y cynnwys llenyddol yng nghwricwlwm newydd Cymru, a chynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lenyddiaeth fel ffurf ar gelfyddyd, yn hytrach na modd o wella llythrennedd. Mae'r gwaith hwn yn golygu cefnogi rhanddeiliaid o bwys gan gynnwys Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn cefnogi addysgu llenyddiaeth o Gymru yn Gymraeg a Saesneg, a chynigiwyd cymorth hwyluso i CREW, Prifysgol Abertawe, i gomisiynu 7 awdur i greu 15 o [adnoddau dysgu newydd](#) i gyd-fynd â'r 15 cerdd o Gymru sydd ar faes llafur TGAU Llenyddiaeth Saesneg CBAC ar hyn o bryd. Cafodd yr adnoddau hyn eu lawrlwytho gan 2,547 o bobl yn ystod 2019/2020. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar gyflwyno prosiect tebyg drwy gyfrwng y Gymraeg.

"Diolch am y ddolen i'r adnoddau anhygoel ar gyfer asesiad barddoniaeth TGAU Llenyddiaeth Saesneg CBAC. Dyma adnodd amhrisiadwy i athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd, ac rydym yn hynod o ddiolchgar ichi am ei rannu".

#### Athro

Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd

#### Twmstiaeth Llenyddol

Mae'r hyn rydym yn ei gynnig drwy dwristiaeth lenyddol yn ceisio cynyddu hygyrchedd a phroffil ein gweithiau llenyddol gorau drwy'r llefydd unigryw sy'n gysylltiedig â'r rheini. Rydym yn canolbwyntio ar gyfeirio cynulleidfaoedd Cymreig a rhyngwladol at gynnwys mewn ffyrdd dychmygus. Gwelodd tua 10 miliwn o bobl a deithiodd drwy Gaerdydd yn 2019/2020 furlun 40 troedfedd y Tŵr Dŵr yn yr Orsaf Ganolog. Murlun oedd hwn a grëwyd yng ngwanwyn 2018 fel rhan o gynllun Cymru Ryfedd a Chyfareddol. Bu'r darluniau gwreiddiol a grëwyd gan yr artist Pete Fowler fel rhan o'r prosiect hwn, a'r darnau barddoniaeth a rhyddiaith gan awduron Cymreig amrywiol a oedd yn cyd-fynd â'r rheini, ar daith o amgylch lleoliadau celfyddydol a safleoedd Cadw drwy Gymru yn 2019. Fe'u gwelwyd gan 27,300 o aelodau o gynulleidfaoedd creadigol.

Cafodd ein gwefan [Gwlad y Chwedlau](#), a grëwyd yn 2017-18 i roi sylw i 51 o weithiau llenyddol, ei gweld gan 44,805 o bobl yn 2019/2020, a 23% o'r rheini'n dod o 111 o wledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Yn ystod yr

hydref/gaeaf, cefnogwyd ymchwilydd llawrydd gennym i addasu cynnwys Gwlad y Chwedlau ar gyfer ffilmiau byrion [‘The Slate’](#) BBC Cymru Wales, a’r rheini’n edrych ar straeon coll Cymru. Yn y gwanwyn, dechreuwyd gweithio ar syniad ar gyfer cyllid Ymchwil a Datblygu i edrych ar hyfywedd masnachol datblygu cynnwys Gwlad y Chwedlau ar gyfer y diwydiant gemau, gan ennyn diddordeb cynulleidfaoedd targed newydd yn niwylliant llenyddol Cymru.



## Iechyd a Llesiant

### Strategaeth

Drwy gydnabod a deall y gwahanol ffyrdd y gall llenyddiaeth gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a Llesiant y genedl, a thrwy hyrwyddo hyn ymhlith sefydliadau eraill y tu hwnt i'r sector celfyddydau, byddwn yn gwella bywydau pobl yng Nghymru.

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Bu **38** o wirfoddolwyr yn ymwneud â Ffrindiau Darllen Cymru drwy gydol y rhaglen
- Cafodd **22** o wirfoddolwyr hyfforddiant a chefnogaeth, gan gyflawni dyletswyddau i Ffrindiau Darllen Cymru
- Rhoddwyd hyfforddiant a chefnogaeth mewn **4** o safleoedd Ffrindiau Darllen drwy Gymru i roi'r cynllun ar waith

### Uchafbwyntiau

#### Uchafbwyntiau Iechyd a Llesiant

#### Gwanwyn

- Lanswyd pamffled *#Changeit* prosiect *Be Brave* mewn digwyddiad lansio i ddatlu yn llyfrgell ganolog Casnewydd

#### Haf

- **Ffrindiau Darllen** – mae Llenyddiaeth Cymru wedi'i gomisiynu gan Rwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru i greu ffilm am y prosiect a gyflwynwyd i Grŵp Trawsbleidiol Celfyddydau ac Iechyd y Senedd

#### Hydref

- Arweiniodd galwad y **Cynllun Nawdd Uên er Lles** at 68 o geisiadau
- Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant i'r **Cynllun Nawdd Uên er Lles** gyda sesiynau am ddiogelu, monitro a gwerthuso a hwyluso cyfranogi creadigol

#### Gaeaf

- Dewiswyd Ffrindiau Darllen yn rhan o Apêl Nadolig *The Times*, a chyhoeddwyd dwy erthygl am Ffrindiau Darllen yng Nghymru yn *The Times*
- Datblygodd **Llenyddiaeth Cymru** weithgareddau newydd i helpu i wella lles y genedl wrth i bandemig COVID-19 ddechrau

### Crynodeb o Brosiectau

*\*Mae ein Blaenoriaethau Tactegol yn plethu drwy'r tair Colofn Gweithgaredd ac yn cynnwys y blaenoriaethau thematig sy'n ymddangos ym mhopeth a wnawn. At ddiben yr Adroddiad Blynyddol hwn, rydym wedi tynnu sylw at brosiectau sy'n dangos orau sut y caiff pob blaenoriaeth ei chyflawni.*

#### Ffrindiau Darllen Cymru

Prosiect drwy'r Deyrnas Unedig gyfan yw Ffrindiau Darllen, a hwnnw'n cael ei arwain gan yr Asiantaeth Ddarllen. Ni sy'n rhoi'r prosiect ar waith yng Nghymru. Drwy ddarllen creadigol a phwrpasol, mae'r prosiect yn creu

cysylltiad rhwng gwirfoddolwyr ac unigolion sy'n unig, sy'n fregus, ac sy'n aml yn byw gyda salwch neu anableddau corfforol neu feddyliol. Yn 2019/2020, buom yn gweithio gydag 1 Bwrdd Iechyd, 148 o gyfranogwyr a 38 o wirfoddolwyr. Aeth y prosiect rhagddo yn ei leoliadau yng Nghonwy ac Abertawe, a chynhaliwyd cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi i recriwtio mewn lleoliadau newydd yn Sir y Fflint a Chaerdydd. Cyflwynwyd prosiect Ffrindiau Darllen Cymru yng Ngrŵp Trawsbleidiol Celfyddydau ac Iechyd y Senedd, a chafodd sylw hefyd mewn darlithoedd gwadd ym Mhrifysgol Bangor fel rhan o'r modiwl Llenyddiaeth yn y Gymuned. Un o brif lwyddiannau'r rhaglen hyd yma fu cyflwyno capasiti gwirfoddoli yng Ngwasanaeth Llyfrgelloedd Conwy, ac mae'r gwasanaeth newydd hwn wedi cyfrannu at ba mor gynaliadwy a chadarn yw'r gwasanaeth llyfrgelloedd at y dyfodol.

**"Helpodd fi i sylweddoli nad yw cael strôc yn ddiwedd y byd, ac nad dyna ddiwedd fy mywyd"**

**Pauline Davies**

Ysbyty Singleton, Abertawe

Ewch i [fan hyn](#) i weld yr erthygl lawn am brofiad Pauline yn *The Times*



## Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb

### Strategaeth

Drwy ddarparu llawer o'n gweithgareddau cyfranogol i unigolion a chymunedau sy'n uniaethu â Nodweddion Cleientiaid a Dargedir a thrwy sicrhau cynhwysiant cynrychioladol mewn gweithgareddau eraill ac yn ein strwythurau mewnol (e.e. prosesau llywodraethu, staffio a rhaglennu), byddwn yn annog ac yn rhoi llwyfan i leisiau llenyddol sydd wedi'u tangynrychioli. Maes o law, byddwn yn creu diwylliant llenyddol cenedlaethol sy'n cynrychioli'r Gymru gyfoes ac yn rhoi cyfleoedd teg a chyfartal i bobl fwynhau arloesi artistig.

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Drwy ein prif gynlluniau Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb, rhoddwyd cefnogaeth barhaus i **11** o awduron o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli
- Bu **100+** o gyfranogwyr a chynulleidfaoedd creadigol yn ymwneud ag Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli
- Datblygwyd **1** Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2020-2023

### Uchafbwyntiau

#### Uchafbwyntiau Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb

|                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|----------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Gwanwyn</b> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd trafnidiaeth am ddim a thocynnau cyfarch i egin awduron sydd wedi'u tangynrychioli i fynd i Wyl y Gelli 2019</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| <b>Haf</b>     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lansiwyd partneriaeth newydd gyda Speaking Volumes, BookTrust a Pop Up Projects i gynnal cymal Cymru yn nhaith <b>Breaking New Ground</b> drwy'r Deyrnas Unedig, taith a oedd yn dathlu awduron a darlunwyr croenliw o Brydain</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <b>Hydref</b>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd cyllid i gefnogi dathliadau dwy oed <b>Where I'm Coming From</b>, cydweithfa llenyddol amrywiol a noson meic agored, a hynny yn eu digwyddiad <i>Poetry &amp; Picnic in the Park</i></li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| <b>Gaeaf</b>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lansiwyd <b>Gwobr Rising Stars Cymru 2020</b> mewn partneriaeth â Firefly Press i ganfod beirdd plant talentog o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig</li> <li>• Daeth <b>Llenyddiaeth Cymru</b> a Penguin Random House ynghyd er mwyn cefnogi digwyddiad <b>#WriteNow</b> yng Nghaerdydd</li> <li>• Drwy'r <b>Adolygiad Sefydliadol</b>, crëwyd swydd a fyddai'n canolbwyntio'n rhannol ar gyflawni a monitro'r Flaenoriaeth Dactegol Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb</li> </ul> |

### Crynodeb o Brosiectau

*\*Mae ein Blaenoriaethau Tactegol yn plethu drwy'r tair Colofn Gweithgaredd ac yn cynnwys y blaenoriaethau thematig sy'n ymddangos ym mhopeth a wnawn. At ddiben yr Adroddiad Blynyddol hwn, rydym wedi tynnu sylw at brosiectau sy'n dangos orau sut y caiff pob blaenoriaeth ei chyflawni.*

### Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli

Mae Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli yn rhoi cymorth ariannol a chyngor i awduron o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig, ac awduron sydd ag anabledd neu salwch (meddyliol neu gorfforol), i ddatblygu eu prosiectau eu hunain, gan annog arloesi artistig. Yn 2019/2020, rhoddwyd grantiau gwerth hyd at £1,000 yr un i 8 awdur i ddarparu 7 prosiect a gyfrannodd at eu datblygiad proffesiynol. Roedd 4 o'r 7 prosiect yn cynnwys gweithdai a ddarparwyd i dros 100 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd, yn bennaf o gefndiroedd sydd wedi'u gwrthio i'r cyrion. Ymhlith y cynnyrch a ddeilliodd o'r grant roedd pamffled yn edrych ar ddadwladychu drwy lygaid llenyddol, sioe farddoniaeth wedi'i pherfformio, a chwblhau cwrs ysgrifennu creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cafodd y prosiect ymateb cadarnhaol gan lawer yn y sector, gan arwain nifer o sefydliadau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig i ofyn am wybodaeth am y model cyflawni. Rhoddodd BBC Radio Wales sylw i'r prosiect fel rhan o'r Arts Show. Cafodd y prosiect ragor o sylw mewn cyfryngau amlwg eraill gan gynnwys *The Bookseller*. Cafodd effaith hefyd ar Llenyddiaeth Cymru, gan ddylanwadu ar benderfyniadau panel penodi ac arferion gorau wrth gynnig cymorth unlongrychol i ymgelwyr.

"Roedd y broses ymgeisio'n glir ac yn syml, felly ddim yn rhy frawychus fel llawer o geisiadau eraill am gyllid..."

### Unigolyn a gafodd gyllid

Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli

### Gwobr Rising Stars Cymru 2020

Ar y cyd â Firefly Press, y cyhoeddwr llyfrau plant ac oedolion ifanc o Gymru, lansiodd Llenyddiaeth Cymru Wobr Rising Stars Cymru 2020 ar ôl cael ei ysbrydoli gan y blodeugerdd *Rising Stars*, a gafodd ei chreu gan Pop Up ac Otter Barry Books yn 2017. Roedd y cynllun newydd hwn yn dod o hyd i feirdd plant o gefndiroedd Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig sy'n byw yng Nghymru, gyda'r bwriad o gyhoeddi blodeugerdd o'u gwaith. Dewiswyd tri egin awdur i gael y wobwr, a honno'n cynnwys gwobr ariannol, lle ar encil ysgrifennu, a chyfle i gysgodi'r Children's Laureate for Wales. Ar ôl ennill y wobwr, cafodd y bardd Alex Wharton gytundeb cyhoeddi gyda Firefly ar gyfer ei gasgliad o farddoniaeth i blant, *Daydreams and Jellybeans*, sydd i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2021.

"Mae'n gyffrous iawn bod Gwobr Rising Stars Cymru, sy'n cael ei chynnal gan Llenyddiaeth Cymru a'i noddi gan Quarto Translations, wedi gallu rhoi llwyfan i dri bardd mor ysbrydoledig yn syth bin. Gobeithio mai megis dechrau yw hyn, a'n nod yw cyhoeddi blodeugerdd o waith beirdd Rising Stars o Gymru yn y dyfodol go agos."

### Penny Thomas

Cyhoeddwr, Firefly Press



## Plant a Phobl Ifanc

### Strategaeth

Drwy roi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau ac ymwneud ag ysgrifennu, darllen, gwrando a gwylio creadigol, a thrwy ddatblygu carfan o awduron ifanc talentog, byddwn yn cyfrannu'n sylweddol at wella bywydau a lles cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

### Data am Berfformiad

- Bu 145 o ysgolion yn ymwneud â ni drwy brosiectau ein gweithgareddau craidd
- Roedd 58% o'r disgyblion a fu'n ymwneud â Bardd Plant Cymru o gartrefi di-Gymraeg
- Cytunai 96% o athrawon bod gweithdy gan Fardd Plant Cymru yn gwella hyder eu disgyblion.
- O fewn 3 mls i lansio'r prosiect, roedd y Children's Laureate Wales wedi ymweld neu wedi trefnu i ymweld â 36 o ysgolion.

### Uchafbwyntiau

#### Uchafbwyntiau Plant a Phobl Ifanc

##### Cymeriadau

##### Harf

##### Hydref

- Comisiynwyd Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru 2017-19, i ysgrifennu cerdd i ddathlu 100 mlynedd ers sefydlu elusen Achub y Plant
- Cynhaliodd Bardd Plant Cymru 2017-19 [Glwb Cysgu](#) yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd i grŵp o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6
- Cyhoeddwyd mai Gruffudd Owen fyddai Bardd Plant Cymru 2019-21 mewn seremoni yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, seremoni a ddarlledwyd yn fyw ar S4C. Gwnaed y cyhoeddiad gan Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru, ac Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Ysgrifennodd Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru 2017-19, gerdd i nodi hanner can mlynedd ers i ddyn lanio ar y lleuad
- Cynhaliodd Bardd Plant Cymru brosiect mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin, y gymdeithas dal, i greu cerddi a murluniau celf mewn cyfres o weithdai gyda phlant yn Llanrwst. Dangoswyd y gwaith yn ystod agoriad y Babell Lân yn Eisteddfod Genedlaethol 2019
- Rhyddhawyd cerdd fideo drwy brosiect Bardd Plant Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, i gefnogi ymgyrch ragbrofol Ewro 2021 UEFA Merched Cymru
- Ar ôl galwad agored, cyhoeddwyd mai Eloise Williams fyddai'r gyntaf i gyflawni swydd y Children's Laureate Wales, a hynny mewn seremoni yn Ysgol Gynradd Parc Jilwblî yng Nghasnewydd
- Roedd gweithgareddau a drefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru i blant a phobl ifanc ar Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth yn cynnwys gweithdai yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

## Gaeaf

- Bu'r **Children's Laureate Wales** yn annog plant Cymru i rannu fideos yn dangos eu hoffter o lyfrgelloedd, er mwyn dathlu Wythnos Llyfrgelloedd 2019
- Bu Gruffudd Owen, **Bardd Plant Cymru**, yn cynnal wythnos o weithdai ysgrifennu creadigol ar thema pêl-droed yn Wrecsam, a hynny i gyd-fynd ag arddangosfa Pêl-droed am Byth! Amgueddfa ac Archifau Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- Mewn partneriaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru, lansiodd **Cystadleuaeth Barddoniaeth Ewro 2020 Cymru**. Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales fyddai'r beirniaid ynghyd â phêl-droedwyr rhyngwladol Cymru (gohiriwyd oherwydd COVID-19)
- Bu'r **Children's Laureate Wales** yn gweithlo gyda Theatr Clwyd i gynnal [diwrnod o weithdai ysgrifennu a chelf](#) i ddathlu Diwrnod Llyfr y Byd 2020
- Dechreuodd y **Children's Laureate Wales** a **Bardd Plant Cymru** baratol heriau ysgrifennu wythnosol gyda'r nod o ysbrydoli plant Cymru drwy lenyddiaeth yn ystod pandemig COVID-19

## Crynodeb o Brosiectau

*\*Mae ein Blaenoriaethau Tactegol yn plethu drwy'r tair Colofn Gweithgaredd ac yn cynnwys y blaenoriaethau thematig sy'n ymddangos ym mhopeth a wnawn. At ddiben yr Adroddiad Blynyddol hwn, rydym wedi tynnu sylw at rai o'n prosiectau sy'n dangos orau sut y caiff pob blaenoriaeth ei chyflawni.*

### Bardd Plant Cymru

Llenyddiaeth Cymru sy'n gyfrifol am gynllun Bardd Plant Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru, Urdd Gobaith Cymru, S4C a Llywodraeth Cymru. Dyma swydd lysgenhadol genedlaethol sy'n ceisio helpu pobl ifanc i garu llenyddiaeth drwy weithdai, perfformladau a gweithgareddau. Yn 2019/2020, bu dau o Feirdd Plant Cymru yn cydweithio wrth i ddechrau a diwedd eu cyfnodau yn y swydd orgyffwrdd. Daeth cyfnod dwy flynedd Casia Wiliam, Bardd Plant 2017-2019, i ben drwy ymwneud â disgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon yng Nghasnewydd a thîm pêl-droed cenedlaethol merched Cymru. Lluniwyd cerdd ganddynt i gefnogi ymgyrch ragbrofol Ewro 2021 UEFA Merched Cymru. [Cliciwch yma](#) i weld fideo am y bartneriaeth rhwng Llenyddiaeth Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru.

Pan ddechreuodd Gruffudd Owen yn y swydd ym mis Medi 2019, parhaodd i ysbrydoli plant Cymru drwy weithdai mewn ysgolion a mannau eraill, ac mae'n ysgrifennu cerddi i nodi achlysuron arbennig ac ymgyrchoedd ac iddynt arwyddocâd cenedlaethol. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2019, cynhaliodd wythnos o weithdai ysgrifennu creadigol ar thema pêl-droed yn Wrecsam, a hynny i gyd-fynd ag arddangosfa Pêl-droed am Byth! Amgueddfa ac Archifau Bwrdeistref Sirol Wrecsam. [Cliciwch yma](#) i ganfod mwy.

Drwyddo draw, bu'r cynllun yn ymwneud â dros 1,600 o blant wyneb yn wyneb, 39 o ysgolion, a 12 o sefydliadau, a chreodd 8 o gerddi wedi'u comisiynu. Bydd y prosiect yn dathlu'i 20fed pen-blwydd yn 2020.

*"Am weithdy gwyh, yn llawn cyffro ac egni. Roedd meddylliau bawb yn y dosbarth wedi deffro. Roedd yn braf gweld a chlywed am dechnegau newydd wrth ysgrifennu cerddi. Roedd yn wych gweld Gruff yn cynnwys syniadau a sylwadau pob disgybl, fel eu bod i gyd yn teimlo perchnogaeth dros y cerddi a ysgrifennwyd ar y cyd, a'u gwneud yn unigryw i ni."*

**Athro yn Ysgol Dyffryn Banw**  
**Gweithdy Bardd Plant Cymru**



### Children's Laureate Wales

Ym mis Medi 2019, cyhoeddwyd mai Eloise Williams, y bardd plant poblogaidd o Sir Benfro, fyddai'r gyntaf erioed i gyflawni swydd y Children's Laureate Wales, ar ôl galwad gyhoeddus. Gwnaed y cyhoeddiad o flaen 150 o ddisgyblion yn Ysgol Gynradd Parc Jiwbilli yng Nghasnewydd, lle mae Eloise yn Noddwr Darllen. Denodd y digwyddiad gryn sylw yn y wasg, ac mae hynny wedi parhau drwy gydol y flwyddyn. Mewn llythyr agored at blant Cymru ar ddechrau'i chyfnod yn y swydd, pwysleisiodd Eloise pa mor gyffrous oedd hi a chymaint o fraint oedd bod yn fardd plant; sut y byddai'n gwneud ei gorau glas i'w helpu i ddod o hyd i'w straeon eu hunain; sut y byddai'n gweithio i sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n dda mewn llenyddiaeth; ac yn bwysicach na dim, sut y byddai'n sicrhau bod eu lleisiau'n bwysig. Mae'r llythyr llawn i'w weld [fan hyn](#).

Roedd blwyddyn gyntaf Eloise Williams yn llwyddiannus dros ben, wrth iddi ddarparu gweithgareddau creadigol mewn lleoliadau addysg a mannau eraill i blant ledled Cymru. Ym mis Mawrth 2020, buom yn cydweithio â Theatr Clwyd i ddathlu Diwrnod Llyfr y Byd drwy gynnal diwrnod o weithdai ysgrifennu creadigol a chelf, gyda'r plant yn creu llyfrau plygu yn llawn printiadau yr oedd eu straeon wedi'u hysbrydoli. Mae prosiect Children's Laureate Wales wedi ymwneud â dros 2,000 o blant a phobl ifanc, wedi ymweld â 40 o ysgolion mewn 14 o awdurdodau lleol, ac wedi cynnal 10 o weithdai, digwyddiadau neu brosiectau y tu allan i'r ysgol rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020.

"Heb or-ddweud, dyna un o'r diwrnodau gorau imi'i gael ers dod yn athro, a'r digwyddiad gorau o'i fath imi erioed fod yn rhan ohono. Dydw i erioed wedi gweld awduron ifanc yn canolbwyntio cymaint, ac wedi'u hysbrydoli yn y fath fodd. Roedd yn ddosbarth meistr mewn tanio brwdfrydedd, herio ac ennyn diddordeb plant drwy ysgrifennu creadigol. Roedd yn ddiwrnod bendedig."

**David Jarvis**

Athro yn Ysgol Gynradd Sili, Penarth

"Roeddwn i'n synnu bod Eloise Williams wedi dod i'n hysgol ni, gan mai hi yw Children's Laureate cyntaf Cymru, a hithau'n brysur yn ysgrifennu llyfrau. Pan gyflwynodd hi'r gweithdy, sylweddolais ei bod hi'n bosibl bod yn awdur hyd yn oed os ydych chi o Gymru. Ym mis Chwefror, fe sgwennais l stori i Elsteddfod yr ysgol. Cofiais beth ddywedodd Eloise yn ystod y gweithdy, gan ddefnyddio beth rydw i'n ei glywed a'i weld. Sgwennais fy stori yn glir a defnyddio fy nychymyg fy hun. Fe ddes i'n awdur! Pan roddodd yr ysgol ddarn o fy stori ar Twitter, gwnaeth Eloise sylw amdani a gwnaeth hynny imi deimlo'n dda. Byddwn wrth fy modd pe bai Eloise yn ymweld â'n hysgol ni eto gan ei bod hi'n ddoniol ac yn hyfryd."

**Disgybl ym Mlwyddyn 6**

Ysgol Gynradd Gymunedol Gwenfro

"Rydyn ni'n byw mewn ardal ddifreintiedig ac nid yw pethau fel hyn yn digwydd i ni, fel rheol. Roedd y plant wrth eu boddau'n dod i'w hadnabod a'i chyfarfod. Roedd hi mor gyfeillgar ac agos-atoch, a theimlodd y plant a'r oedolion hynny'n syth bin. Bu'n wych gweld yr effaith ar ddarllen ac ysgrifennu'r plant. Mae hi wedi gwneud darllen ac ysgrifennu'n bethau mwy pwrpasol yn yr ysgol, ac rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio gydag Eloise."


**Dirprwy Bennaeth**

Ysgol Gynradd Gymunedol Gwenfro



# Gweithrediadau

2019/2020





## Codi Arian

### Strategaeth

Byddwn yn lleihau cyfran yr incwm sy'n deillio o gyllid cyhoeddus o 66% yn 2018/19 i 62% erbyn 2023 (mae hyn yn gyfystyr â chodi tua £465,869 mewn cyllid nad yw'n arian cyhoeddus erbyn 2023) drwy wneud y canlynol:

- Creu perthnasau ffrwythlon sy'n para gyda Ymddiriedolaeth a Sefydliad o bwys
- Datblygu a manteisio ar gyfres o gynlluniau partneriaeth corfforaethol
- Manteisio i'r elthaf ar y defnydd o'r asedau sydd gennym eisoes, gan gynnwys refeniw uwch o docynnau a gwerthu nwyddau
- Sicrhau'r cyllid mwyaf drwy gynulleidfaoedd.

### Data am Berfformiad

Yn 2019/2020, codwyd cyfanswm o **£404,170** gennym o'r ffynonellau hyn, a hwnnw heb fod yn arian cyhoeddus:

- Ymddiriedolaethau a Sefydliadau: **£151,895**
- Comisiynau Corfforaethol: **£2,863**
- Nawdd: **£8,000**
- Ffynonellau Masnachol: **£238,214**
- Rhoddion ac Ymgyrchoedd: **£3,198**

Mae hyn yn golygu ein bod yn gwneud cynnydd da tuag at ein targed o greu £465,869 mewn cyllid nad yw'n arian cyhoeddus erbyn 2023, er y bydd pandemig COVID-19, y cyfyngiadau symud cysylltiedig a'r goblygiadau economaidd yn effeithio ar sut y byddwn yn cyflawni hyn yn 2020/2021 a'r cyfnod wedi hynny.



### Uchafbwyntiau

- Cawsom £12,500 gan Celfyddydau a Busnes Cymru i gyflogi intern codi arian am gyfnod o 10 mis, gan wella gallu'r sefydliad i godi arian a datblygu Strategaeth Codi Arian Llenyddiaeth Cymru



- Roedd ein cais grant ar y cyd â Mind Casnewydd ar gyfer prosiect newydd o bwys ym maes lles yn llwyddiannus a byddwn yn cael £40,152 i gyflawni hyn dros y 4 blynedd nesaf
- Roedd ein cais i ddod yn bartner cleient i Ymddiriedolaeth Rhys Davies yn llwyddiannus, gan sicrhau cyfanswm o £83,520 mewn nawdd i gategori ffuglen Saesneg Gwobr Llyfr y Flwyddyn dros 10 mlynedd, yn ogystal â nawdd i'n cwrs i egin awduron ac ymweliadau gan ysgolion â Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd
- Mae Tŷ Newydd wedi codi cyfanswm o £223,590 drwy ffioedd cyrsiau a llogi'r lleoliad (£188,926 a £34,664 yn y drefn honno – gweler busnes Tŷ Newydd am ragor o fanylion)
- Mae nwyddau a ddatblygwyd fel rhan o Gwlad y Chwedlau wedi bod yn ffordd llwyddiannus o godi incwm heb gyfyngiad arno, gan arwain at werthiant ar-lein gwerth £3,537

## Crynodeb o Brosiectau

### Ceisiodau am Grantiau gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gweithio i ddatblygu perthnasau hirdymor ag Ymddiriedolaethau a Sefydliadau o bwys. Yn 2019/20 cyflwynwyd ceisiodau gennym i 13 o Ymddiriedolaethau a Sefydliadau er mwyn ariannu amrywiaeth o weithgareddau, a chodwyd cyfanswm o £151,895. Roedd hyn yn cynnwys grantiau gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies ar gyfer amryw o gynlluniau, a £40,152 gan Comic Relief i ariannu prosiect lles o bwys gyda Mind Casnewydd.

### Cyflwyno Cynigion – Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi dechrau creu fframwaith i ddarparu gweithgareddau sy'n cyflawni ein hamcanion elusennol ac hefyd yn helpu busnesau i gyflawni eu hymrwymadau ym maes Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Yn 2019/2020, aethom ati i ddatblygu pecynnau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol i 3 chwmni o Gymru. Er i'r rhain fod yn aflwyddiannus (o bosibl oherwydd pandemig COVID-19), byddant yn sylfaen i gyflwyno syniadau tebyg yn y dyfodol.

### Cyflwyno Cynigion – Nawdd a Chomisiynau Corfforaethol

Drwy gomisiynau a nawdd corfforaethol, bydd Llenyddiaeth Cymru yn gallu cael gafael ar ffrydiau incwm newydd a allai fod yn sylweddol. Datblygwyd a chyflwynwyd syniadau am 12 o gynigion am nawdd corfforaethol unigryw yn ystod 2019/20, gan gynnwys cynigion yn ymwneud â'n prif weithgareddau fel Gwobr Llyfr y Flwyddyn, Children's Laureate Wales, a Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli.

### Creu Refeniw drwy Werthu Nwyddau

Gan fantelsio ar elddo deallusol a gaiff ei greu drwy weithgareddau fel Gwlad y Chwedlau, mae gwerthu nwyddau wedi parhau i gynyddu'r incwm masnachol y mae Llenyddiaeth Cymru yn ei greu. Gwerthodd Llenyddiaeth Cymru werth £3,537 o nwyddau o werthiant ar-lein yn 2019/2020, gan wella'r gwerthiant yn raddol yn ystod y flwyddyn drwy hysbysebion wedi'u targedu ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy ddefnyddio marchnadoedd newydd fel eBay.

### Cynlluniau Aelodaeth

Mae Llenyddiaeth Cymru yn ceisio defnyddio potensial ein statws elusennol yn well i godi arian gan ddefnyddio cynlluniau aelodaeth 'Cyfeillion'. Yn 2019/2020, mae Llenyddiaeth Cymru wedi parhau i dderbyn ffrwd gyson o roddion o gynlluniau aelodaeth, a'r rheini'n werth cyfanswm o £3,266. Rydym hefyd wedi dechrau datblygu fframwaith ar gyfer derbyn rhoddion misol pellach drwy ymgyrchoedd rhoi digidol (gweler isod).

### Digwyddiadau i Unigolion Gwerth Net Uchel

Mae Unigolion Gwerth Net Uchel yn rhoi cyfle i Llenyddiaeth Cymru gael gafael ar incwm ychwanegol. Yn 2019/2020, cysylltodd Llenyddiaeth Cymru â 10 o Unigolion Gwerth Net Uchel gyda golwg ar gael cymorth ariannol sylweddol. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein strategaeth a chwilio am gyfleoedd i ddatblygu rhwydwaith o roddwyr gwerth net uchel.

### Digwyddiadau Codi Arian Cymunedol ac Adnodd Gwirfoddolwyr



Mae codi arian cymunedol yn rhoi cyfleoedd newydd i gryfhau sefyllfa ariannol Llenyddiaeth Cymru, a gall cynlluniau gwirfoddolwyr leihau costau a gwella ein heffeithlonrwydd fel sefydliad. Rydym wedi parhau i groesawu interniaid o Brifysgol Humboldt yn Berlin, gan gynnwys dau arall yn ystod 2019/2020. Mae cymorth y rhain wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi cynyddu capasiti staffio'r sefydliad. Mae gwirfoddolwyr hefyd wedi bod yn hollbwysig wrth ddarparu'r prosiect Ffrindiau Darllen, a fyddai'n amhosibl hebddynt.

#### Ymgyrchoedd Rhoi Digidol

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu strategaeth ar gyfer cyfres o ymgyrchoedd rhoi digidol sy'n gwahodd rhoddion ac yn amlygu buddion gweithgareddau Llenyddiaeth Cymru. Byddwn yn dechrau rhoi'r strategaeth hon ar waith yn ystod 2020/21.

## Strategaeth

Byddwn yn gwella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad ein rhanddeiliaid o'n gwaith, a hynny drwy wneud y canlynol:

- Mapio ein rhanddeiliaid yn rheolaidd, a datblygu negeseuon cyfathrebu unigryw ar sail pa elfennau o'n gweithgareddau a'n Blaenoriaethau Tactegol sy'n apelio at bob un
- Cynnal ymarfer mapio ar y cyd, gan roi darlun o'r sector cyhoeddi a llenyddiaeth ehangach i egluro a chyfathrebu ein cylch gwaith yn well
- Cyfathrebu ein heffaith a'n cyrhaeddiad drwy ddeunyddiau hyrwyddo newydd ac ymgyrchoedd strategol a fydd yn adrodd straeon ein cleientiaid, ac yn ei thro, ein stori ni

Ein nod yw datblygu a chryfhau ein perthynas â'n rhanddeiliaid, boed yn unigolion, yn sefydliadau neu'n grwpiau. Gallwn wneud hynny i ddangos ein gwerth, i roi sicrwydd i'r rheini y mae'n sefydliad yn effeithio arnynt, neu i greu cyfleoedd i sicrhau buddion ar y cyd. Mae ymwneud â rhanddeiliaid yn rhan ganolog o'n brand. Rhan hanfodol o lwyddiant y brand hwnnw yw cyfathrebu'n rhagweithiol drwy negeseuon rheolaidd a chyson, ac ymdeimlad clir o ddiben a gwerthoedd.

## Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020, cyflawnwyd y canlynol:

- Cafodd ein tudalennau eu gweld dros **190,000** o weithiau ar ein prif sianeli ar wefannau, a hynny gan unigolion mewn dros 150 o wledydd
- Roedd **87%** o gynulleidfaoedd ar-lein yn ymwelwyr newydd â'r wefan
- Bu cynnydd o **15%** yn nifer y dilynwyr ar ein prif blatfformau ar y cyfryngau cymdeithasol
- Ymddangosodd **13** o gyfleoedd/galwadau allanol yn ein hadran Newyddion
- Cynhaliwyd **3** lansiad, digwyddiad neu dderbyniad sefydliadol llwyddiannus (lansio'r Cynllun Strategol yng Ngŵyl y Gelli, derbyniad Datblygu Awduron yn yr Eisteddfod Genedlaethol, a digwyddiad Gwobr Llyfr y Flwyddyn yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth)
- Bu **6** ymddangosiad ar y radio neu'r teledu (cyhoeddiadau Gwobr Llyfr y Flwyddyn ar Radio Cymru a Radio Wales)

## Uchafbwyntiau

- Lansiwyd Cynllun Strategol 2019-2022 yng Ngŵyl y Gelli 2019 ym mis Mai
- Cyhoeddwyd mai Gruffudd Eifion Owen oedd Bardd Plant newydd Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai 2019
- Agorwyd Encil Awduron Nant ym mis Gorffennaf 2019 gan ddenu archebion am lety o Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Unol Daleithiau yn y misoedd cyntaf
- Ym mis Medi 2019, cyhoeddwyd mai Eloise Williams fyddai'r gyntaf erioed i gyflawni swydd y Children's Laureate Wales. Dyma swydd lysgenhadol sy'n celsio ennyn diddordeb ac ysbrydoli plant Cymru drwy lenyddiaeth, gan hyrwyddo hawl plant i gael eu straeon a'u lleisiau wedi'u clywed
- Yn ein Bwletin Cyfleoedd Misol, sy'n cael ei gyhoeddi yn ein hadran Newyddion ar y wefan bob mis, hyrwyddwyd cyfanswm o 121 o gyfleoedd gwahanol i egin awduron ac awduron profiadol, ac ar gyfartaledd gwelwyd y bwletinau 300 o weithiau bob mis



## Crynodeb o Brosiectau

### Cynllun Marchnata a Chyfathrebu 2020-2023

Mae 2019/2020 wedi bod yn flwyddyn ddatblygu i'n Cynllun Marchnata a Chyfathrebu a'n Strategaeth Gyfathrebu ehangach, sy'n amlinellu ac yn symleiddio'r hyn y mae'r sefydliad am ei gyflawni drwy ein gwaith cyfathrebu. Rydym wedi creu tri o Amcanion Cyfathrebu sy'n cyd-fynd yn agos â'n gweledigaeth, ein cenhadaeth, a'n Nodau Llwyddiant sefydliadol, ynghyd â negeseuon pwysig sy'n ceisio amlygu ein llwyddiannau a'n heffaith, diffinio ein cylch gwaith a'n diben, a chryfhau ein perthynas â chleientiaid a rhanddeiliaid. Mae staff, Cyfarwyddwyr a Ffrindiau Beirniadol Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn allweddol wrth fwydo i mewn i'r broses hon, er mwyn sicrhau bod y cynllun a'r strategaeth wedi ystyried pob rhan o waith y sefydliad. Byddwn yn cyflwyno'r fframwaith hwn yn swyddogol yn hydref 2020 ac yn rhoi hyfforddiant trylwyr i staff a chyflenwyr.

### Canfod a Mapio Rhanddeiliaid, a Chyfathrebu Pwrpasol

Un o'n prif amcanion wrth ddatblygu Cynllun Strategol 2019-2022 oedd rhoi eglurder ynglŷn â'n cylch gwaith fel cwmni cenedlaethol a sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu teilwra ar gyfer grwpiau gwahanol o gleientiaid. Roeddem hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn cyfathrebu ein gwaith yn bwrpasol ac mewn ffordd sy'n berthnasol i'r unigolion a dargedir. Gan hynny, aethom ati i greu system fapio glir a chryno ar gyfer dadansoddi ein rhanddeiliaid yn fanwl. Yn 2019/2020 lanslwyd cyfres o arolygon rhanddeiliaid a roddodd gychwyn i'r broses hon. Er enghraifft, gofynnwyd i dros 400 o'r tanysgrifwyr i'n cylchlythyr beth oedd yn eu diddori fwyaf. Byddwn yn parhau i ymchwilio a datblygu ein trefniadau cyfathrebu pwrpasol yn 2020/2021, gan dreialu'r fframwaith hwn ymhlith ein rhanddeiliaid amlwg (e.e. gwleidyddion).

### Adnodd i Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Fel rhan o'r broses o roi'r Cynllun Cyfathrebu a Marchnata ar waith, datblygwyd Adnodd i Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, a bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r staff yn eu tro i'w helpu i ganfod, mapio, ac ymwneud â rhanddeiliaid ar lefel prosiectau. Bydd modd iddynt ganfod y buddsoddiad fydd ei angen i gyfathrebu â rhanddeiliaid o dan bob prosiect, a rhoddir canllawiau a thactegau iddynt i ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwerthuso hynny'n llwyddiannus.

### Hyrwyddo'r hyn mae Llenyddiaeth Cymru yn ei gynnig

Aethom ati i gynnal ymarfer brandio drwy holl brosiectau Llenyddiaeth Cymru er mwyn creu hunaniaeth glir ar gyfer pob un o'r Colofnau Gweithgaredd a Blaenoriaethau Gweithredol. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo fel rhan o'r Cynllun Marchnata a Chyfathrebu Newydd, a chaiff ei gyflwyno drwy ein Tablau Cynllunio Sianeli i gyd-fynd â'n tri amcan ar gyfer Cyfathrebu. Mae hyn hefyd yn cynnwys diweddariad i dudalen prosiectau Llenyddiaeth Cymru er mwyn dangos yn glir gyda phwy rydym yn gweithio, a pham.

### Mapio'r Sector Llenyddiaeth

Mae Mapio'r Sector Llenyddiaeth yn brosiect sy'n mynd rhagddo gyda'r nod o ddangos yn well i gleientiaid y cyfleoedd a'r llwybrau traws-sector sydd ar gael. Drwy arolygon niferus, rydym wedi ymgynghori â nifer o bartneriaid o wahanol sectorau, yn ogystal ag â'n cleientiaid presennol a darpar gleientiaid (rhai cleientiaid cyffredinol a rhai'n ymwneud â gweithgareddau penodol). Ymatebwyd ar unwaith i'r anghenion mwyaf a welwyd. Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, byddwn yn defnyddio'r data hwn i ddatblygu dealltwriaeth well o'r sector llenyddiaeth yng Nghymru, ac yn parhau i fuddsoddi mewn ymchwil a'r gwaith o ddatblygu llwybr gwledol a fydd yn cyfeirio pobl at y cyfle a/neu'r sefydliad mwyaf addas i ateb eu hanghenion.

### Cynllun Cysylltiadau Cyhoeddus mewn Argyfwng

Dros y 12 mis diwethaf, mae Cynllun Cysylltiadau Cyhoeddus mewn Argyfwng wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith ar lefel sefydliadol a lefel prosiectau. Dyma gynllun hyblyg ac ymarferol, a phrofwyd ei fod yn ased gwerthfawr a chryf. Rydym wedi monitro'r modd y mae'r cynllun wedi'i roi ar waith er mwyn deall pryd y mae angen uwchgyfeirio pethau, a phryd/sut y gellir cyfathrebu negeseuon orau. Mae hwn yn gynllun deallus, sy'n golygu y gallwn ddysgu mwy bob tro y caiff ei ddefnyddio.

### Adroddiad Blynyddol

I gyd-fynd â'r newidiadau yn ein gweithgareddau a'n prosiectau gweithredol, yn ogystal â'n cyfeiriad strategol ehangach, newidiwyd strwythur yr Adroddiad Blynyddol gan roi templed inni ar gyfer cyfnod tair blynedd Cynllun



**Strategol 2019-2022.** Mae'r fformat newydd hwn yn rhoi trosolwg o bob adran, y prif ffigurau, uchafbwyntiau, a manylion am bob prosiect er mwyn achub ar bob cyfle i ddangos ein cynnydd yn 2019/2020. Rydym hefyd wedi defnyddio'r cynnwys i greu nifer o ffeithluniau ac astudiaethau achos er mwyn rhoi cipolwg o'n heffaith a'n gwerth i randdeiliaid.

### Cyfathrebu ein Heffaith – Dweud y Stori

Yn rhan o'n fframwaith monitro a gwerthuso, ceir ffrwd gyfathrebu sy'n defnyddio ein data gwerthuso cynyddol, gan gynnwys straeon personol a ffeithluniau. Yn 2019/2020, lansiodd adran newydd ar ein gwefan, Ein Heffaith, i ddangos gwerth ein sefydliad ac i rannu gwybodaeth â rhanddeiliaid. Bydd y rhan hon o'r wefan yn cael ei diweddarau bob chwarter, gyda'r naratifau sydd i'w rhannu'n ymddangos yn eu tro. Bydd yn cynnwys straeon gan gleientiaid am eu llwyddiannau, ffeithluniau wedi'u diweddarau sy'n dangos ein cynnydd, a gwybodaeth gyffredinol i roi tystiolaeth a dangos ein heffaith.

### Chwilio am Ymgeiswyr Amrywiol

Oherwydd ein hymrwymiad i roi sylw i gynrychiolaeth a chydaddoldeb yn y sector, yn 2019/2020 canolbwyntiwyd ar greu perthynas â chwmnïau, rhwydweithiau, a sefydliadau eraill sydd ag arbenigeddau a mynediad at unigolion sy'n uniaethu â Nodweddion y Cleientiaid a Dargedir gennym. Er enghraifft, sefydlwyd perthynas weithio agosach gyda Celfyddydau Anabledd Cymru drwy gydol y flwyddyn, gyda'u swyddogion yn rhan o baneli gwneud penderfyniadau ar gyfer nifer o brosiectau ac yn rhoi sesiynau hyfforddiant i awduron ynghylch sut i ymwneud ag unigolion sydd ag anableddau meddyliol a chorfforol. Buom hefyd yn cyflwyno ein cyfleoedd datblygu i awduron yn eu cyfarfodydd rhwydweithio.

"Mae'n hanfodol rhoi cyfleoedd i awduron sy'n teimlo mewn unrhyw ffordd eu bod ar y cyrion, ac mae'r diddordeb [yn y cynllun Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli] yn y flwyddyn gyntaf yn dangos pa mor angenrheidiol yw'r cynllun. Roedd trafodaethau'r panel [grantiau] yn fywiog ac yn ddiddorol... Rwy'n gwybod o sgwrsio â'n haelodau pa mor falch ydynt bod cynllun o'r fath yn agored iddynt, ac rwy'n gobeithio'n daer y gall barhau yn y dyfodol"

**Sara Beer**

Swyddog Rhanbarthol Celfyddydau Anabledd Cymru yn y De



## Monitro a Gwerthuso

### Strategaeth

Byddwn yn cryfhau dylanwad allanol a mewnol data sy'n dangos effaith ein gweithgareddau drwy wneud y canlynol:

- Casglu, dadansoddi a chyfathrebu data perthnasol o bob prosiect yn fwy effeithiol, gan gynnwys data sy'n ymwneud â materion gweithredol
- Tracio, dadansoddi ac adrodd am gynnydd yn fewnol, gan gynnwys ar lefel sefydliadol
- Dysgu o'n dadansoddiadau a bwydo hyn i mewn i'n gwaith cynllunio, gan gynnwys y broses newydd i gyflwyno syniadau
- Cefnogi pobl eraill i fonitro a gwerthuso'u gwaith

Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn datblygu ar sail gwybodaeth yn y ffordd orau, ac yn cyfathrebu ein gwerth.

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Storiwyd **65%** o'r data o'n gweithgareddau a'n prosiectau gweithredol yn ein porth monitro a gwerthuso canolog
- Cafodd **1** Adroddiad blynyddol a **4** o Adroddiadau Gwerthuso Sefydliadol chwarterol eu creu, eu rhannu a'u huwchlwytho ar y wefan
- Cyflwynwyd syniadau am **75%** o brosiectau newydd drwy gyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli, ac fe'u trafodwyd gan ystyried gwersi diweddar i'w dysgu
- Cafodd **5** sefydliad a dros **20** o awduron gyngor, adnoddau a hyfforddiant ym maes Monitro a Gwerthuso.

### Uchafbwyntiau

- Cyflwynwyd Adroddiadau Sefydliadol chwarterol, a chroesawodd y Cyfarwyddwyr y rhain
- Ychwanegwyd adran 'gwersi i'w dysgu' i'r Adroddiadau Sefydliadol ar gais y Cyfarwyddwyr
- Lansiwyd adran newydd, '[Ein Heffaith](#)', ar wefan Llenyddiaeth Cymru, sy'n cynnwys yr Adroddiadau Sefydliadol

### Crynodeb o Brosiectau

#### Datblygu Gweithdrefnau Monitro a Gwerthuso

Yn 2019/2020, cafwyd llwyddiant wrth gyflwyno system i gasglu data mewnol misol, a honno'n gofyn i staff roi ffigurau ac uchafbwyntiau rheolaidd sy'n dangos ein cynnydd fel sefydliad tuag at dargedau. Caiff y wybodaeth hon ei bwydo i mewn i'n [Adroddiadau Sefydliadol](#) sy'n cael eu cyflwyno ym mhob un o gyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr. Fe'u cyhoeddir ar-lein hefyd fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn fwy tryloyw ac i rannu ein cynnydd gyda'n noddwyr a'n cynulleidfaoedd ehangach. Mae'n hanfodol mireinio ein systemau Monitro a Gwerthuso ymhellach er mwyn datblygu'r sefydliad. Ers cyflwyno Cynllun Strategol 2019-2022, a hwnnw'n amlinellu rhaglenni gweithgareddau a rhaglenni gweithredol clir, byddwn yn diweddarau'r fframweithiau perthnasol er mwyn canfod gwerth ein buddsoddiad.

#### Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Aethom ati i greu Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth newydd, a honno wedi'i chynllunio i gasglu data er mwyn dangos ein cynnydd. I sicrhau bod ein system ar gyfer casglu data demograffig yn addas i'r sefydliad ac i gynulleidfaoedd, cynhaliwyd ymchwil trylwyr a edrychodd ar ffyrdd o gasglu gwybodaeth am

nodweddion rhanddeiliaid. Llywiwyd hyn gan ddylanwadau o'r tu mewn a'r tu allan i'r sector celfyddydau a diwylliant, gan gynnwys pecyn cymorth Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood a'r drafodaeth gyhoeddus ddiweddar am hawliau unigolion sy'n arddel hunaniaeth Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i arddel hunaniaeth Gymreig yn y cyfrifiad cenedlaethol yng Nghymru. Pan oeddem yn hyderus y byddai'r ffurflen yn ein galluogi i adrodd am ein cynnydd, cafodd ei threialu mewn rhai gweithgareddau. Yn 2020/2021 bydd y ffurflen yn cael ei chyflwyno'n swyddogol, gyda dull syml i ddadansoddi a chasglu'r data.

#### Arolwg Hydredol

Cyflwynwyd rownd gyntaf ein Harolwg Hydredol sy'n dilyn 10 o gleientiaid dros dair blynedd ar ffurf astudiaethau achos bob chwe mis. Crëwyd cyfres o ddatganiadau i randdeiliaid ymateb iddynt gan ddefnyddio Graddfa Likert, ochr yn ochr â chwestiynau penagored i olrhain cynnydd drwy ddata ansoddol. Yn ystod 2019/2020, buom yn dadansoddi ein heffaith a'n canlyniadau sefydliadol, yn ogystal ag edrych ar ein rhyngweithio â chleientiaid er mwyn canfod cysylltiad rhwng unrhyw newidiadau i fywydau pobl a'n gweithgareddau ni. Mae tri chleient newydd wedi'u dewis i gymryd rhan yn Arolwg Hydredol 2020-2023.

"Rwy'n credu bod fy set sgiliau bersonol wedi gwella drwy ymwneud â phrosiectau sydd wedi'u cefnogi gan Llenyddiaeth Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf. Alla' i ddim dychmygu sut y gallwn fod wedi gwneud cais [am y swydd bresennol], na chael cynnig a derbyn y swydd, heb y gefnogaeth maen nhw wedi'i buddsoddi yn fy natblygiad personol."

**Cyfranogwr yn yr Arolwg Hydredol  
2019-2022**

#### Cyflwyno Syniadau am Brosiectau

I wella ein gwaith cyfathrebu mewnol a'n cynnyrch strategol, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod 100% o'n prosiectau, gan gynnwys cynigion gan bartneriaid, yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain erbyn 2022. Mae ein system adrodd fisol a'n gweithdrefnau ariannol newydd (e.e. canolfannau costau adrannol) wedi cynyddu canran y prosiectau sy'n cael eu cynnig o 20% ar ddechrau 2019 i 75% erbyn mis Mawrth 2020. Yn ystod 2020/2021, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pob prosiect yn cael sylw gan yr Uwch Dîm Arwain.



## Adnoddau Dynol

### Strategaeth

Byddwn yn creu diwylliant cadarnhaol a chynhwysol yn Llenyddiaeth Cymru, gyda'r sgiliau, y swyddi a'r strwythurau i gyflawni ein cenhadaeth yn effeithiol drwy wneud y canlynol:

- Creu strwythur staffio newydd, penodol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r sefydliad, a disgrifiadau swyddi sydd wedi'u seilio ar dasgau i'r holl weithwyr, gan gynnwys cyfrifoldebau ychwanegol sy'n rhychwantu timau
- Cynnig hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol i weithwyr o dimau amrywiol, a hynny wedi'i seilio ar fylchau mewn sgiliau
- Cyflwyno ac adolygu'n flynyddol y Fframwaith Adolygu Datblygiad Perfformiad a datblygu Cynllun Lles i'r Staff, gan roi hyfforddiant i reolwyr llinell pan fydd hynny'n briodol
- Rhoi sylw i'r targedau recriwtio a geir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol mewn unrhyw ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol, a gweithio gyda sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru i wella arweinyddiaeth gynrychioladol yn y sector celfyddydau yng Nghymru
- Recriwtio gwirfoddolwyr ymroddedig i roi adnoddau ychwanegol i'n gwaith codi arian

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020, cyflawnwyd y canlynol:

- Roedd cyfartaledd o 80% o'r staff yn bresennol mewn 8 sesiwn hyfforddi i dimau amrywiol
- Elwodd 3 aelod o staff o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus
- Bu 81 o wirfoddolwyr yn ymwneud â phrosiectau a ddarparwyd neu a gefnogwyd gan Llenyddiaeth Cymru
- Mae 11% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn unigolion o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae 3 o'r rhain mewn swyddi uwch
- Mae 52% o'r staff a'r Cyfarwyddwyr yn siarad Cymraeg, gyda'r ffigur yn codi 58% wrth gynnwys dysgwyr Cymraeg

### Uchafbwyntiau

- Cwblhawyd yr Adolygiad Sefydliadol yn llwyddiannus, gan sicrhau bod gan y sefydliad yr adnoddau i gyflawni Cynllun Strategol 2019-2022
- Treialwyd sesiynau hyfforddiant i dimau amrywiol yn llwyddiannus, gan gyflwyno polisïau a gweithdrefnau newydd
- Drwy ddiwrnodau Cynllunio Creadigol Sefydliadol, anogwyd y staff i gyfrannu at strategaethau a chyfeiriad gweithgareddau a chynlluniau gweithredol
- Cafodd aelodau'r Uwch Dîm Arwain sesiwn hyfforddiant ar Fyfyrio i Reolwyr Llinell, ynghyd â chynnal cyfarfodydd adrannol penodol rheolaidd

### Crynodeb o Brosiectau

#### Mwy o Amrywiaeth o ran Staff a Llywodraethu

O blith ein gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr, mae ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chynrychiolaeth yn ymrwngwng i sicrhau y bydd 7% yn dod o gefndiroedd Pobl Dduon,



Asiaidd a Llafrifoedd Ethnig, 10% yn bobl ag anableddau a salwch hirdymor, a 20% yn bobl o gefndiroedd incwm is, a hynny erbyn 2023. Datblygwyd ein holl hysbysebion recriwtio o dan fframwaith mwy cynhwysol a chroesawgar er mwyn annog ceisiadau amrywiol. Maent yn cynnwys proses ymgeisio fwy hyblyg ac ymrwymiad i ganolbwyntio mwy ar botensial a thalent newydd. Cymerodd swyddogion gweithredol ran mewn sesiynau hyfforddiant ar ragfarn ddarwybod yn ogystal â gweminarau a chysiau ar-lein amrywiol i wella ymwybyddiaeth a rhannu gwersi. Mae'r swyddogion gweithredol yn cynllunio ymgyrch recriwtio i'r Bwrdd yn ystod 2020/2021, wrth i bobl ymddeol o Fwrdd y Cyfarwyddwyr, ac mae swydd y Gadair hefyd angen ei llenwi. Y bwriad yw datblygu archwiliad o sgiliau'r Bwrdd er mwyn rhoi sylw i unrhyw fylchau.

#### Adolygiad Sefydliadol

Yn ystod 2019/2020, dechreuodd y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr Adolygiad Sefydliadol gyda'r nod o sicrhau bod gan y sefydliad yr adnoddau a'r sgiliau i gyflawni Cynllun Strategol 2019-2022. Roedd hyn yn cynnwys ailstrwythuro'r staff, disgrifiadau swyddi newydd, a dealltwriaeth well o'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a phrosiectau gweithredol. Gyda chefnogaeth Rhaglen Wytnewch Cyngor Celfyddydau Cymru, gweithiwyd gyda Leslie Rossiter, yr ymgynghorydd Adnoddau Dynol, a lywiodd y broses a hwyluso sesiynau ymgynghori â'r holl staff yn swyddfeydd Caerdydd a Thŷ Newydd. Cwblhawyd yr Adolygiad ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae Llenyddiaeth Cymru yn ymwybodol nad yw rhai elfennau o'r adolygiad wedi'u cyflwyno'n llawn eto oherwydd COVID-19. Bydd unrhyw gamau gweithredu sy'n weddill yn cael eu hadolygu ochr yn ochr â'r cynlluniau i ddychwelyd i weithio yn y swyddfa, ac wrth i ail gyfnod cyflawni ein Cynllun Strategol ddechrau.

#### Disgrifiadau Swyddi Newydd i'r Staff

Fel rhan o'r broses o roi Cynllun Strategol 2019-2022 a'r Adolygiad Sefydliadol ar waith, diweddarwyd holl ddisgrifiadau swyddi'r staff er mwyn adlewyrchu dull o weithio ac arwain sy'n rhannu cyfrifoldebau'n ehangach, yn ogystal â dull mwy hyblyg o weithio sy'n seiliedig ar dasgau penodol. Mae gan y staff bellach ddealltwriaeth gliriach o'r tasgau y maent yn gyfrifol amdanynt ar y cyd, ac mae hyn wedi arwain at ymdeimlad cryfach o rannu cyfrifoldeb ac at well cydweithio drwy'r holl sefydliad. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r staff i sicrhau bod arbenigeddau a diddordebau'n dal i gael sylw wrth greu disgrifiadau swyddi, yn ôl y galw, ynghyd ag annog cyfleoedd newydd drwy hyfforddiant i staff a datblygu proffesiynol.

#### Strwythur Staffio Newydd

Fel rhan o'r Adolygiad Sefydliadol, cyflwynwyd strwythur staffio newydd i adlewyrchu ein cyfeiriad strategol newydd. Y nod oedd gwella'r prosesau gweithio sy'n rhychwantu timau, gan fod hynny'n angenrheidiol i gyflawni ein tair Blaenoriaeth Dactegol a galluogi mwy o blethu rhwng y tair Colofn Gweithgaredd. Bydd y Tîm Gweithredol yn adolygu effeithlonrwydd ac effaith y strwythur staffio newydd drwy ymgynghori â staff yn ystod 2020/2021, gan roi sylw i unrhyw fylchau mewn sgiliau sy'n dal i fodoli neu sydd wedi deillio o COVID-19 (e.e. gweithio digidol).

#### Cynllun Lles y Staff

Roedd 2019/2020 yn flwyddyn ymchwil a datblygu i Gynllun Lles y Staff, ac roedd y gwaith ymgynghori a wnaed â'r staff ynghylch yr Adolygiad Sefydliadol hefyd yn gyfle i drafod diwylliant y gweithle a lles y staff yn ffurfiol. Byddwn yn ymgynghori rhagor â'r staff am y Cynllun Lles i sicrhau ei fod yn rhoi sylw i effaith Covid-19 a modelau gweithio yn y dyfodol. Y cam nesaf fydd sefydlu gweithgor o blith y staff i ddatblygu'r cynllun ar y cyd, gan gelsio barn cydweithwyr a chyflwyno newid go iawn, hirdymor, a fydd yn gwella lles pawb.

#### Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol i Staff

Yn ystod 2019/2020, rhoddwyd mwy o hyfforddiant i dimau amrywiol a mwy o gyfleoedd, gyda chymorth ariannol, i staff ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant. Cafodd yr holl staff hyfforddiant ar ein polisïau Caffael, Taliadau i Ymddiriedolwyr, a Theithio a Chynhallaeth, a hynny mewn gweithdai rhyngweithiol a difyr. Cafodd aelodau unigol o staff gyfle hefyd i fanteisio ar gyfleoedd datblygu proffesiynol er mwyn gwella sgiliau sy'n berthnasol i'w swyddi. Er enghraifft, cwblhaodd ein Swyddog Cyllid gymhwyster cyfrifeg Lefel 4 yr AAT, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgodd wrth gyflwyno'n systemau cyllid newydd. At hynny, croesawyd Intern Creadigol Celfyddydau a Busnes a ddilynodd raglen hyfforddiant a mentora busnes, gan arbenigo mewn Datblygu Busnes.

"Mae'r Interniaeth greadigol gyda Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn brofiad amhrisiadwy, gan fy helpu i ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol. Mae'r cyfle i ymuno â'r sefydliad am 10 mis wedi rhoi sgiliau a



gwybodaeth imi na fyddai wedi bod ar gael fel arall, ac yn ei dro mae hynny wedi rhoi mwy o hunanhyder imi a mwy o hyder yn fy ngwaith.”

**Owen Wyn Jones**

Swyddog Datblygu ac Intern Creadigol Celfyddydau a Busnes

#### **Fframwaith Adolygu Datblygiad Perfformiad**

Ar ôl gwerthuso cylch 2018/2019, diwygiwyd y fframwaith sy'n cael ei ddefnyddio i adolygu perfformiad y staff ac i ganfod bylchau mewn sgiliau yn ein gweithlu. Llenwodd y staff arolwg, gan roi adborth a chynnig syniadau i wella ein cyfnod adolygu datblygiad perfformiad blynyddol. Oherwydd Covid-19 a'r newidiadau o bwys i'r modd rydym yn gweithio, byddwn yn adolygu'r fframwaith ymhellach i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r modelau presennol, cyn ei gyflwyno drwy hyfforddiant i staff yn 2020/2021.

#### **Polisi Caffael Diwygiedig**

Yn unol â'r ymrwymadau yn ein Cynllun Strategol 2019-2022 a'n Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar ei newydd wedd, yn 2019/2020 aethpwyd ati i ddiwygio ein Polisi Caffael ac mae hynny wedi cael dylanwad mawr ar ein modelau ar gyfer darparu gweithgareddau. Rydym bellach yn hysbysebu'r rhan fwyaf o gyfleoedd gyda thâl i awduron yn agored, a hynny drwy alwadau sy'n cael eu rhannu â'n rhwydweithiau er mwyn annog unigolion nad ydynt wedi ymwneud â Llenyddiaeth Cymru o'r blaen i ymgeisio. Rydym hefyd wedi cyfyngu nifer y cyfleoedd y gall unrhyw awdur unigol fanteisio arnynt mewn blwyddyn i 4, sy'n golygu y gallwn roi mwy o gyfleoedd i egin awduron. Crëwyd templed recriwtio a fydd yn sicrhau bod staff yn gallu cydymffurfio â'r polisi newydd yn rhwydd. Cafodd y staff sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol ar hyn, ac fe'u hanogwyd i chwilio am dalent a chyflenwyr newydd.

## Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

### Strategaeth

Byddwn yn cynyddu'r incwm sydd heb fod yn arian cyhoeddus a gaiff ei greu drwy weithgareddau Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd o £223,590 yn 2019/2020 i £250,000 erbyn 2023, a hynny drwy wneud y canlynol:

- Codi ffioedd cyrsiau o raglen 2019 ymlaen
- Cynyddu nifer y cleientiaid ar bob cwrw drwy well cynllun marchnata a rhaglennu arloesol wedi'i seilio ar ymchwil manylach i'r galw ymhlith cleientiaid
- Cynnig syniadau am gyrsiau unigryw i fusnesau er mwyn eu helpu i gyrraedd eu targedau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ac ateb eu hanghenion busnes, gan ddilyn hyn â nawdd i brosiectau elusennol
- Datblygu a lansio cyrsiau ar-lein
- Cynyddu'r refeniw drwy roddion, gan gynnwys ymgyrchoedd codi arian, cynllun aelodaeth a digwyddiadau cymunedol i godi arian
- Manteisio ar y gwasanaethau heb fod yn ariannol y mae gwirfoddolwyr yn eu cynnig
- Mwy o geisiadau systematig am grantiau gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau er mwyn gwneud gwaith datblygu a chadwraeth i wella atyniad unigryw y ganolfan ac i gynyddu'i chapsiti preswyl
- Mwy o fuddsoddiad yn ansawdd yr hyn y mae ein cyfleuster yn ei gynnig er mwyn gallu cynyddu ffioedd cyrsiau a chyfraddau llogi'r lleoliad yn y dyfodol

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Codwyd **£136,006** drwy ffioedd cyrsiau agored yn 2019
- Codwyd **£18,316** drwy logi'r lleoliad a chyfleodd encil yn Nant, a thrwy incwm ychwanegol o gyrsiau ar ôl cynyddu capasiti cyrsiau agored drwy ddefnyddio ystafelloedd gwely Nant. Codwyd **£30,163** drwy logi'r lleoliad a chynnal cyrsiau masnachol yn ystod adegau tawel yn y ganolfan
- Codwyd **£39,163** drwy gyrsiau addysgol
- Cytunai **86%** o'r rheini a oedd wedi bod ar gyrsiau yn Nhŷ Newydd bod eu hymwellad wedi'u helpu i wneud cynnydd fel awduron, a dywedodd **97%** y byddent yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol

### Uchafbwyntiau

- Lanswyd rhaglen Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd 2020 gyda chysiau agored yng ngofal dros 60 o diwtoriaid, gan gynnwys awduron sydd wedi cyrraedd rhestrau'r gwerthwyr gorau, awduron llawryfog, a beirdd o fri
- Sicrhwyd 2 grant gan Ymddiriedolaethau a Sefydliadau i wneud gwaith yn Nhŷ Newydd: £9,000 gan yr Ashley Foundation tuag at adnewyddu Nant a grant o £10,000 i wneud gwaith cadwraeth brys ar y prif dŷ
- Ymwelodd dros 100 o bobl ar Ddiwrnod Agored Tŷ Newydd, a drefnwyd mewn partneriaeth ag Amgueddfa Lloyd George fel rhan o fis Drysau Agored blynyddol Cadw

### Crynodeb o Brosiectau

#### Diwygio Ffioedd Cyrsiau Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Yn unol â chwyddiant, ac i ddangos gwerth ein cyrsiau o'u cymharu â chynigion ein cystadleuwyr, byddwn yn parhau i ddiwygio a chodi ffioedd cyrsiau pan fydd angen gwneud hynny, gan geisio sicrhau yr un nifer o archebion fan lleiaf o'r naill flwyddyn i'r llall. Dylid cydbwyso hyn ag ysgoloriaethau caledi i awduron ar incwm



isel, ac ymgyrch farchnata barhaus i wrthbwysu unrhyw ymatebion negyddol i'r ffioedd uwch. Yn rhaglen gyrsiau 2019, codwyd y ffioedd 13% ac ni wnaeth hyn effeithio'n negyddol ar y ffigurau archebu. Bydd y ffioedd archebu'n cael eu diwygio eto yn rhaglen 2021.

#### Gwelliannau i Safle Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Yn ogystal â rhoi sylw i broblemau brys a amlygwyd yng Nghynllun Cadwraeth 2018, parhawyd i wella'r ystafelloedd gwely, yr ystafelloedd ymolchi, yr ardaloedd cyffredin a'r tir o amgylch y tŷ i wella profiad ymwelwyr. Bydd y gwelliannau hyn yn golygu bod modd gosod ffioedd llogi a ffioedd cyrsiau uwch yn y dyfodol, gan annog pobl i ddychwelyd. Yn 2019, y flaenoriaeth oedd y gwaith adnewyddu mawr ar Fwthyn Encil Awduron Nant. Cafodd y llety ei droi o fod yn rhan adfeiliedig a phroblematig o'r safle i fod yn ased moethus, llawn cyfleusterau, i ddatblygu awduron a chodi incwm. Ymhlith gwelliannau eraill i'r safle roedd gosod goleuadau synhwyro symudiadau y tu allan ac yn y coridorau i arbed ynni; diweddarau ystafell rhif 6, gan gynnwys gosod desg a charped newydd; a phrynu dodrefn newydd gan gynnwys 3 gwely sip-a-dolen maint brenin, a byrddau erchwyn gwely a chypyrddau dillad o ansawdd.

#### Llogi Lleoliad Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Mae'r berthynas gref sydd gennym â busnesau (e.e. asiantaeth Under the Thatch, sy'n gosod llefydd gwyliau) a'r gymuned ehangach wedi parhau i gynyddu'r incwm a gawn drwy logi'r lleoliad yn ystod adegau pan nad yw'r ganolfan a Nant yn cael eu defnyddio at ddibenion artistig – ac yn enwedig yn ystod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Yn ystod 2019 hefyd, arbrofwyd yn ofalus, ac yn llwyddiannus, â defnyddio Airbnb fel asiantaeth ar gyfer archebion munud olaf.

#### Datblygu Cyrsiau Ar-lein

Bydd cyrsiau creadigol ar-lein newydd yn rhoi cyfle i awduron newydd gymryd rhan mewn cyrsiau datblygu digidol os nad ydynt yn gallu teithio i Dŷ Newydd oherwydd anableddau, dyletswyddau gofal ac ati. Bydd y rhain yn rhoi ffrwd newydd o incwm yn y dyfodol, ac yn ffrwd artistig newydd hefyd. Yn 2020/2021, byddwn yn arbrofi â chysiau blasu byrrach a chysiau digidol hwy, sy'n debyg i gyrsiau preswyl. Bydd y rhain yn cyd-fynd â'n rhaglen o gyrsiau agored, ac yn ychwanegu atynt.

## Llywodraethu ac Ymgynghori â'r Sector

### Strategaeth

Byddwn yn gwella'n hymwybyddiaeth o'r adborth a gawn o'r sector llenyddiaeth yng Nghymru a'r tu hwnt, a'n hymateb i'r adborth hwnnw, drwy wneud y canlynol:

- Gwreiddio ymgynghori â rhanddeiliaid yn ein cylch blynyddol, ac ehangu'r rhwydwaith o rhanddeiliaid y byddwn yn ymgynghori â hwy
- Mynd ati'n systematig i sicrhau bod data a gwaith dadansoddi yn llifo rhwng rhanddeiliaid, staff a Chyfarwyddwyr
- Orlhain y broses o wneud penderfyniadau gwybodus ar bob lefel, gan gynnwys wrth gyflwyno syniadau am brosiectau ac yng nghofnodion cyfarfodydd

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Cynhaliwyd 5 o gyfarfodydd Grŵp Cyngori Bwrdd y Cyfarwyddwyr, 24 o Gyfarfodydd Gweithredol yr Uwch Dim Arwain, ac 1 Diwrnod Cynllunio Creadigol i'r holl staff
- Cynhaliwyd 17 o gyfarfodydd Ffrindiau Beirniadol i'n helpu gyda'n cyfeiriad strategol a'r broses o wneud penderfyniadau lefel uchel
- Ymatebodd 85 o unigolion i'n Harolwg Rhanddeiliaid cyntaf, gan roi adborth am ein cynnydd hyd yma

### Uchafbwyntiau

- Golygodd diwrnod Cynllunio Creadigol 2019/2020 y gallai'r staff gyfrannu at strategaethau a chyfeiriad gweithgareddau a chynlluniau gweithredol
- Amlygwyd sawl peth cadarnhaol yn ein Harolwg Rhanddeiliaid: ar y cyfan, mae teimlad bod ein Cynllun Strategol 2019-2022, a chan hynny ein cylch gwaith ymddangosiadol, yn glir ac yn gryno; mae teimlad ein bod yn fwy cynhwysol a democrataidd; a lle gwneir y gwaith hwnnw, mae croeso i'n hymdrechion i chwilio am dalent

### Crynodeb o Brosiectau

#### Ymgynghori â'n Grŵp o Rhanddeiliaid a Phartneriaid Strategol

Mae carfan o tua 200 o unigolion o grwpiau rhanddeiliaid a phartneriaid strategol wedi'i sefydlu, a'r garfan hon yn cael ei chynyddu a'i diweddarau'n rheolaidd wrth inni gyrraedd cleientiaid newydd drwy ein gweithgareddau. Yn hydref/gaeaf 2019, aethom at i ymgynghori â'r bobl hyn am ein cynnydd hyd yma, a hynny drwy ein Harolwg Rhanddeiliaid. Cafodd crynodebau manwl o'r canfyddiadau, sy'n rhoi sylfaen ar gyfer cymharu canlyniadau arolygon 2020 a 2021, eu rhannu â'r staff a'r Cyfarwyddwyr, ac maent yn dal i fod yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau yn y sefydliad.

"Yn y pen draw bydd eich gwaith yn fodd i dorri 'cylch hud' yr awduron sydd wedi ennill eu plwyf, wrth i leisiau mwy o bobl gael eu clywed"

#### Ymatebwr I Arolwg Rhanddeiliaid 2019

Am Gynrychiolaeth a Chydraddoldeb

"Mae angen ichi ganolbwyntio llai fyth ar ddarparu ar gyfer awduron profiadol ac annog y rheini sydd â thalent, yn gynharach yn eu gyrfaoedd, yn enwedig y rheini sydd heb gyhoeddi"



## Ymatebwr i Arolwg Rhanddeiliaid 2019 Am Ddatblygu Awduron

### Ymgynghori â Rhwydwaith y Ffrindiau Beirniadol

Sefydlwyd rhwydwaith o 20 o Ffrindiau Beirniadol, a'r rheini'n unigolion sydd â chysylltiadau da yn sectorau llenyddiaeth, cyhoeddi a diwylliant ehangach Cymru, ac yn barod i fod yn ddiflewyn ar dafod ac yn feirniadol mewn ffordd adeiladol. Mae'r rhwydwaith hwn yn cael ei ddiweddarw ar hyn o bryd. Yn 2019/2020, cynhaliwyd cyfweiliadau wyneb yn wyneb ddwywaith y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar ein cynnydd hyd yma. Cafodd trawsgrifiadau o'r sgysiau, a chrynodebau, eu rhannu â'r Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr er mwyn parhau i fod yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau yn y sefydliad.

"Cafodd Cynllun Strategol 2019-2022 groeso mawr – yn enwedig oherwydd ei eglurder, ei natur bwrsadol, a'i bwyslais. Roedd ymdeimlad go iawn bod hunaniaeth a chenhadaeth Llenyddiaeth Cymru wedi'u cyflwyno'n fwy eglur o lawer. Teimlai ymatebwyr fod y prosesau ymgynghori newydd yn ymdrech drylwyr, dryloyw a diffuant i ddatblygu ein strategaeth a'n gweithgareddau. Aeth un mor bell â'i alw'n 'rhagorol'".

### Dyfyniad

Dadansoddiad o Gyfweiliadau Ffrindiau Beirniadol 2019

### Trefniadau Llywodraethu'r Bwrdd Rheoli

Yn ystod 2019/2020, mae cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi dod yn gynyddol strwythurol eu natur, ac maent yn gwahaniaethu'n amlwg rhwng materion cyfansoddiadol, adrodd a thrafodaethau strategol. Mae'r Cyfarwyddwyr ar hyn o bryd yn adolygu cylch cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, gyda'r nod o gynyddu nifer y cyfarfodydd o 4 i 6 bob blwyddyn, gyda dau gyfarfod wedi'u neilltuo'n llwyr i drafod materion strategol a chreadigol. Mae hyn yn golygu bod modd mantelcio mwy ar arbenigeddau'r Cyfarwyddwyr, ac osgoi cyfarfodydd sy'n llawn trafodaethau am broblemau gweithredol. Rydym hefyd wedi creu cyfres o grwpiau Cyngori a grwpiau Gorchwyl a Gorffen sy'n cynnwys aelodau allweddol perthnasol o staff a Chyfarwyddwyr. Bydd y rhain yn gwneud penderfyniadau mwy penodol, lefel is, ac yn cyflwyno argymhellion i Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Ymhlith y pynciau a gafodd eu hystyried gan y grwpiau hyn yn 2019/2020 roedd y Cynllun Marchnata a Chyfathrebu newydd a'n gwaith ym maes Datblygu Awduron.

### Diwrnodau Cynllunio Creadigol

Cynhaliwyd gweithdy undydd a gafodd ei arwain yn bennaf gan staff nad oedd yn rhan o'r Uwch Dîm Rheoli, er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau rhwng lefel prosiectau a'r lefel strategol. Ymhlith y pynciau a gafodd sylw roedd gwerthuso'r hyn rydym yn ei gynnig ar hyn o bryd er mwyn creu cysylltiad gwell rhwng gweithgareddau. Bydd modd gwneud hyn drwy lwybrau cleientiaid, ymarferion creadigol i edrych ar y posibilrwydd o ailfrandio prosiectau, a phwyslais ar ein Colofn Gweithgaredd Cyfranogi. Roedd ail Ddiwrnod Cynllunio Creadigol wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2020, ond cafodd ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19.

### Cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain – Materion Gweithredol

Mae o leiaf ddau o wyth cyfarfod misol yr Uwch Dîm Arwain yn canolbwyntio ar faterion gweithredol, gyda staff ar y lefel weithredol yn y maes dan sylw'n cyfrannu'n fwy rheolaidd atynt. Mae'r cyfarfodydd hyn yn monitro gwrs i'w dysgu, Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac unrhyw risgiau cysylltiedig, ynghyd ag unrhyw faterion gweithredol eraill sydd wedi dod i'r amlwg, gan gynnwys ystyriaethau'n ymwneud ag Adnoddau Dynol a Chyllid.



## Hwyluso yn y Sector

### Strategaeth

Byddwn yn cynyddu ein cefnogaeth i'r sector llenyddiaeth ehangach drwy wneud y canlynol:

- Darparu llai o weithgareddau'n uniongyrchol
- Canolbwyntio mwy ar ein gwaith fel hwyluswyr neu bartneriaid i'r rheini sydd eisoes yn gweithio yn y maes hwn, neu'n newydd iddo
- Mynd ati'n bwrpasol i chwilio am sefydliadau llai o faint, ac artistiaid arloesol, ymgrychwyr cymdeithasol a gweinyddwyr ym maes y celfyddydau, a chyfrannu ein harbenigedd mewn modd nad yw'n ariannol
- Ysgogi eraill i ddarparu gweithgareddau llenyddol newydd

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Darparwyd **953** awr o waith hwyluso i'r sector
- Cafodd **718** o grwpiau, unigolion a sefydliadau gymorth drwy waith hwyluso
- Cafodd **98** o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid gymorth drwy waith hwyluso neu drwy ein rôl fel partneriaid eilaidd
- Cafodd **17** o brosiectau llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain, eu cyflwyno mewn ardaloedd lle mae angen

### Uchafbwyntiau

- Aethom ati i hwyluso a chroesawu ymweliad â Chymru fel elfen ddilynol ym Mhrosiect Tandem Europe, gan gyflwyno Solidarios para el Desarrollo, yr elusen o Sbaen sy'n bartner inni, i gysylltiadau yng Nghymru
- Rhoesom Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd fel gofod am ddim i grwpiau llenyddol, gan gynnwys cydweithfa Where I'm Coming From ac Y Stamp, a arweiniodd at 'Hunan-iaith', sef prosiect dwyieithog yn edrych ar iaith, hunaniaeth a diwylliant drwy ysgrifennu creadigol. Arweiniodd hynny at ddatblygu terminoleg Gymraeg newydd ar gyfer trafod hiliaeth.
- Buom yn prawffdarllen ac yn profi Pecyn Cymorth Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood i Gyflogwyr. Fe'n henwyd yn un o'r profwyr a chawsom ein cynnwys yn yr astudiaethau achos
- Cawsom gyfarfodydd ag asiantaethau llenyddol amlwg drwy Gymru i drafod sut y gallwn gydweithio ar brosiect mentora a chyfieithu
- Penodwyd ein Dirprwy Brif Weithredwr yn Aelod o Fwrdd Seren Books (Poetry Wales Press)
- Mae ein Cydlynnydd Prosiectau a Chyfathrebu yn aelod o'r grwpiau o randdeiliaid sy'n cael eu harwain gan Peak - Art yn y Mynydd Du, sy'n datblygu rhaglen ar gyfer Canmlwyddiant Raymond Williams yn 2021.

### Crynodeb o Brosiectau

Yn ystod 2019/2020, mae ein hadnoddau staffio wedi cael eu hailgyfeirio'n gynyddol i ysgogi gweithgareddau llenyddol sy'n cael eu darparu gan bobl eraill, ac i gefnogi'r rheini sydd eisoes yn gweithio yn y maes hwn, neu sy'n newydd iddo. Er enghraifft, buom yn cyd-drefnu digwyddiad Cymru fel rhan o daith catalog [Breaking New Ground](#) drwy'r Deyrnas Unedig, a hynny ar ran Pop Up Projects, Speaking Volumes a'r BookTrust. Y nod oedd



hyrwyddo amrywiaeth ymhlith y rheini sy'n creu straeon i blant. Rhannwyd rhai adnoddau gweithredol y gallir eu haddasu i arbed amser a chostau (e.e. polisïau allweddol). Cawsom gyfarfod ag Artes Mundi i'w rhoi ar ben ffordd, cyflwyno pobl, a rhannu gwybodaeth i'w helpu gyda rhaglen bosibl ar gyfer awdur plant preswyl. Cawsom gyfarfod hefyd â Voices from Care Cymru i esbonio ein gwaith a sut y gallent wneud cais am gyllid i ddarparu gweithgareddau llenyddol.

Roedd ein gwaith cyfathrebu hefyd yn ganolog i'n gwaith hwyluso yn y sector, wrth inni barhau i hyrwyddo a rhannu gwahanol gyfleoedd a datganiadau i'r wasg gan y sector ehangach drwy ein sianeli ar-lein a'n gwefan.

**"Roedd yn gyfle i awduron newydd ac awduron sydd wedi'u tangynrychioli weld eu henwau mewn print am y tro cyntaf, cael tâl am eu hamser, a chael eu mentora at y dyfodol. Mae'r camau ymarferol hyn i gyd yn hwb i hyder a gyrfaoedd awduron a allai fel arall gael eu hanwybyddu gan y sector ehangach"**

**Rhanddeiliad**

**Arolwg Hwyluso yn y Sector**

**"Drwy elch gwaith hwyluso, roedd modd inni fwrw ymlaen â'n prosiect. Cawsom gyfarfod yn swyddfa Llenyddiaeth Cymru ymlaen llaw, lle rhannodd y staff syniadau gwych a helpu i wella'r prosiect."**

**Rhanddeiliad**

**Arolwg Hwyluso yn y Sector**

## Cyllid

### Strategaeth

Byddwn yn gwella ein gwytnwch ariannol ac yn cyflwyno ffrydiau cyllido mwy amrywiol drwy wneud y canlynol:

- Adolygu a gwella ein gweithdrefnau a'n dulliau rheoli ariannol
- Treialu templedi rheoli cyllidebau ar gyfer pob prosiect
- Diweddarw codau cyfrifon a chanolfannau costau i adlewyrchu Cynllun Strategol 2019-2020
- Darparu hyfforddiant ariannol i'r Uwch Dîm Arwain a'r Cyfarwyddwyr
- Talu i'w Swyddog Cyllid gael hyfforddiant yr AAT
- Diweddarw'r Polisi Cronfeydd Wrth Gefn i sicrhau bod cronfeydd anghyfngedig yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol ac effeithiol
- Cyflwyno polisiau Caffael ac Adennill Costau Llawn

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Trefnwyd 65 o brosiectau gweithgareddau a phrosiectau gweithredol o dan 52 o ganolfannau costau, gan ddefnyddio ein system gyllid newydd
- Cyflwynwyd 1 Matrix Awdurdod Dynodedig
- Treialodd 4 aelod o staff templedi newydd i reoli cyllidebau
- Cyflwynwyd 2 bolisi cyllid newydd (Caffael ac Adennill Costau Llawn)

### Uchafbwyntiau

- Cwblhaodd ein Swyddog Cyllid gymhwyster Cyfrifeg Lefel 4 yr ATT
- Cyflwynwyd system gyllid newydd a rhoi hyfforddiant i'r staff
- Treialwyd taenlenni ariannol Rheoli Prosiect ymhlith y staff
- Penodwyd archwilyr newydd i gynnal yr archwiliad blynyddol ac i greu'r datganiadau ariannol

### Crynodeb o Brosiectau

#### Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Yn 2019, diweddarwyd y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn er mwyn dynodi dibenion a lefel y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael a'r cronfeydd dynodedig y bydd eu hangen ar y sefydliad. Arweiniodd hyn at greu dwy gronfa ddynodedig newydd – cronfa Adeiladau a chronfa Datblygu Cyfalaf Tŷ Newydd. Ar 31 Ionawr 2020, disgwyliad y byddai gan Llenyddiaeth Cymru y lefelau hyn o gyllid:

- Cronfeydd wrth gefn cyffredinol anghyfngedig: £165,000
- Cronfa adeiladau Tŷ Newydd: £30,000
- Cronfa Datblygu Cyfalaf Tŷ Newydd: £20,000

Fodd bynnag, oherwydd pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, penderfynodd y Cyfarwyddwyr y byddai'n briodol trosglwyddo unrhyw warged yn 2019/2020 i gronfeydd wrth gefn anghyfngedig y sefydliad, gan ragweld colli incwm yn 2020/2021. Mae'r cronfeydd wrth gefn anghyfngedig bellach yn £226,870.



### Templed! Cyllidebau Prosiectau

Yn 2019/2020, treialwyd templed i reoli cyllidebau prosiectau ymhlith rhai o'r staff, gyda'r nod o ysgafnhau'r pwysau, a chynyddu gwytnwch, wrth ddelio â'r wybodaeth ariannol sy'n gysylltiedig â chyllidebau bach a mawr. Roedd y system yn efelychu'r gyllideb ehangach ac yn cynnwys fformiwlâu i ganfod cyfanswm y gwariant yn chwarterol ac yn flynyddol, gan symleiddio ein gweithdrefnau adrodd fel y gall y staff gysoni'u cofnodion ag adroddiadau QuickBooks. Croesawodd y staff y dull hwn o weithio, gan ddweud bod y templed yn rhoi trosolwg clir iddynt o gyllidebau prosiectau. Byddwn yn cyflwyno'r templed hwn i holl aelodau'r staff yn 2020/2021 ac yn ei ddatblygu ymhellach fel dull o roi rhagolygon yn y blynyddoedd dilynol i gynyddu pa mor effeithiol yw adroddiadau.

### Llawlyfr Gweithdrefnau Ariannol a Gweithdrefnau Awdurdodi Datblygedig

Mae llawlyfr gweithdrefnau ariannol cyflawn wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Bydd hwn yn rhoi canllaw cam wrth gam i holl staff Llenyddiaeth Cymru ar gyfer y gweithdrefnau a'r camau rheoli sy'n angenrheidiol i gofnodi trafodiadau'n gywir. Bydd yn sicrhau bod trafodiadau'n cael eu cofnodi mewn ffordd gyson, gan leihau'r risg o gamgymeriadau a'r bygythiad o dwyll. Bydd yn gysylltiedig â'r Matrics Awdurdod Dynodedig a'r Polisi Caffael a fydd wedi'u rhoi ar waith eisoes.

## Partneriaethau

### Strategaeth

Un o'r prif egwyddorion i gyflawni Cynllun Strategol 2019-2022 yw gweithio mewn partneriaeth ag eraill yn y sector llenyddiaeth a'r tu hwnt i achub cymaint ag y bo modd ar gyfleoedd, cyfuno darpariaeth, a rhoi cefnogaeth i'n cynulleidfaoedd ym mhob cam yn eu gyrfa a'u datblygiad. Mae partneriaethau'n ganolog i bob rhan o waith Llenyddiaeth Cymru, drwy'r tair Colofn Gweithgaredd a'n Blaenoriaethau Tactegol, a thrwy'n materion gweithredol.

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Gweithiodd Llenyddiaeth Cymru gyda dros 110 o bartneriaid i ddatblygu, treialu a chynnal ystod eang o weithgareddau gwahanol

### Uchafbwyntiau

- Cyhoeddwyd y byddai Llenyddiaeth Cymru yn bartner cleient newydd i Ymddiriedolaeth Rhys Davies
- Gweithiodd Llenyddiaeth Cymru gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i lansio cystadleuaeth farddoniaeth ar gyfer Ewro 2020 gyda Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales
- Gweithiodd Llenyddiaeth Cymru gyda Barddas i drefnu'r cwrs cynganeddu blynyddol yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd
- Roedd Cynllun Ysgoloriaethau a Mentora Llenyddiaeth Cymru yn cynnwys peilot gyda phartner newydd, sef Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Norwich, gyda chefnogaeth Cyfnewidfa Lân Cymru

### Crynodeb o Brosiectau

Cyhoeddwyd y byddai Llenyddiaeth Cymru yn bartner cleient newydd i Ymddiriedolaeth Rhys Davies, a fydd yn cefnogi Gwobr Llyfr y Flwyddyn am gyfnod o 10 mlynedd, a'n gweithgareddau Datblygu Awduron am dair blynedd. Bydd hyn yn cynnwys cwrs wedi'i gyllido yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Gweithiodd Llenyddiaeth Cymru hefyd gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i lansio cystadleuaeth farddoniaeth ar gyfer Ewro 2020 gyda Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales. Gohiriwyd y gystadleuaeth oherwydd Covid-19, ond dechreuodd y prosiect yn wych, a chafodd un disgybl Iwcus iawn o Geredigion neges annisgwyl gan Joe Allen, chwaraewr Cymru, wrth inni aros i ail-lansio'r gystadleuaeth yn gynnar yn 2021 cyn y twrnament.

Parhaodd perthynas weithlo gref Llenyddiaeth Cymru a Barddas wrth drefnu'r cwrs cynganeddu blynyddol yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Cafodd y bartneriaeth ei haddasu fymryn yn 2019/2020 er mwyn cynnwys cystadleuaeth i ennill tri lle wedi'u hariannu ar y cwrs, gyda'r ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i ysgrifennu darn byr yn dweud pam eu bod am ddysgu sut i gynganeddu. Roedd Cynllun Ysgoloriaethau a Mentora Llenyddiaeth Cymru yn cynnwys peilot gyda phartner newydd, sef Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Norwich, gyda chefnogaeth Cyfnewidfa Lân Cymru. Roedd hwn yn rhoi cyfle cyfieithu i egin awduron a chyfieithwyr llenyddol.

Ymhlith y partneriaethau amlwg eraill yn 2019/2020 roedd:

- **Penguin Random House**  
Cafwyd cyfarfod â thîm Cyfrifoldeb Creadigol Penguin Random House ym mis Rhagfyr 2019 er mwyn cefnogi eu rhaglen lwyddiannus, WriteNow 2020, sy'n celsio darganfod, melthrln a chyhoeddi gwaith







## Rheoli Risg

### Strategaeth

Mae angen inni greu diwylliant sy'n fwy ymwybodol o risg ar bob lefel wrth wneud penderfyniadau, a hynny drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno system rheoli risg newydd, a honno'n cyd-fynd â'n Colofnau Gweithgaredd, er mwyn canfod ac asesu'r bygythiadau a'r cyfleoedd yn barhaus
- Dynodi graddfa lithro ar gyfer cyfrifoldebau rheoli risg ymhlith Bwrdd y Cyfarwyddwyr a'r staff
- Adolygu a rhoi sylw i bob risg a'r tactegau lliniaru cysylltiedig, a hynny'n rheolaidd ac yn systematig
- Asesu ein parodrwydd i dderbyn risg yn flynyddol

### Data am Berfformiad

Yn ystod 2019/2020:

- Cwblhawyd y broses o roi'r system rheoli risg newydd ar waith yn llawn
- Adolygodd a phennodd y Cyfarwyddwyr ein parodrwydd i dderbyn risg yn 2019/2020
- Roedd gennym Gofrestr Risg Sefydliadol, a honno'n gofrestr ddynamig
- Bu'r Cyfarwyddwyr a'r staff dynodedig yn adolygu ac yn rhoi sylw i'r risgiau uchaf a'r tactegau lliniaru cysylltiedig yn fisol, y risgiau canolig/uchel bob deufis, a phob risg arall bob chwarter
- Crëwyd templed Asesu Risg ar gyfer sefyllfaoedd penodol, a hwnnw i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau neu sefyllfaoedd risg uchel eraill. Defnyddiwyd hwn yng nghanol mis Mawrth i ddadansoddi'r risgiau newydd a oedd yn dod i'r amlwg yn sgil pandemig COVID-19

### Uchafbwyntiau

- Lleihaodd difrifoldeb y tri bygythiad mwyaf yn ystod 2019/2020 (methiant i gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau lechyd a diogelwch, methiant i gydymffurfio â phrosesau diogelu, a photensial lladrata), wrth i fwy o graffu arwain at fuddsoddi adnoddau i'w lliniaru ar frys
- Drwy roi mwy o sylw i gyfleoedd, bu modd i'r staff edrych yn fanylach ar y rhain, gan arwain at sawl datblygiad (e.e. siop ar-lein Llenyddiaeth Cymru, perthynas weithio gryfach â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)

### Crynodeb o Brosiectau

Mae'r Gofrestr Risg bellach yn cael ei defnyddio'n llawn. Mae'n dangos parodrwydd blynyddol Llenyddiaeth i dderbyn risg, a hynny wedi'i adolygu gan y Cyfarwyddwyr, o dan 15 categori risg: Llywodraethu, Rheolaeth Ariannol, Cydymffurfio a Chyfreithiol, Egwyddorion a Model Cyflawni'r Arweinyddiaeth, Cyfathrebu, Codi Arian, Hwyluso yn y Sector, Staff, Sicrhau Ansawdd, Cenhadaeth a Gweledigaeth, Blaenoriaethau Tactegol, Cleientiaid, Nodweddion Cleientiaid a Dargedir, Ein Cyflawniadau. Mae'n gweithredu ar ddwy haen – lefel Sefydliadol a lefel Prosiectau. Bydd y tîm gweithredol yn adolygu ac yn rhoi sylw i'r risgiau ar lefel sefydliadol, tra bydd y staff sy'n arwain prosiectau yn gwneud hynny ar lefel prosiectau.

Mae amllder yr adolygiadau hyn yn dibynnu ar sgôr risg y mis blaenorol, gyda'r risgiau uchaf a'r tactegau lliniaru cysylltiedig yn cael sylw yn fisol fan lleiaf, y risgiau canolig/uchel bob deufis, a phob risg arall bob chwarter. Bydd y Cyfarwyddwyr wastad yn gweld dangosfwrdd sy'n dangos y risgiau uchaf bob chwarter, ac mae modd iddynt weld y gofrestr lawn wedi'i diweddarau.

Gan ddilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennol ar y diffiniad o risg, bydd ein dadansoddiadau o risg yn canolbwyntio ar y prif bethau sy'n achosi ansicrwydd wrth geisio cyflawni ein nod. Gall yr ansicrwydd hwn fygwth llwyddiant



ac/neu fe all roi cyfleoedd i sicrhau mwy o lwyddiant – caiff y naill a’r llall eu hystyried. Mae’r gofrestr yn cynnwys hafaliad i addasu’r asesiad o’r risg gynhenid yn unol â’r tactegau lliniaru sydd eisoes yn cael eu defnyddio, ac i bwysleisio’r effaith o’i chymharu â’r tebygolrwydd. Mae hefyd yn ystyried sgoriau risg cyfansawdd os bydd rhai risgiau’n gysylltiedig â’i gilydd, gan amlinellu’r tactegau lliniaru pellach, amserlenni, a chyfrifoldebau staff.

**Ar 31 Mawrth 2020, dyma'r risgiau sefydliadol mwyaf:**

|                                                              |                                                                            | FFRWTH                                                                     | TEBPGORWYD                                                                              | Formwla Spôr Rng: $xy + y + r$                                                                                                                      | Graddfa Effaith Gweddillol<br>Rheol                                        | Ymateb                                                                                                                                                                                                  |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |
|--------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------|
| Cofnod Kirig                                                 |                                                                            | 1 = Di-moed<br>2 = Rychan<br>3 = Cymedrol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Anhebyddol iawn<br>2 = Anhebyddol<br>3 = Ffawb<br>4 = Tychydol<br>5 = Tychydol iawn | Y = effaith<br>x = tebygolrwydd<br>r = sgwr rŵg<br>Ar gyfer prwyng a mesur yr effaith:<br>ymhellach (yn unol â charlswaith r<br>Comisiwn Etholaidd) | 1 = 25-26<br>2 = 27-28<br>3 = 29-30<br>4 = 31-32<br>5 = 33-34              | Goddol = derbyn y rŵg ond monitro ac adolygu<br>Trosglyddio = trosglyddio i rŵg yn allanol neu yswyrtu<br>Trin = ymateb er mwyn atal y rŵg man gwaethu<br>Terfynu = sgwr y rŵg wrth weithredu i wahanol |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |
| Haen 1 – Risgiau Sefydliadol                                 |                                                                            |                                                                            |                                                                                         |                                                                                                                                                     |                                                                            |                                                                                                                                                                                                         |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |                                                                            |
| Categoriâu Kirig                                             | Rŵg                                                                        | Pw blier<br>(gwatthgarodd)                                                 | Cyfrin neu<br>Ffeithiol                                                                 | Effaith positif                                                                                                                                     | Awdol                                                                      | Awdol cyfnewid                                                                                                                                                                                          | Rng<br>pochant                                                             | Targeduau lleihau sydd ar<br>waith                                         | Awdol priddiffrid                                                          | Sgwr<br>pochant                                                            | Tynhedi                                                                    | Walf o'r<br>erfidiol                                                       | Targeduau lleihau arfanthau<br>(gan gynnwys cythod adolygu)                |
|                                                              | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch              | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch                                                                          | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch                                                                                                                              | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch | 1 = Ffawb<br>2 = Dadgylch<br>3 = Tychydol<br>4 = Anweddiad<br>5 = Dadgylch |
| Cyffwrddwr<br>(1)                                            | Methiant i<br>gydymffurfio<br>gyda<br>deddfwriaeth<br>GMPR                 | Ffawb                                                                      | Sgwr                                                                                    | Yn ymgyrchu i<br>ddefnyddio                                                                                                                         | 1                                                                          | 2                                                                                                                                                                                                       | 3                                                                          | 4                                                                          | 5                                                                          | 6                                                                          | 7                                                                          | 8                                                                          | 9                                                                          |
|                                                              |                                                                            |                                                                            |                                                                                         | Yn ymgyrchu i<br>ddefnyddio                                                                                                                         | 1                                                                          | 2                                                                                                                                                                                                       | 3                                                                          | 4                                                                          | 5                                                                          | 6                                                                          | 7                                                                          | 8                                                                          | 9                                                                          |
|                                                              |                                                                            |                                                                            |                                                                                         | Yn ymgyrchu i<br>ddefnyddio                                                                                                                         | 1                                                                          | 2                                                                                                                                                                                                       | 3                                                                          | 4                                                                          | 5                                                                          | 6                                                                          | 7                                                                          | 8                                                                          | 9                                                                          |
|                                                              |                                                                            |                                                                            |                                                                                         | Yn ymgyrchu i<br>ddefnyddio                                                                                                                         | 1                                                                          | 2                                                                                                                                                                                                       | 3                                                                          | 4                                                                          | 5                                                                          | 6                                                                          | 7                                                                          | 8                                                                          | 9                                                                          |
| Methiant i<br>gydymffurfio<br>gyda<br>deddfwriaeth<br>dilema | Ffawb                                                                      | Sgwr                                                                       | Yn ymgyrchu i<br>ddefnyddio                                                             | 1                                                                                                                                                   | 2                                                                          | 3                                                                                                                                                                                                       | 4                                                                          | 5                                                                          | 6                                                                          | 7                                                                          | 8                                                                          | 9                                                                          |                                                                            |
|                                                              |                                                                            |                                                                            | Yn ymgyrchu i<br>ddefnyddio                                                             | 1                                                                                                                                                   | 2                                                                          | 3                                                                                                                                                                                                       | 4                                                                          | 5                                                                          | 6                                                                          | 7                                                                          | 8                                                                          | 9                                                                          |                                                                            |
|                                                              |                                                                            |                                                                            | Yn ymgyrchu i<br>ddefnyddio                                                             | 1                                                                                                                                                   | 2                                                                          | 3                                                                                                                                                                                                       | 4                                                                          | 5                                                                          | 6                                                                          | 7                                                                          | 8                                                                          | 9                                                                          |                                                                            |
|                                                              |                                                                            |                                                                            | Yn ymgyrchu i<br>ddefnyddio                                                             | 1                                                                                                                                                   | 2                                                                          | 3                                                                                                                                                                                                       | 4                                                                          | 5                                                                          | 6                                                                          | 7                                                                          | 8                                                                          | 9                                                                          |                                                                            |



[illegible]

[illegible]



Yn ystod mis Mawrth, aeth y Tîm Gweithredol ati i lunio Aseslad Risg ar gyfer pandemig COVID-19. Ar 31 Mawrth 2020, dyma oedd y risgiau mwyaf yn gysylltiedig â hyn:

## AMODAU EITHRIADOL: Asesiad Risg

[illegible]

Swetha



# Cynlluniau'r Dyfodol

2019/2020



Llenyddiaeth  
Cymru  
Literature  
Wales



## COVID-19

Fel yn achos y rhan fwyaf o sefydliadau ac elusennau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru a'r tu hwnt, roedd gwanwyn a haf 2020 yn gyfnod eithriadol oherwydd y cyfyngiadau symud cenedlaethol a gyflwynwyd yn sgil pandemig COVID-19. Mae hyn wedi amharu'n fawr iawn ar economi'r Deyrnas Unedig ers dyddiad y fantolen, ar ôl i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyhoeddi y byddai'r cyfyngiadau symud yn berthnasol i bob gweithiwr nad oedd yn allweddol o 24 Mawrth 2020. Bryd hynny, penderfynodd y sefydliad gau ei swyddfeydd yng Nghaerdydd a Llanystumdwy, a Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, gan ohirio unrhyw weithgareddau a ddarperir yn uniongyrchol a fyddai wedi golygu cyswllt wyneb yn wyneb â phobl.

Ymatebodd y staff i'r sefyllfa ansicr mewn ffordd a olygodd bod modd parhau i ddarparu cyfran sylweddol o weithgareddau'r sefydliad. Er enghraifft, yn nwy wythnos olaf mis Mawrth 2020, gwelwyd tudalennau gwefan Heriau Wythnosol y Children's Laureate, a ddatblygwyd yn gyflym tu hwnt, 1,000 o weithiau. Cafodd @Laureate\_Wales 42,000 o argraffiadau, a gwelwyd y profil 2,000 o weithiau yn fwy na'r cyfartaledd misol. Yn yr un cyfnod, cafodd @BarddPlant dros 22.5K o argraffiadau a bu cynnydd o 52% yn sawl gwaith y cafodd y profil ei grybwyll. Ar ôl lansio cyfres a ddatblygwyd yr un mor gyflym o gomisiynau newydd i awduron, ymwelodd dros 2,300 o unigolion â'r wefan i gael mwy o wybodaeth, a chafwyd 51 o geisiadau cymwys gan awduron o gefndiroedd amrywiol, ac ar wahanol gamau yn eu gyrfaoedd.

At hynny, sicrhawyd bod pob awdur, sefydliad a phartner yn cael ei dalu am wasanaethau'n brydlon neu'n gynnar, yn ogystal ag aildrefnu neu addasu gweithgareddau a oedd i'w darparu â thâl. Ynghyd â chyfeirio awduron Cymru at nifer o sefydliadau a roddodd gefnogaeth yn y fan a'r lle, cafodd awduron a oedd i ddarparu gweithgareddau wyneb yn wyneb ar ran Llenyddiaeth Cymru gyngor gan y Tîm Gweithredol ynghylch sut i addasu i weithio ar-lein, er mwyn sicrhau nad oedd unigolion a oedd yn gweithio yn llawrydd yn colli incwm o waith a oedd wedi'i drefnu. Bu Mel Parry, awdur a barhaodd i ddarparu gweithdai o dan y Cynllun Nawdd Llên er Lles, yn trafod ei phrofiad cychwynnol o argyfwng COVID-19 mewn perthynas â gweithgaredd yr oedd Llenyddiaeth Cymru yn ei gefnogi:

"Cafodd y prosiect *Keep Talking Tidy* gryn effaith ar fy ngwaith fel awdur ac ymarferwr ysgrifennu. Cefais brofiad personol o'r gwahanol fathau o unigrwydd sy'n dod i ran pobl ifanc. Des yn fwy ymwybodol o'r tlodi dligdol y mae llawer o bobl yn ei wynebu.

Yn fwy cadarnhaol, golygodd amgylchiadau arbennig Covid-19 fy mod wedi gorfod gwella fy sgiliau technegol a'm gwaith ar-lein. Datblygodd fy sgiliau a ches fwy o hyder wrth inni fynd yn ein blaenau. Datblygais berthynas lwyddiannus â Voices from Care ac es yn fy mlaen i gyflwyno sesiynau am berthnasau i brosiect leuencld yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Roedd yn brosiect emosiynol iawn, a helpodd effaith COVID-19 i gryfhau'r berthynas a oedd yn datblygu rhyngof i, Voices from Care, a rhai o'r bobl ifanc."

**Mel Parry**

Cyflwynydd Gweithdy 'Keep Talking Tidy' Llên er Lles

Bydd argyfwng COVID-19 yn parhau i effeithio ar Llenyddiaeth Cymru yn 2020/2021. Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, fodd bynnag, mae'r incwm masnachol yn dechrau dychwelyd i'w lefelau arferol ar ôl ailagor Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, a bydd y staff a fu ar ffyrlo yn dychwelyd i'w gwaith cyn hir. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r sefyllfa'n rheolaidd, a byddant yn ystyried sut y gall y cwmni ddychwelyd i'r lefelau gweithio arferol yng nghyd-destun diogelwch y staff a'r gymuned. Yn gynyddol, bydd angen addasu gweithgareddau, materion gweithredol a dulliau cyflawni, a chanfod y ffyrdd mwyaf effeithiol a chynaliadwy o gefnogi awduron, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd creadigol Cymru. Bydd angen sicrhau ein bod yn parhau i rymuso, gwella a chyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth. Bydd effaith sylweddol a hirdymor hefyd ar ein hincwm tebygol.

Bydd angen i Llenyddiaeth Cymru ystyried beth y gallai ailfodelu ei olygu i'r sefydliad. Bydd angen arloesi gyda ffyrdd newydd o weithio sy'n cynnal neu hyd yn oed yn cryfhau gweithgareddau a gwaith hwyluso'r sefydliad yn y sector, ac ehangu ein heffaith, ein henw da a'n cyrhaeddiad. Roedd Llenyddiaeth Cymru wrthi'n cwblhau ei Adolygiad Sefydliadol ar yr adeg pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud, a pharatôdd hynny'r sefydliad at weithio mewn ffyrdd newydd, gan ddirprwyo a datganoli cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae wedi dod yn sefydliad mwy



dynamig, sy'n gallu addasu'n well. Bydd cyfuno'r rhan fwyaf o gyllidebau gweithgareddau yn ystod 2020/2021 yn golygu bod modd gwario mwy ar lai o gynlluniau, llawer o'r rheini'n rhai newydd a fydd yn cael eu datblygu'n gyflym ac i ymateb i'r amgylchiadau newydd. Bydd gwaith ymgysylltu digidol hefyd yn golygu bod modd arbed costau a chynyddu hyfywedd y cyfrwng hwn wrth gynllunio gweithgareddau yn y tymor hwy, ond rhaid i Llenyddiaeth Cymru gofio y gall gweithredu yn y modd hwn yn unig yn ei dro gau allan rai o'r cleientiaid y mae'n eu targedu. Bydd angen i'r sefydliad roi sylw i wersi 2020/2021 wrth fireinio'n llwyr ei fodel cyflawni a'i strwythurau mewnol, a chynnwys y Cyfarwyddwyr yn y broses honno. Bydd y Cyfarwyddwyr yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn gweithredu'n unol â hynny i leihau unrhyw effaith niweidiol ar y sefydliad.

#### **Adolygu'r Model Cyflawni a Phrosiectau Gweithgaredd**

Yng ngwanwyn a haf 2020, bydd gweithgareddau sy'n bodoli'n barod yn cael eu hailddatblygu'n gyflym i'w cyflwyno yn ystod y cyfyngiadau symud, neu fe fyddant yn cael eu gohirio a'u cyllidebau'n cael eu cyfuno i greu gweithgareddau newydd sy'n gweddu'n well i'r amgylchiadau. Bydd hwn yn gyfle eithriadol i arbrofi'n fawr, arloesi, treialu ac ymgynghori. Mewn sefyllfa arferol, byddai'r pethau hyn yn tarfu ar ein gwaith ac felly'n cael eu cyflwyno dros nifer o flynyddoedd. Bydd angen i Llenyddiaeth Cymru roi sylw i ystod o wersi sydd i'w dysgu wrth ddatblygu rhaglen newydd o weithgareddau ar gyfer 2021/2022, a honno'n cyd-fynd yn well â'r hinsawdd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol newydd a fydd yn ein hwynebu ni oll. Mae posibilrwydd hefyd i wella'r modd y cyflawnir Cynllun Strategol 2019-2022.

Un cam y gallai'r sefydliad ei ystyried fyddai cynyddu ei waith hwyluso yn y sector a symud i ffwrdd o ddarparu'n uniongyrchol bron yn gyfan gwbl. Byddai hyn yn golygu mwy o aiddosbarthu grantiau, a'r staff yn gweithredu fel strategwyr a chynhyrchwyr i gefnogi pobl eraill i ddarparu prosiectau sy'n cyfrannu tuag at Brif Nodau Llwyddiant Llenyddiaeth Cymru. Byddai dull o'r fath yn lleihau gwariant ar ddigwyddiadau a chostau rhedeg gweithredol, yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i awduron a hwyluswyr llenyddol, ac yn golygu bod gweithgareddau'n fwy unigryw. Byddai hefyd yn rhyddhau staff i weithio'n fwy strategol ar ran yr holl sector llenyddiaeth a chyhoeddi, a Chymru'n ehangach, drwy ganfod bylchau, anghenion a galwadau, a chomisiynu'r gweithgareddau lleol sy'n gweddu orau i hynny.

Gallai Llenyddiaeth Cymru hefyd ystyried darparu'r rhan fwyaf o'i weithgareddau'n ddigidol, gan gydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gynnig wifi a chyfarpar am ddim i bobl sydd heb fynediad digidol oherwydd costau (gan gynnwys rhai o'r cleientiaid a dargedir), yn gyfnewid am barodrwydd i ymwneud â ni.

#### **Adolygu Partneriaethau**

Fel rhan o'i bwyslais cynyddol ar waith hwyluso yn y sector, yn 2020/2021 bydd Llenyddiaeth Cymru yn cynnal adolygiad o'i bartneriaethau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn sicrhau ei fod yn buddsoddi ei adnoddau yn y modd sy'n dwyn ffrwyth orau, a'r modd mwyaf hyfwr yn strategol. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddi faint o amser staff sy'n cael ei dreulio'n cefnogi partneriaid presennol, a pha mor effeithiol y mae hyn yn cyflawni'r Prif Nodau Llwyddiant. Bydd hefyd yn golygu adnewyddu'r dulliau a ddefnyddir i fapio rhanddeiliaid er mwyn canfod sefydliadau y gallai Llenyddiaeth Cymru fuddsoddi mwy o amser yn gweithio â hwy, er mwyn cyflawni mwy, gan gynnwys y rheini na fydd Llenyddiaeth Cymru o anghenraid yn gwybod amdanynt ar hyn o bryd. Bydd yr ymchwil a'r gwaith dadansoddi hwn yn gwasanaethu'r sector, a Chymru'n ehangach, yn well.

#### **Raymond Williams 2021**

Mae Llenyddiaeth Cymru ac ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid yn cydweithio ar gynlluniau uchelgeisiol i nodi, yn 2021, ganmlwyddiant geni Raymond Williams, yr athronydd, y damcaniaethwr cymdeithasol, y beirniad a'r nofelydd o Gymro a ddenai edmygedd yn y pedwar ban. Yn hytrach na'i goffau mewn ffordd rhy fywgraffyddol, bydd y pwyslais ar waddol ei waith a'r hyn y gallai ei olygu yn y Gymru gyfoes. Mae ei syniadau – gan gynnwys ei syniadau am gyfunoliaeth, elitiaeth, technoleg a rhyng-gysylltedd, ecoleg llefydd, a diwylliant drwy fodolaeth – yn rhoi'r sylfaen berffaith i gael sgwrs genedlaethol am hawliau diwylliannol, democratiaeth, a'r Gymru rydym am ei chreu i genedlaethau'r dyfodol. Bydd yn gyfle o bwys i ymwneud a chyfnewid yn rhyngwladol.

## Strwythur, Llywodraethu a Rheoli

### Dogfen lywodraethu

Mae Llenyddiaeth Cymru yn gwmni elusennol cyfyngedig gan warant, a ymgorfforwyd ar 19 Medi 2011 ac a gofrestrwyd fel elusen ar 23 Mawrth 2012. Sefydlwyd y cwmni o dan Femorandwm Cymdeithasu a bennodd amcanion a phwerau'r cwmni elusennol, ac fe'i llywodraethir o dan ei Erthyglau Cymdeithasu, a ddiweddarwyd yn 2019/2020.

### Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd

Penodir ymddiriedolwyr newydd yn Gyfarwyddwyr ar y sefydliad ar ôl proses recriwtio agored a thryloyw, a diffinnir y broses honno yn yr Erthyglau Cymdeithasu. Penodir ymddiriedolwyr i gryfhau'r sgiliau a'r profiadau a gynrychiollir ar Fwrdd y Cyfarwyddwyr. Bydd pob ymddiriedolwr newydd yn cael pecyn cynefino a gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, ynghyd â hyfforddiant ym maes llywodraethu elusennol.

### Strwythur y sefydliad

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n arwain Llenyddiaeth Cymru, a'r Cyfarwyddwyr hefyd yw ymddiriedolwyr y sefydliad. Bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y sefydliad ac am gynllunio ariannol cyffredinol. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo gwaith y sefydliad o ddydd i ddydd i'r tîm gweithredol, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, sy'n cael ei chefnogi gan Uwch Dîm Arwain sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r amcanion strategol a thargedau eraill.

### Staff Rheoli Allweddol

Staff Rheoli Allweddol y sefydliad yw'r Prif Weithredwr, Lleucu Siencyn; y Dirprwy Brif Weithredwr a'r Pennaeth Datblygu, Bronwen Price; y Pennaeth Rhaglenni, Elena Schmitz; a'r Swyddog Cyllid, Emma Richards. Mae Cadair y Bwrdd yn gosod a chymeradwyo cyflogau'r Staff Rheoli Allweddol bob blwyddyn, gan ddilyn Polisi Cyflogau a strwythur bandio cyflogau'r sefydliad.

### MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDU

|                                |                                                                                                                                                                                                                                            |
|--------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Enw'r elusen</b>            | Llenyddiaeth Cymru   Literature Wales                                                                                                                                                                                                      |
| <b>Rhif cofrestru'r elusen</b> | 1146560                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Rhif cofrestru'r cwmni</b>  | 07779153                                                                                                                                                                                                                                   |
| <b>Swyddfa gofrestredig</b>    | Canolfan Glyn Jones<br>Canolfan Mileniwm Cymru<br>CAERDYDD<br>CF10 5AL                                                                                                                                                                     |
| <b>Ymddiriedolwyr</b>          | K North<br>E George<br>E Charles<br>C Austin<br>J D Ellis<br>A Finlayson<br>R Mohanram<br>J O'Shea<br>D Roberts<br>O Taylor-Shaw<br>C M Groves<br>C Thatcher<br>C. Charnell-White (penodwyd 23/11/2019)<br>N. Jerome (penodwyd 23/11/2019) |



**Prif Swyddog**

Lleucu Siencyn

**Ysgrifennydd y Cwmni**

Elena Schmitz


**Prif Fancwyr**

CAF Bank  
25 Kings Hill Avenue,  
Kings Hill,  
Caint  
ME19 4JQ

**Archwilwyr**

BPU Chartered Accountants  
Radnor House  
Greenwood Close  
Parc Busnes Porth Caerdydd  
CF23 8AA

Llofnodwyd:



Elena Schmitz

**Ysgrifennydd y Cwmni**

**Dyddiad: 09/09/2020**

## Atodiad

### Astudiaethau Achos: Ein Gweithgareddau

#### Cyfranogi – Gwerth Buddsoddi mewn Cymunedau: Cynllun Nawdd Awduron ar Daith a'r Cellar Bards

Grŵp amrywiol o feirdd ac awduron yw'r Cellar Bards, a'r rheini'n cyfarfod yn The Cellar Bar yn Aberteifi i gynnal nosweithiau meic agored byw ar nos Wener olaf pob mis. Mae'r Cynllun Nawdd Awduron ar Daith yn cefnogi'r grŵp drwy roi cyllid tuag at hyd at 50% o ffioedd darllenwyr gwadd. Mae darllenwyr gwadd yn helpu i ennyn mwy o ddiddordeb yn y digwyddiadau ac yn rhoi cyhoeddusrwydd da, ynghyd â chynnal y grŵp craidd o ryw 50 o unigolion.

I lawer sy'n mynychu ac yn cymryd rhan, mae digwyddiadau'r Cellar Bards yn rhoi'r llwyfan cyntaf i bobl rannu a pherfformio deunydd gwreiddiol a dod yn rhan o'r gymuned lenyddol. Yn ôl un aelod, "Dyma'r ail le imi ddarllen ynddo erioed, ac roedd mor braf cael anogaeth a chlywed beirdd, darllenwyr a cherddorion eraill yn perfformio. Mae wedi fy ysbrydoli ac wedi bod yn hwb aruthrol i fy hyder". Mae'r Cellar Bards hefyd yn aml yn croesawu gwesteion o bob rhan o Gymru a'r tu hwnt, ac yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymwneud â charfan ehangach o awduron. Yn ôl un aelod, "mae croesawu bardd gwadd ar daith yn rhoi cysylltiad rhwng y Cellar Bards a'r gymuned farddoniaeth ehangach. Pan fyddwch chi'n dod i berfformio, rydych chi'n telmlo'n rhan o'r byd ehangach hwnnw. Rwy'n aml yn cael fy ysbrydoli i ysgrifennu gan fod noson y Cellar Bards yn agosáu, felly mae'n cysylltu pobl, yn tynnu pobl ynghyd, ac yn help i gyfansoddi".

#### Golygwyd o adroddiad gan Jackie Biggs, Awdur a Threfnydd y Digwyddiad Cellar Bards

#### Datblygu Awduron – Gwerth Buddsoddi mewn Awduron: Cyfwellad â'r eglu awdur, Kay Hutchison

Yn ôl ym mis Awst 2011, bu Kay Hutchison ar gwrs yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd. Y nofelydd Mavis Cheek oedd y tiwtor. Yn haf 2019, cyhoeddodd Kay ei llyfr cyntaf, *My Life in 37 Therapies* (RedDoor Publishing). Buom yn gofyn ambell gwestiwn i Kay am ei thaith ysgrifennu ac am sut y mae Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd wedi cael effaith a dylanwad hirdymor ar ei hysgrifennu.

#### Beth wnaeth ichi benderfynu mynd ar y cwrs yn y lle cyntaf?

Hap a damwain. Roedd fy ffrind Ros am i rywun gadw cwmni iddi ar encil gyda'i hoff awdur, Mavis Cheek. Cytunais, gan feddwl y byddem yn cael cyfle i ymlacio yng nghefn gwlad Cymru, ac fe gawsom. Fodd bynnag, fe ddysgais fy mod wrth fy modd yn adrodd straeon. I baratoi, gofynnwyd inni ysgrifennu rhywfaint ymlaen llaw, er mwyn cael barn ar ein gwaith. Fe ges i amser gwych yn ysgrifennu deuddeg o straeon byrion a rhywfaint o farddoniaeth fel 'gwaith cartref'. Ond ar ôl dechrau'r cwrs, sylweddolais fod gen i lawer i'w ddysgu am gelfyddyd ysgrifennu. Roedd y diwrnod cyntaf yn frawychus, a minnau yng nghanol awduron talentog dros ben, rhai ohonynt wedi cyhoeddi'u gwaith eisoes. Roedd yn fedydd tân, ond o leiaf fe sylweddolais faint roedd gen i i'w ddysgu gan arbenigwyr fel Mavis.

#### Wnaeth y cwrs newid unrhyw beth i chi a'ch ysgrifennu?

Rhoddodd y cwrs yr hyder imi gredu bod gen i rywbeth i'w ddweud, ac o bosibl rhywbeth y byddai pobl eraill am ei ddarllen. Y cwrs hefyd oedd man cychwyn fy llyfr cyntaf, *My life in 37 Therapies*, gan fod nifer o'r straeon a ysgrifennais wrth baratoi at y cwrs yn ymddangos yn y llyfr mewn rhyw ffurf. Cyn y cwrs, roeddwn wastad wedi ymwneud ag ysgrifennu creadigol drwy fy ngwaith yn y byd teledu a radio, ond dyma oedd y tro cyntaf imi ysgrifennu fy hun ac ysgrifennu am bynciau roeddwn i'n awyddus i ysgrifennu yn eu cylch. Ar ôl dechrau ysgrifennu, ni allwn roi'r gorau iddi. Byddai angen cryn dipyn o arweiniad arnaf dros y misoedd dilynol i greu'r llyfr gorffenedig.



### Oes gennych chi unrhyw gyngor i ddarpar awduron eraill?

Drwy ddamwain y des i Dŷ Newydd, a doedd dim llawer o syniad gen i beth fyddai encil yn ei olygu. Ar ôl bod, fodd bynnag, gwyddwn fod gen i lawer i'w ddysgu, ond fe sylweddolais hefyd fod gen i stori roeddwn i wir am ei hadrodd, a bod gen i fy arddull ysgrifennu fy hun – doniol, trist, hunanfychanol, ond gobeithiol hefyd.

A chithau'n egin awdur, fy neges yw creu amser i ysgrifennu a cheisio arweiniad gan arbenigwyr. Ac wrth gwrs, un o'r ffyrdd gorau i wneud hynny yw mynd ar encil gydag awduron eraill i ddechrau arni. Byddwch chi'n dysgu gan y tiwtoriaid sy'n aml yn llwyddiannus iawn, yn hynod fedrus, ac wedi'u dewis yn benodol oherwydd eu harbenigedd mewn genres penodol. Ond byddwch chi'n dysgu hefyd gan eich cyd-awduron a dylai hynny roi hwb i'ch hyder yn ogystal. Mae Tŷ Newydd yn un o'r llefydd gorau a gewch chi – maen nhw wedi croesawu pob math o awduron dros nifer o flynyddoedd, ac maen nhw'n gwybod yn union beth sydd ei angen. Fe allwch chi ysgrifennu yng nghefn gwlad godidog Cymru, mewn llety cyfforddus, ac mae'r arlwy'n fendigedig. Mae'r wlad o'ch cwmpas, yn bell o brysurdeb bywyd normal, yn berffaith i ddod o hyd i'ch awen.

"Rhoddodd y cwrs yr hyder imi gredu bod gen i rywbeth i'w ddweud..."

**Kay Hutchinson**

Awdur *My Life in 37 Therapies*

### Diwylliant Llenyddol Cymru – Gwerth Buddsoddi mewn Diwylliant: Gwobr Llyfr y Flwyddyn

"Mae Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn hollbwysig wrth roi sylw i lyfrau Cymru. Mae'n ganolbwynt i'r flwyddyn gyhoeddi – yn adeg i ddathlu ysgrifennu Cymru – ac mae'n gyfle i roi wynebau amlwg i lenyddiaeth y wlad. Mae angen enwau mawr ar unrhyw sin lenyddol er mwyn iddi ffynnu, ac mae gwobrau'n cyfrannu at enwogrwydd awduron o bwys. Mae gwobrau'n creu cyhoeddusrwydd, ac mae wastad angen hwb ar broffil llenyddiaeth Cymru. Mae llyfrau gan awduron unigol Cymru hefyd yn cyfrannu gyda'i gilydd at yr hyn y gellid ei alw'n 'ddiwylliant Cymreig', ac mae gwobr genedlaethol flynyddol yn helpu i fframio a rhoi trefn ar y diwylliant hwnnw, a'i droi'n rhywbeth y gallwn gyfeirio ato. Mae hynny'n beth iach.

Mae Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn golygu bod llawer o bobl yn cael eu cyfeirio at wefan y *Wales Arts Review*, ac mae hefyd yn ein galluogi i fod yn rhan o brosiect cenedlaethol ehangach o ran llyfrau Cymru. I'r *Wales Arts Review* [un o noddwyr Gwobr Llyfr y Flwyddyn], mae rhoi gwasanaeth cenedlaethol i lyfrau Cymru yn rhan hollbwysig o'n gwaith flynyddol. Mae bod yn bartner i Llenyddiaeth Cymru mewn gwobr genedlaethol yn llesol i'n proffil ac i'r modd y mae'r cyhoedd yn ein gweld.

Mae'r wobwr yn uchafbwynt o bwys yn y calendr celfyddydol, ac yn fodd o ddathlu a hyrwyddo llyfrau Cymru. Bob blwyddyn, mae'n gyfle i werthuso tirlun llenyddol cyfoethog Cymru wrth i hwnnw esblygu, ac mae'n gwahodd y byd ehangach i weld y gwaith gwych sy'n cael ei greu, nid yn unig gan yr enillwyr, ond gan yr holl awduron sydd wedi'u henwebu, a thrwy hynny, mae'n llwyfan i'r holl lenyddiaeth sy'n cael ei chynhyrchu."

**Gary Raymond**

Golygydd y *Wales Arts Review*

### Iechyd a Llesiant – Gwerth Buddsoddi: *Keep Talking Tidy*

Mae *'Keep Talking Tidy'* yn un o'r prosiectau a noddir gan y cynllun Llên er Lles. Y trefnwyr yw Melanie Perry, sy'n artist perfformio barddoniaeth ac ymarferydd creadigol, a Rufus Mufasa, sy'n ymgyrchydd, rapiwr a bardd. Mae'r prosiect yn ymwneud â phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl ac yn byw yn Sir Gâr a Rhondda Cynon Taf.

Mae hunanladdiad yn un o brif achosion marwolaethau yng Nghymru, yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Bob blwyddyn bydd cyfartaledd o 300 o bobl yn marw o hunanladdiad. Bechgyn neu ddynion yw dau draean o'r



rhain, ac mae unigolion sy'n arddel hunaniaeth Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o gael diagnosis o broblemau iechyd meddwl. Ymhlith yr amgylchiadau cyffredin sy'n gysylltiedig â'r trasiediau hyn y mae hunan-niweidio, salwch meddwl, camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, bod â ffrind neu berthynas agos sydd wedi cyflawn hunanladdiad, colli swydd neu gartref, tor-perthynas, amddifadedd ac ynysu gwledig. Mae'r effaith ar deulu a ffrindiau yn sylweddol, a gall waethygu iechyd meddwl gwael pobl eraill a rhwygiadau yn y gymuned.

Er mwyn rhoi sylw i'r problemau hyn, darparwyd cyfres o sesiynau perfformio barddoniaeth a chyfansoddi caneuon yn Sir Gâr a Rhondda Cynon Taf, gyda rhai ohonynt yn cael eu darparu'n rhithiol ar blatfformau ar-lein oherwydd y cyfyngiadau symud. Ymhlith y canlyniadau creadigol roedd cyhoeddi albwm a gwaith i fentora pobl ifanc.

Cafodd y 21 cyfranogwr eu canfod drwy bartneriaeth â [Voices from Care Cymru](#) (VfCC), sy'n cynnal grwpiau cymorth i ofalwyr ifanc yn Sir Gâr a Rhondda Cynon Taf. Yn y sesiynau hyn, edrychodd y cyfranogwyr ar eu hamgylchiadau personol eu hunain, gan weithio gydag awduron a cherddorion proffesiynol i fynegi'u profiadau'n creadigol.

Roedd y canlyniadau'n drawiadol. Dywedodd bron pob un o'r cyfranogwyr fod ganddynt fwy o hunanhyder a hunan-barch. Mae un wedi datblygu'n arweinydd i'w chyfoedion ers hynny, ac yn gallu siarad yn fwy hyderus am ei phrofiadau mewn gofal a'i hunaniaeth y tu hwnt i hynny. Mae hi wedi creu [sa ffilmiau ei hun](#) ar You Tube ac ymddangosodd [cerdd ganddi](#) yn Rhifyn 23 o'r *Red Door Magazine*, a gyhoeddir ar-lein yn Copenhagen. Perfformiodd yn nigwyddiad rhyngwladol rheolaidd melc agored/perfformio barddoniaeth 'Poems and Pints/Pilsnerpoesi in the Cloud', sy'n cael ei drefnu gan write4word o Gymru a Kultivera/Pilsnerpoesi yn Sweden.

**"Mae modd mynegi fy nheimpladau go iawn heb siarad. Dydy'r cyfan ddim am ofal maeth"**

**Cyfranogwr**

*Keep Talking Tidy*

"Cafodd y prosiect *Keep Talking Tidy* gryn effaith ar fy ngwaith fel awdur ac ymarferwr ysgrifennu. Cefais brofiad personol o'r gwahanol fathau o unigrwydd sy'n dod i ran pobl ifanc. Des yn fwy ymwybodol o'r tiodi digidol y mae llawer o bobl yn ei wynebu. Yn fwy cadarnhaol, golygodd amgylchiadau arbennig Covid-19 fy mod wedi gorfod gwella fy sgiliau technegol a'm gwaith ar-lein. Datblygodd fy sgiliau a ches fwy o hyder wrth inni fynd yn ein blaenau. Datblygais berthynas lwyddiannus â Voices from Care ac es yn fy mlaen i gyflwyno sesiynau am berthnasau i brosiect ieuencid yng Nghastell-nedd Port Talbot."

**Melanie Perry**

Arweinydd Gweithdy *Keep Talking Tidy*

*Mae VfCC yn bwrladu cynnwys gwybodaeth am waith y prosiect hwn a rhannu profiadau ohono yn eu cymhadledd ym mis Chwefror 2021. Mae'r awdur Rufus Mufasa yn cynllunio prosiect a allai arwain at gysylltiad rhyngwladol gyda sefydliad tebyg i VfCC, ond wedi'i leoli yn Sweden, ac mae hi'n edrych ar gyfleoedd cyfnewid i bobl ifanc yng Nghymru a Sweden, gyda phwyslais ar ymarfer creadigol.*

**Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb – Gwerth Buddsoddi**

**Alex Wharton – 'Rising Star' Cymru**

"Fe wnes i ymwneud â Llenyddiaeth Cymru am y tro cyntaf ym mis Awst 2019, wrth rannu cyhoeddiad barddoniaeth diweddar â nhw ar-lein. Trefnwyd cyfarfod i drafod fy ysgrifennu a'm gweithdal mewn ysgollon ac yn y gymuned, ac roedd hwn yn gynhyrchol iawn gan inni drafod nifer o gyfleoedd nad oeddwn i'n ymwybodol ohonynt nhw cynt.

Ers ymwneud â Llenyddiaeth Cymru, mae'r effaith ar fy ngyrfa ysgrifennu wedi bod yn rhyfeddol. Diolch i'w hanogaeth broffesiynol barhaus, rydw i wedi melthrin yr hyder i gyflwyno fy ngwaith i rai o'r cyfleoedd niferus sydd wedi bod ar gael. O ganlyniad, ces fy newis yn enillydd Gwobr Rising Starts Cymru 2020 ac rydw i hefyd wedi cyflwyno cwrs tiwtora ar-lein i Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd mewn Ysgrifennu Barddoniaeth i Blant.

Ar ôl ennill Gwobr Rising Stars Cymru, cysylltodd Firefly Press, a chawsom sgwrs am gyhoeddi casgliad llawn o gerddi i blant. Gwireddwyd y syniad mewn ddim o dro, ac mae'r llyfr *Daydreams and Jellybeans* i'w gyhoeddi ym



mis Ionawr 2021. Rydw i'n ddiolchgar iawn fy mod yn gallu cydweithio ar brosiect gwych, sy'n ailadrodd hanesion y Mabinogi. Rydw i wedi cael sgysiau â chyhoeddwr arall sy'n creu llyfrau i blant, i drafod y posibilrwydd o greu llyfrau llun iddyn nhw, ac mae hynny'n gyffrous iawn. Dros y misoedd diwethaf, rydw i hefyd wedi creu fideos i'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol i'w defnyddio mewn ysgolion, ac i Goleg Brenhinol y Seiciatryddion a'r Outposted Project.

Uchafbwynt gweithio gyda Llenyddiaeth Cymru fydd cyhoeddi fy llyfr cyntaf *Daydreams and Jellybeans* cyn hir, a daeth y cyfle hwn yn uniongyrchol ar ôl cyflwyno cerddi i Wobr Rising Stars Cymru. Mae'n gyfnod arbennig, ac mae gwybod y bydd y cerddi hyn nawr yn teithio ymhellach, i chwilio am feddyliau chwilfrydig – mae'n fy ysbrydoli i frwr ati, a pharhau i ysgrifennu a datblygu.

Mae gweithio gyda Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn hynod o fuddiol imi fel awdur. Drwy eu gwybodaeth broffesiynol a'u brwdfrydedd dros ddatblygiad personol, rydw i'n teimlo fy mod i'n cael fy nghydnabod a'm cefnogi."

**Alex Wharton**

Bardd Rising Stars Cymru

### Plant a Phobl Ifanc – Gwerth Buddsoddi Tymor Cyntaf Bardd Plant Cymru

Wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2019, daeth Gruffudd Owen yn Fardd Plant Cymru 2019-2021, gan ymweld â disgyblion drwy gydol eu tymor academaidd cyntaf.

Mae'r prosiect yn hyrwyddo creadigrwydd, sgiliau cyfathrebu a hunanfyneiant drwy helpu plant i fwynhau llenyddiaeth. Yn ystod tymor yr hydref 2019, bu'r prosiect yn ymwneud â dros 430 o blant drwy weithdal mewn ysgolion. Cytunodd 94% o athrawon fod eu disgyblion wedi cael hwyl yng ngweithdai Bardd Plant Cymru. Cafodd y disgyblion gyfle i brofi bydoedd, athroniaethau a diwylliannau eraill. Mae'r cynllun hefyd yn ceisio cynyddu'r nifer sy'n darllen ac yn ysgrifennu er mwynhad mewn ysgolion, a chytunai 88% o'r athrawon a fu'n ymwneud â'r prosiect fod y gweithdy wedi'u hysbrydoli i gynnal mwy o weithdai ysgrifennu creadigol gyda'u disgyblion yn y dyfodol.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn mynd ati'n bwrpasol i gefnogi targed Llywodraeth Cymru i greu 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae'n ceisio cynyddu sgiliau amleithog cyfranogwyr. Drwy gyfrwng y Gymraeg y cynhelir gweithgareddau Bardd Plant Cymru, ond mae'r cynllun hefyd yn darparu ar gyfer plant nad yw Cymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Yn nhymor yr hydref 2019, roedd 58% o'r disgyblion a fu'n ymwneud â Bardd Plant Cymru o gartrefi di-Gymraeg.

Llenyddiaeth Cymru sy'n rhedeg y cynllun gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, S4C, Cyngor Llyfrau Cymru ac Urdd Gobaith Cymru. Rydym i gyd yn rhannu'r gred bod gan bob plentyn yr hawl i gael ei lais wedi'i glywed, ac i adrodd ei straeon. Mae'r prosiect arloesol hwn yn galluogi hynny.

### Materion Gweithredol

#### Codi Arian

#### Interniaeth Greadigol Celfyddydau a Busnes

Ym mis Hydref 2019, croesawodd Llenyddiaeth Cymru intern codi arian drwy raglen Interniaeth Greadigol Celfyddydau a Busnes Cymru. Mae'r rhaglen yn rhoi swyddi codi arian i raddedigion diweddar mewn sefydliadau celfyddydol am gyfnod o ddeg mis, gan roi £12,500 i'r sefydliad tuag at gyflog yr intern, ynghyd â chefnogaeth lefel uchel, strwythuredig iddynt.

Yn ei gyfnod yn Llenyddiaeth Cymru, mae'r intern wedi meithrin profiad sylweddol ym mhob agwedd ar godi arian ym maes y celfyddydau – gan gyfrannu at geisiadau am grantiau gan ymddiriedolaethau a sefydliadau,



cyflwyno syniadau am nawdd corfforaethol a nawdd cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a datblygu strategaethau a fydd yn galluogi Llenyddiaeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar botensial ei statws elusennol drwy ymgyrchoedd rhoi digidol. Mae'r lleoliad hefyd wedi rhoi profiad i'r intern o weithio yn y sector celfyddydau yng Nghymru, gan ei wneud yn fwy cyflogadwy a rhoi hwb i'w hyder.

Drwy'r intern, mae Llenyddiaeth Cymru wedi elwa ar arbenigedd codi arian ar ffurf hyfforddiant a mentora. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau Celfyddydau a Busnes rheolaidd, sy'n rhoi sylw i bynciau fel Strategaethau Codi Arian, Llwyddiant Noddi, a Chynlluniau Cyfeillion. Mae'r cynllun hefyd yn golygu cael cyngor ac adborth penodol gan fentor busnes, sef Kathy Brown yn yr achos hwn – cyn Is-Lywydd Cynorthwyol Buddsoddi Cymunedol Barclays. Mae'r intern wedi bod yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu o'r camau hyn, a hynny'n ei dro'n helpu i ddatblygu strategaeth codi arian Llenyddiaeth Cymru ac yn gwella cyfleoedd y sefydliad o sicrhau llwyddiant wrth godi arian yn y tymor hir.

Mae cael swydd benodol i godi arian hefyd wedi cynyddu capasiti codi arian Llenyddiaeth Cymru yn sylweddol. Er enghraifft, mae'r intern wedi gallu ymrwymo amser i gyflwyno syniadau penodol am nawdd ar gyfer prif brosiectau Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys Gwobr Llyfr y Flwyddyn a'r Children's Laureate Wales. Mae hyn wedi creu templed y gellir ei ddefnyddio wrth gyflwyno syniadau am nawdd yn y dyfodol, a bydd y broses yn rhoi gwersi ar gyfer Strategaeth Codi Arian Llenyddiaeth Cymru (er enghraifft, pwysleisio pwysigrwydd datblygu proffil Llenyddiaeth Cymru a rhwydweithio ymhlith busnesau Cymru). Mae cymryd rhan yn y rhaglen hefyd wedi helpu i ddatblygu perthynas Llenyddiaeth Cymru a Celfyddydau a Busnes Cymru, a gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at ragor o gyfleoedd sydd o fudd i'r ddau sefydliad.

### Cyfathrebu Ein Heffaith

Roedd Cynllun Strategol 2019-2022 yn rhoi cylch gwaith mwy penodol inni, a hwnnw'n gysylltiedig â chenhadaeth fanylach, ynghyd ag amcanion uchelgeisiol, cyfres glir o flaenoriaethau, ac effaith bellgyrhaeddol. Roedd y cynllun yn cynnwys dulliau i olrhain ein cynnydd tuag at dargedau sy'n cael eu mesur. Treuliwyd rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2019 yn cyflwyno ac yn cwblhau ein dulliau casglu data mewnol, gyda'r nod o rannu ein cynnydd â rhanddeiliaid ar ddiwedd y flwyddyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, cynhaliwyd ymgyrch ddiwedd blwyddyn i rannu ein data a'n datblygiad â'r sector a'n cynulleidfaoedd. Roedd lansiad adran newydd '[Ein Heffaith](#)' ar ein gwefan yn ganolog i hyn, er mwyn dangos gwerth ein sefydliad mewn un man canolog drwy astudiaethau achos manwl, ystadegau a ffeithluniau, a'r rheini'n rhoi sylw i brofiadau ein cleientiaid ac, yn ei thro, i'n stori ni.

Yn ystod 2019/2020, mae'r rhan hon o'r wefan wedi dod yn ganolbwynt i ddiweddariadau a gwybodaeth am y sefydliad, gan ddangos ein hymrwymiad i fod yn sefydliad hyblyg sy'n croesawu newid ac yn myfyrio ac yn dysgu ar sail adborth ac ymgynghori allanol. Bydd y tudalennau hyn ar y we yn cael eu diweddarau'n gyson, a byddwn yn cynnwys prif negeseuon y sefydliad er mwyn cyfathrebu ein heffaith.

### Monitro a Gwerthuso Astudiaeth Hydredol

Mae canlyniadau sylfaenol rownd gyntaf ein Arolwg Hydredol 2019-2022 wedi'u casglu, ac mae'r data eisoes wedi datgelu rhai pethau diddorol.

Dywedodd yr holl gleientiaid, bron iawn, eu bod wedi meithrin mwy o hunanhyder wrth ymwneud â chyfle neu wrth ddarparu cyfle a drefnwyd neu a gefnogwyd gan Llenyddiaeth Cymru. Mae'n ymddangos bod cyfrifoldeb rôl hwyluso / rôl lysgenhadol yn galluogi awduron, gyda chefnogaeth, i ganolbwyntio ar ddatblygu eu crefft. Yn ôl un cyfranogwr, "fel awdur ac athro a gafodd wahoddiad i gynnal gweithdy", ynghyd â gweld ei grefft "mewn gwedd fwy proffesiynol", roedd y cyfle wedi'i alluogi "i gael amser i weithio ar fy sgiliau cyflwyno gweithdal".



Yn y naill arolwg a'r llall, roedd hanner y grŵp wedi gwneud cais am rolau newydd neu wedi gwneud mwy o ddatblygu proffesiynol o fewn 6 mis i ymwneud â Llenyddiaeth Cymru. At hynny, ers ymwneud â Llenyddiaeth Cymru am y tro cyntaf, roedd 8 o'r 10 awdur wedi cyflwyno'u gwaith i gystadlaethau ysgrifennu creadigol, wedi ennill gwobrau llenyddol, neu wedi cyhoeddi eu gwaith.

Soniodd cleientiaid am ba mor greadigol oeddent, gydag un yn benodol yn dweud bod "fy nghreadigrwydd yn sicr wedi gwella diolch i'r cyfleoedd a gefais gan Llenyddiaeth Cymru. Rydw i wedi gallu gwella fy arferion creadigol mewn ysgolion a rhoi cynnig ar weithgareddau gwahanol mewn gweithdai."

Ar y cyfan, teimlai'r rheini o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli nad oeddent wedi'u cynnwys gymaint â phobl eraill yn niwylliant Cymru, a hwy oedd y lleiaf tebygol o deimlo'n gyfforddus yn mynegi'u hunaniaeth ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Fodd bynnag, dywedodd un cleient fod "y Cynllun Rhoi Llwyfan i Awduron a Gaiff eu Tangynrychioli yn sicr wedi fy annog i fod â hyder yn fy llais ac yn fy ngallu i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned".

Mae'r cyfranogwyr wedi cydnabod yn uniongyrchol bwysigrwydd y gefnogaeth a gafwyd gan staff Llenyddiaeth Cymru, gydag un cleient yn dweud bod "pob ymwneud â'r staff wedi bod yn galonogol, yn hwb, ac yn ddefnyddiol".

Mae tri chleient newydd wedi'u dewis i gymryd rhan yn Arolwg Hydredol 2020-2023.

## Adnoddau Dynol Adolygiad Sefydliadol

Er mwyn cyflawni amcanion uchelgeisiol Cynllun Strategol newydd 2019-2022 yn llwyddiannus, cynhaliwyd adolygiad sefydliadol i edrych ar yr holl swyddi a chyfrifoldebau, ynghyd â'r diwylliant gweithio. Cafodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr gefnogaeth gan Raglen Wytwnch Cyngor Celfyddydau Cymru drwy'r broses hon, o dan arweiniad ymgynghorydd Adnoddau Dynol allanol, Leslie Rossiter. Cafwyd cefnogaeth weithdrefnol gan Ymgynghorwyr Cyfraith Cyfogaeth Thomas Carroll. Ymchwiliwyd i anghenion y sefydliad drwy ymgynghori â'r staff a Chyfarwyddwyr, a modelwyd yr opsiynau ar gyfer yr arferion gorau.

Roedd yr Adolygiad Sefydliadol dilynol yn cynnwys ailstrwythuro'r staff, cyflwyno disgrifiadau swyddi newydd, a ffordd newydd, fwy democrataidd o weithio, wedi'i seilio ar dasgau. Byddai'r staff yn gweithio o dan nifer o golofnau a blaenoriaethau, yn hytrach na'u bod ynghlwm wrth brosiectau penodol. Mabwysiadwyd y dull newydd hwn o weithio o fis Mawrth 2020, ac mae wedi rhoi mwy o gyfleoedd i staff weithio'n ehangach ac ar y cyd, gweithio gyda rhanddeiliaid nad oeddent yn eu hadnabod cynt, a gweithio gyda chydweithwyr nad oeddent wedi ymwneud llawer â hwy o'r blaen. Mae'r datblygiad hwn wedi arwain at feddwl yn greadigol ac yn arloesol wrth gynnal gweithgareddau a gwneud gwaith gweithredol, yn ogystal ag wrth ddefnyddio'r setiau sgiliau presennol mewn cyd-destunau newydd, a datblygu arbenigedd newydd. Mae hefyd wedi rhoi i'r sefydliad ac i'r staff wytwnch, hyblygrwydd a'r gallu i addasu, a'r rheini'n angenrheidiol i ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon i bandemig Covid-19.

## Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd Prosiect Adnewyddu Bwthyn Encll Awduron Nant

Ym mis Rhagfyr 2018, cymeradwyodd Llenyddiaeth Cymru fenthyciad o £30,000 gan Gymynrodd Glyn Jones i ailddatblygu [Nant](#), hen fwthyn y warden a oedd mewn cyflwr gwael ac yn galw am waith brys. Y nod oedd adfer ac adnewyddu Nant yn fwthyn i'w ddefnyddio'n bwrpasol fel encll i awduron. Drwy ymchwilio i lefydd tebyg yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, daeth yn amlwg eu bod yn hynod o boblogaidd ac yn aml yn brin.

Dechreuodd y gwaith adeiladu yn gynnar yn 2019, ac roedd hynny'n cynnwys troi'r tu mewn yn gragen er mwyn datrys y problemau lleithder, ailblastro, gosod ffenestri a drysau pwrpasol newydd, gosod cegin ac ystafell ymolchi newydd, allwampio'r system wresogi, a gosod lloriau a goleuadau newydd. Cafwyd grant arall o £9,000 tuag at y prosiect gan Sefydliad Teulu Ashley er mwyn dodrefnu ac addurno'r bwthyn i ansawdd uchel. Gweithiwyd gyda chrefftwyr lleol a chafodd y bwthyn ei weddnewid yn llety hunangynhaliol moethus, cysurus



ac ynddo'r holl gyfleusterau sydd eu hangen ar awduron i weithio. Mae yno ddesgiau mawr, golygfeydd ysbrydoledig o'r ffenestri, man ymlacio a silff lyfrau helaeth, ynghyd â theledu a radio digidol i rol egwyl haeddiannol.

Agorodd Nant yn gynt na'r disgwyl yn wythnos olaf mis Mehefin 2019, ac yn syth bin fe'i gosodwyd drwy'r haf i awduron, ac weithiau i deuluoedd a oedd am ei ddefnyddio fel bwthyn gwyliau. Er mwyn cynyddu'r incwm o gyrslau lle mae galw mawr, defnyddir Nant hefyd fel ystafelloedd gwely ychwanegol i gael mwy o le ar y cyrsiau. Cafwyd grant arall gan Ymddiriedolaeth Gelfyddydau Francis W Reckitt i greu cronfa ysgoloriaeth i 10 awdur ar incwm isel fynd ar encil i Nant yn 2019. Yn y 9 mis cyntaf, creodd Nant incwm o £18,316, gan groesawu dros 80 o westeion.

"Dydwi i erioed wedi aros yn rhywle mor gyfforddus a moethus. Roeddwn i wrth fy modd yn cael cyfle i ddefnyddio adnoddau'r llyfrgelloedd a mwynhau ethos dawel, gefnogol y lle."

#### **Gwestal yn 2019**

Bwthyn Encil Awduron Nant

#### **Llywodraethu ac Ymgynghori â'r Sector Arolwg Rhanddeiliaid 2019**

Mae ein hymrwymiad i fod yn sefydliad tryloyw ac agored yn golygu ein bod yn gofyn am adborth yn rheolaidd gan randdeiliaid, ac mae hynny'n cyfrannu'n uniongyrchol at fireinio ein cyfeiriad strategol a'r penderfyniadau a wnawn. Cynhaliwyd fersiwn peilot o'n Arolwg Rhanddeiliaid agored cyntaf erioed ym mis Rhagfyr 2019, gan drelalu'r dull hwn o gasglu data sy'n annog unigolion i rannu syniadau a barn am ein cynnydd. Cyhoeddwyd yr arolwg ar-lein a'i anfon at ystod lawn o dros 800 o randdeiliaid a dargedwyd. Cafodd ei gwblhau gan 85 o unigolion.

Ymhlith nifer o ganfyddiadau, roedd consensws bod croeso i'n hymdrechion i chwilio am dalent ac i'n pwyslais cynyddol ar ysgrifennu ar gyfer plant a phobl ifanc, a gwelwyd bod ein gwefan yn ddull cyfathrebu pwysig inni o hyd.

Caiff adroddiad ei baratoi i'r Uwch Dîm Arwain sy'n defnyddio'r dadansoddiadau i drafod cynnyrch presennol y sefydliad ac ailystyried blaenoriaethau. At hynny, ar gais y Cyfarwyddwyr, arweiniodd yr arolwg at ychwanegu adran 'Gwersi i'w Dysgu' at ein Hadroddiadau Sefydliadol. Byddwn yn lansio ein hail Arolwg Rhanddeiliaid yn 2020, gyda'r nod o gynyddu nifer yr ymatebwyr.

"Mae'r Cynllun Strategol yn gryno, yn glir ac yn rhwydd i'w ddarllen. Mae'r dyluniad yn cyd-fynd yn dda iawn â'r cynnwys, gan ei gwneud hi'n ddogfen ddiddorol".

#### **Ymatebwr I'r Arolwg**

Arolwg Rhanddeiliaid 2019

#### **Hwyluso yn y Sector Ein Gwalth Hwyluso**

##### **Cefnogi Unigolion**

Cysylltodd y bardd Marvin Thompson i ofyn am gefnogaeth i ddatblygu ei yrfa fel awdur. Roedd ei gasgliad o farddoniaeth wedi'i ddewis gan y Forward Arts Foundation i hyrwyddo Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth ac roedd yn awyddus i'w farddoniaeth fod ar gael yn Gymraeg. Rhoesom gyllideb fechan o £50 i gyfieithydd weithio gyda Marvin. Mae Marvin wedi parhau i weithio gyda chyfieithwyr ar brosiectau eraill, ac mae'i farddoniaeth am hil a'r mudiad #BlackLivesMatter wedi'i chyhoeddi ar-lein. Marvin fydd yr awdur du cyntaf i hyrwyddo Cymru fel rhan o Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth, gan gynrychioli Diwylliant Llenyddol Cymru ar lwyfan byd-eang.

##### **Cefnogi Grwpiau Llenyddol**



Rhoesom gymorth heb fod yn ariannol, drwy ofod a llety yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, i ddwy gydweithfa ('Where I'm Coming From' ac 'Y Stamp'), a fyddai'n cynnal sgysiau creadigol ac yn rhannu safbwyntiau am brofiadau pobl o hunaniaeth, hil, diwylliant ac iaith. O ganlyniad i'r gweithdy cychwynnol hwn, mae'r ddau grŵp bellach wedi creu un gydweithfa, 'Hunan-iaith', ac wedi perfformio gyda'i gilydd, yn ogystal â dechrau datblygu terminoleg Gymraeg i drafod hiliaeth a rhagfarn. Mae nifer o sefydliadu wedi mynegi diddordeb yn y derminoleg hon ac yn y modd y gallai'r grŵp helpu i godi ymwybyddiaeth a rhoi hyfforddiant am hiliaeth a rhagfarn ddilrwybod, yn enwedig yn Gymraeg.

#### **Cefnogi Sefydliadau**

Ymunodd ein Pennaeth Datblygu a'n Dirprwy Brif Weithredwr â Bwrdd Cyfarwyddwyr Seren Books (Poetry Wales) yn 2019 i roi cymorth heb fod yn ariannol gyda'u cyfeiriad strategol, cynllunio busnes a chomisiynu. Cyfrannodd hyn at raglen ŵyl a oedd yn fwy cynrychioladol o ddiwylliant llenyddol Cymru, at ymrwymadau y cytunwyd arnynt i gynyddu amrywiaeth yr awduron sy'n cyhoeddi eu gwaith, ac at gyfleoedd golygu newydd â thâl yn Poetry Wales i awduron sy'n arddel hunaniaeth sy'n cyd-fynd â Nodweddion Cleientiaid a Dargedir gennym.

#### **Cyllid**

##### **Diweddarau'r System Gyllid**

Tuag at ddiwedd 2018/2019, buom yn gweithio gyda chyfrifydd allanol i adolygu gweithdrefnau a chamau rheoli cyllid y sefydliad, er mwyn canfod meysydd i'w gwella. Arweiniodd hyn at gyflwyno dulliau gweithio newydd er mwyn rheoli canolfannau costau'n well. Cyflwynwyd Matrics Awdurdod Dynodedig yn 2019/2020 i ganfod yr aelodau o staff sy'n gyfrifol am gyllideb pob prosiect ochr yn ochr â phwy sy'n cymeradwyo lefel y gwariant. Diweddarwyd ein canolfannau costau a'n codau cyfrifon hefyd yn unol â Chynllun Strategol 2019-2022, er mwyn i'r rheini gyd-fynd â'n Gweithgareddau a'n Materion Gweithredol. Mae'r gweithdrefnau cyllid newydd wedi dylanwadu ar bob rhan o'r sefydliad. Er enghraifft, amlygodd y system feysydd lle gellid gwneud arbedion. Mae hefyd wedi rhoi trosolwg clir o'r prosiectau sy'n bodoli'n barod o dan adrannau Gweithgareddau neu Faterion Gweithredol, ac wedi helpu ein prosesau i gynnig syniadau gan fod yn rhaid creu'r canolfannau costau newydd, a chael cymeradwyaeth yr Uwch Dîm Arwain, cyn dechrau rhoi'r prosiect ar waith.

Yn ogystal â hyn, i sicrhau bod y staff yn hyderus yn rheoli a chynnal cyllid prosiectau, treialwyd templed Rheoli Cyllidebau Prosiectau ymhlith rhai o'r staff, gan geisio canoli gwybodaeth ariannol a hwyluso'r gwaith o baratoi rhagolygon. Roedd hwn yn llwyddiannus a bydd yn cael ei gyflwyno'n llawn yn 2020/2021.

#### **Partneriaethau**

##### **Cyngor Llyfrau Cymru**

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn rhanddeiliad o bwys i Llenyddiaeth Cymru ac mae ein perthynas weithio yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae'r cysylltiad rhwng llenyddiaeth fel ffurf ar gelfyddyd a chyhoeddi fel diwydiant yn un hollbwysig, ac felly hefyd y gwahaniaeth clir rhwng y ddau.

Yn ystod 2019/2020, bu aelodau o Uwch Dîm Arwain Llenyddiaeth Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd Panel Grantiau Cyhoeddi'r Cyngor Llyfrau, a bu cynrychiolwyr o'r Cyngor Llyfrau yn bresennol yng nghyfarfod panel Ysgoloriaethau i Awduron 2019. Mae'r Cyngor Llyfrau yn bartneriaid ar ein cais am grant SMART Expertise, sydd i'w gyflwyno yn hydref 2020. Nod y prosiect yw cynyddu amrywiaeth ymhlith awduron a llenyddiaethau Cymru o ran cyhoeddi, stocio, ariannu drwy grantiau, a digwyddiadau, a hynny drwy system casglu data ar gyfer y sector cyfan. Cydweithiodd Cyngor Llyfrau Cymru hefyd ar gwrs Ysgrifennu ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd ym mis Chwefror 2020.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ar Ffair Lyfrau Llundain, Gwobr Llyfr y Flwyddyn a Bardd Plant Cymru, ac wedi gwneud gwaith hwyluso ehangach ar y cyd yn y sector, e.e. llywio, cynghori ac ariannu cynlluniau sefydliadau eraill er mwyn i lenyddiaethau Cymru adlewyrchu ei phobl a'i diwylliant yn well. Rydym hefyd yn cefnogi'n gilydd drwy farchnata a hyrwyddo ar ein gwefannau a'n cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**  
**ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020**

---

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R YMDDIRIEDOLWYR**

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r cwmni elusennol, gan gynnwys incwm a gwariant, yn y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Cyn belled ag y mae'r ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac maent wedi sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd drwy orchymyn bwrdd yr ymddiriedolwyr ar .....  
a llofnodwyd ar ei ran gan;

3/11/2020

.....  
Ymddiriedolwr



### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Llenyddiaeth Cymru (y 'cwmni elusennol') ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, a'r rheini'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu o bwys. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn cydymffurfio â'r gyfraith berthnasol ac â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2020 ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol, yn y flwyddyn a ddaeth i ben;
- wedi'u paratoi'n gywir ac yn unol â'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

### Sail ar gyfer y farn hon

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny'n cael eu disgrifio ymhellach yn yr adran am gyfrifoldebau'r Archwilwyr wrth archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol o'r cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol a'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth yr ydym wedi ei harchwilio yn ddigonol ac yn berthnasol er mwyn inni allu rhoi ein barn.

### Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, sef materion y mae'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd arnynt:

- os nad yw defnydd yr ymddiriedolwyr o'r busnes gweithredol yn ystod paratoi'r datganiadau ariannol yn briodol: neu
- os nad yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai godi cwestiynau arwyddocaol ynglŷn â gallu'r elusen i barhau i fabwysiadu dulliau cyfrifyddu'r busnes gweithredol ar gyfer cyfnod o ddeuddeg mis fan lleiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi eu hawdurdodi ar gyfer eu defnyddio.

### Gwybodaeth bellach

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth bellach. Mae'r wybodaeth bellach yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynnyddol, ar wahân i'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol arnynt.

Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn ymwneud â'r wybodaeth bellach ac, ar wahân i'r graddau y datgenir hynny'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ar y cynnwys hwnnw.

Mewn cyswllt â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth bellach ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth bellach yn anghyson o ran sylwedd â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom fel rhan o'r archwiliad, neu fel arall a yw'n ymddangos yn gamarweiniol o ran sylwedd. Os byddwn yn canfod anghysondeb o sylwedd neu gamddatganiadau ymddangosiadol o sylwedd, rhaid inni benderfynu a oes camddatganiad o sylwedd yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o sylwedd yn y wybodaeth bellach.

Radnor House  
Greenwood Close  
Cardiff Gate Business Park  
Cardiff CF23 8AA

Registered for company formation services and regulated for a range of investment business activities by the Institute of Chartered Accountants in England and Wales.

bpu Chartered Accountants is a trading name of BPU Ltd  
Company Number 3723948  
Registered in Wales

Os byddwn, ar sail y gwaith a wnaed gennym, yn casglu bod camddatganiad o sylwedd yn y wybodaeth bellach hon, mae'n ofynnol inni adrodd hynny. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hynny o beth.

#### Materion y mae angen inni roi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, sef materion y mae Deddf Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol inni gyflwyno adroddiad ichi arnynt, os, yn ein barn ni:

- bod y wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd o ran sylwedd â'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw'r cwmni elusennol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

#### Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni'u hunain bod y datganiadau hynny'n rhoi darlun cywir a theg. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ba bynnag gamau rheoli mewnol y mae angen eu cymryd yn nhyb yr ymddiriedolwyr i allu paratoi'r datganiadau ariannol heb fod ynddynt unrhyw gamddatganiad o sylwedd, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgan, os yw hynny'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol, a dylid defnyddio'r busnes gweithredol fel sail i'r cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr yn bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu ddod â'i weithrediadau i ben, neu os nad oes unrhyw ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

#### Ein cyfrifoldebau ni wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fe'n penodwyd yn archwilwyr o dan adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ac fe wneir yr adroddiad hwn yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf neu sy'n berthnasol o dan y Ddeddf.

Ein nod yw rhoi sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol, yn eu cyfanrwydd, yn ddatganiadau heb fod ynddynt unrhyw gamddatganiad o sylwedd, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) wastad yn canfod camddatganiad o sylwedd pan fydd un yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall, ac fe'u hystyrir yn rhai o sylwedd os gellid, boed yn unigol neu ynghyd, ddisgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd y defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad yn rhan o Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

Radnor House  
Greenwood Close  
Cardiff Gate Business Park  
Cardiff CF23 8AA

(registered to carry on outside work  
and regulated for a range of  
investment business activities by  
the Institute of Chartered  
Accountants in England and Wales)

Chartered Accountants is a  
trading name of BPU Ltd  
Company Number 3723943  
Registered in Wales



**Defnyddio ein hadroddiad**

Adroddiad i ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Rhan 4 Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008, yn unig yw hwn. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallwn ddatgan wrth ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny mae angen inni eu datgan mewn adroddiad gan archwilwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb ac eithrio'r cwmni elusennol ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn rydym wedi'i rhoi.



John Huw Palin FCA (Uwch Archwilydd Statudol)

ar gyfer ac ar ran BPU Limited

Cyfrifwyr Siartredig

Archwilydd Statudol

Yn gymwys i weithredu fel archwilydd o dan Adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

Dyddiad: 3 November 2020.

Radnor House  
Greenwood Close  
Cardiff Gate Business Park  
Cardiff CF23 8AA

Registered in part 26 of the Companies Act 2006 and regulated for a range of investment business activities by the Institute of Chartered Accountants in England and Wales

BPU Chartered Accountants is a trading name of BPU Ltd (Company Number 3723948) Registered in Wales

**Datganiad o Weithgareddau Ariannol**  
**ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020**

|                                                     |                             | Cronfeydd        | Cronfeydd       | 2020<br>Cyfanswm<br>y<br>cronfeydd | 2019<br>Cyfanswm<br>y<br>cronfeydd |
|-----------------------------------------------------|-----------------------------|------------------|-----------------|------------------------------------|------------------------------------|
|                                                     | anghyfnygedig<br>Nodiadau £ | £                | cyfyngedig<br>£ | £                                  | £                                  |
| <b>INCWM A GWADDOL DRWY</b>                         |                             |                  |                 |                                    |                                    |
| Rhoddion a chymynroddion                            | 3                           | 2,647            | -               | 2,647                              | 3,391                              |
| Gweithgareddau masnachu eraill                      | 4                           | 28,457           | -               | 28,457                             | 27,239                             |
| Incwm buddsoddi                                     | 5                           | 1,203            | -               | 1,203                              | 1,197                              |
| Gweithgareddau elusennol                            | 6                           | 1,085,875        | 58,116          | 1,143,991                          | 1,160,159                          |
| Incwm arall                                         |                             | 8,019            | -               | 8,019                              | 5,987                              |
|                                                     |                             | <u>1,126,201</u> | <u>58,116</u>   | <u>1,184,317</u>                   | <u>1,197,973</u>                   |
| Cyfanswm                                            |                             | 1,126,201        | 58,116          | 1,184,317                          | 1,197,973                          |
| <b>GWARIANT AR</b>                                  |                             |                  |                 |                                    |                                    |
| Codi arian                                          | 7                           | 49,981           | -               | 49,981                             | 30,432                             |
| Gweithgareddau elusennol                            | 8                           | 1,039,641        | 70,752          | 1,110,393                          | 2,520,271                          |
|                                                     |                             | <u>1,089,622</u> | <u>70,752</u>   | <u>1,160,374</u>                   | <u>2,550,703</u>                   |
| Cyfanswm                                            |                             | 1,089,622        | 70,752          | 1,160,374                          | 2,550,703                          |
| <b>INCWM NET /(GWARIANT)</b>                        |                             | 36,579           | (12,636)        | 23,943                             | (1,352,730)                        |
| <b>CYSONI CRONFEYDD</b>                             |                             |                  |                 |                                    |                                    |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen               |                             | 270,964          | 931,244         | 1,202,208                          | 2,554,938                          |
| <b>CYFANSWM Y CRONFEYDD A GAIFF EU CARIO YMLAEN</b> |                             | <u>307,543</u>   | <u>918,608</u>  | <u>1,226,151</u>                   | <u>1,202,208</u>                   |



## Mantolen

31 Mawrth 2020

|                                                             | Nodiadau | 2020<br>£ | 2019<br>£ |
|-------------------------------------------------------------|----------|-----------|-----------|
| <b>ASEDAU SEFYDLOG</b>                                      |          |           |           |
| Asedau diriaethol                                           | 15       | 898,050   | 892,939   |
| <b>ASEDAU CYFREDOL</b>                                      |          |           |           |
| Stociau                                                     | 16       | 1,561     | 1,338     |
| Dyledwyr                                                    | 17       | 142,015   | 171,722   |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw                          |          | 452,110   | 510,923   |
|                                                             |          | 595,686   | 683,983   |
| <b>CREDYDWYR</b>                                            |          |           |           |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn                        | 18       | (267,585) | (374,714) |
| <b>ASEDAU CYFREDOL NET</b>                                  |          | 328,101   | 309,269   |
| <b>CYFANSWM YR ASEDAU LLAI<br/>RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL</b> |          | 1,226,151 | 1,202,208 |
| <b>ASEDAU NET</b>                                           |          | 1,226,151 | 1,202,208 |
| <b>CRONFEYDD</b>                                            | 20       |           |           |
| Cronfeydd anghyfyngedig                                     |          | 307,543   | 270,964   |
| Cronfeydd cyfyngedig                                        |          | 918,608   | 931,244   |
| <b>CYFANSWM Y CRONFEYDD</b>                                 |          | 1,226,151 | 1,202,208 |

Mae hawl gan y cwmni elusennol i gael ei eithrio o archwiliad o dan adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

Nid yw'r aelodau wedi cyflwyno hysbysiad, yn unol ag Adran 476 o Ddeddf Cwmnïau 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i archwilio'r datganiadau ariannol hyn.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldebau dros

- sicrhau bod y cwmni elusennol yn cadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cydymffurfio ag Adrannau 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a
- paratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac o'i warged neu'i ddiffyg ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â gofynion Adrannau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ynghylch datganiadau ariannol, cyn belled ag y maent yn berthnasol i'r cwmni elusennol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u harchwilio o dan ofynion Adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011.

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r darpariaethau sy'n berthnasol i gwmnïau elusennol sy'n gweithredu o dan gyfundrefn cwmnïau bychain.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'u hawdurdodi i'w cyhoeddi ar

.....3/11/2020.....

ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

.....K North.....

K North  
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau'n ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

**Datganiad Llif Arian**  
**ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020**

|                                                                                      |                | <b>2020</b>           | <b>2019</b>           |
|--------------------------------------------------------------------------------------|----------------|-----------------------|-----------------------|
|                                                                                      | <b>Nodiada</b> | <b>£</b>              | <b>£</b>              |
|                                                                                      | <b>u</b>       |                       |                       |
| <b>Llif arian parod o weithgareddau gweithredol</b>                                  |                |                       |                       |
| Arian parod a gynhyrchwyd o weithgareddau                                            | 1              | <u>(49,679)</u>       | <u>71,875</u>         |
| Arian parod net a ddefnyddiwyd mewn gweithgareddau gweithredol                       |                | <u>(49,679)</u>       | <u>71,875</u>         |
| <b>Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi</b>                                    |                |                       |                       |
| Asedau diriaethol sefydlog a brynwyd                                                 |                | (10,337)              | (4,027)               |
| Llog a dderbyniwyd                                                                   |                | <u>1,203</u>          | <u>1,197</u>          |
| Arian parod net (a ddefnyddiwyd mewn)/a ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi       |                | <u>(9,134)</u>        | <u>(2,830)</u>        |
| <b>Newid mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod adrodd</b> |                | <b>(58,813)</b>       | <b>69,045</b>         |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd          |                | <u>510,923</u>        | <u>441,878</u>        |
| Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd           |                | <u><b>452,110</b></u> | <u><b>510,923</b></u> |



**Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian**  
**ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020**

**1. CYSONI INCWM NET/(GWARIANT) I'R LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL**

|                                                                       | <b>2020</b>      | <b>2019</b>        |
|-----------------------------------------------------------------------|------------------|--------------------|
|                                                                       | <b>£</b>         | <b>£</b>           |
| <b>Incwm net /(gwariant) yn y cyfnod adrodd</b>                       |                  |                    |
| <b>(fel yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol)</b>                  | <b>23,943</b>    | <b>(1,352,730)</b> |
| <b>Addasladau ar gyfer:</b>                                           |                  |                    |
| Dibrisiant ac amhariad ar asedau diriaethol sefydlog                  | <b>5,227</b>     | <b>1,353,309</b>   |
| Colled ar warediad asedau diriaethol sefydlog                         | <b>-</b>         | <b>4,517</b>       |
| Incwm buddsoddi a gydnabyddir yn y datganiad o weithgareddau ariannol | <b>(1,203)</b>   | <b>(1,197)</b>     |
| Cynnydd mewn stociau                                                  | <b>(223)</b>     | <b>(1,032)</b>     |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr                                    | <b>29,707</b>    | <b>(7,854)</b>     |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr                                   | <b>(107,130)</b> | <b>76,862</b>      |
| <b>Arian parod net a ddefnyddiwyd ar gyfer materion gweithredol</b>   | <b>(49,679)</b>  | <b>71,875</b>      |

**2. DADANSODDIAD O'R NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD NET**

|                                    | <b>Ar 1/4/19</b> | <b>Llif arian parod</b> | <b>Ar 31/3/20</b> |
|------------------------------------|------------------|-------------------------|-------------------|
|                                    | <b>£</b>         | <b>£</b>                | <b>£</b>          |
| <b>Arian parod net</b>             |                  |                         |                   |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | <b>510,923</b>   | <b>(58,813)</b>         | <b>452,110</b>    |
|                                    | <b>510,923</b>   | <b>(58,813)</b>         | <b>452,110</b>    |
| <b>Cyfanswm</b>                    | <b>510,923</b>   | <b>(58,813)</b>         | <b>452,110</b>    |

## 1. POLISIÂU CYFRIFYDDU

### Sail paratoi'r datganiadau ariannol

Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sy'n endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi'u paratoi yn unol â SORP Elusennau (FRS 102) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (mewn grym 1 Ionawr 2019)', Safon Adrodd Ariannol 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' a Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a'u haddasu i gynnwys ailbrisiad o eiddo rhydd-ddaliadol ac i gynnwys eiddo buddsoddi ac offerynnau ariannol penodol am werth teg. Mae'r prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwy wedi'u nodi isod.

### Adnoddau sy'n dod i mewn

Mae'r holl incwm wedi'i gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar ôl i'r elusen gael hawl i'r cyllid, ac mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn ac y gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

### Grantiau

Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy eu trin mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar eu dibenion a thelerau'r grant.

Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy at ddibenion penodol eu trin fel cronfeydd cyfyngedig er mwyn i unrhyw gronfeydd sydd heb eu defnyddio gael eu nodi ar wahân.

Caiff grantiau sy'n dderbyniadwy er mwyn hwyluso'r broses gyffredinol o gynnal y prosiect h.y. lle gall y cyfarwyddwyr/ymddiriedolwyr ddewis sut y caiff y cronfeydd eu gwario, eu trin fel cronfeydd anghyfyngedig.

Caiff cyfraniadau arian parod eu cydnabod ar ôl eu derbyn. Caiff cyfraniadau eraill eu cydnabod pan fydd yr elusen wedi cael gwybod amdanynt, oni bai bod angen gohirio'r swm oherwydd amodau perfformiad. Caiff treth incwm adenilladwy sy'n ymwneud â chyfraniadau a dderbyniwyd drwy Rodd Cymorth neu weithredoedd cyfamodi ei chydabod ar yr adeg y caiff y cyfraniad ei wneud.

Mae trosiant yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy ac mae'n cynrychioli symiau sy'n dderbyniadwy am nwyddau a gwasanaethau a roddwyd fel rhan arferol o fusnes, yn net o ddisgowntiau, TAW a threthi eraill sy'n gysylltiedig â gwerthiannau.

### Adnoddau a ddefnyddiwyd

Rhoddir cyfrif am wariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddisbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n ymwneud â'r categori.

Pan na ellir priodoli costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.



**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol – parhad  
ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020**

**1. POLISIÂU CYFRIFYDDU – Adnoddau a ddefnyddiwyd, parhad**

Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny a wariwyd gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a darparu'i gwasanaethau ar gyfer ei buddiolwyr. Mae'n cynnwys costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i weithgareddau o'r fath a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sydd eu hangen i'w cefnogi.

Mae'r costau llywodraethu'n cynnwys y costau hynny sy'n gysylltiedig â chyflawni gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen, ac yn cynnwys ffioedd archwilio a chostau sy'n gysylltiedig â rheoli'r elusen yn strategol.

Mae'r holl gostau wedi'u dyrannu rhwng categorïau gwariant y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail sy'n celsio adlewyrchu'r modd y caiff yr adnodd ei ddefnyddio. Mae costau sy'n ymwneud â gweithgareddau penodol wedi'u dyrannu'n uniongyrchol.

**Gwrthbwysu**

Ni chafodd unrhyw asedau, rhwymedigaethau, incwm na threuliau eu gwrthbwysu, oni bai bod FRS 102 SORP neu FRS 102 yn gofyn neu'n caniatáu gwneud hynny.

Caiff grantiau sydd wedi'u cynnig yn ddibynol ar amodau nad ydynt wedi'u cyflawni ar ddyddiad diwedd y flwyddyn eu nodi fel ymrwymiad, ond nid fel gwariant cronuss.

**Cronfeydd elusennol**

**Cronfeydd**

**anghyfyngedig**

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol fel y gwél yr ymddiriedolwyr yn dda.

**Cronfeydd dynodedig**

Cronfeydd anghyfyngedig yr elusen yw'r cronfeydd dynodedig a'r rheini wedi'u neilltuo i ariannu rhai o weithgareddau penodol yr elusen yn y dyfodol.

**Cronfeydd cyfyngedig**

Dim ond at ddibenion penodol sy'n ymwneud ag amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Mae cyfyngiadau'n berthnasol pan fydd y rhoddwr wedi dynodi hynny neu pan godir arian at ddibenion penodol cyfyngedig.

Mae esboniad pellach o natur a diben pob cronfa wedi'i gynnwys yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

**Asedau diriaethol sefydlog**

Darperir ar gyfer dibrisiant gan ddefnyddio'r cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros amcangyfrif o'i oes ddefnyddiol.

|                                  |                              |
|----------------------------------|------------------------------|
| Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol | - Ailbrisiu bob 5 mlynedd    |
| Cyfarpar a pheiriannau           | - Balans gostyngol 10% a 20% |
| Ffitiadau a gosodiadau           | - Balans gostyngol 10%       |

Mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno i ailbrisiu'r tir a'r adeiladau sy'n eiddo i'r elusen bob 5 mlynedd o fis Hydref 2019.

Caiff asedau sefydlog eu datgan drwy nodi'u cost neu'u gwerth, namyn y dibrisiant sydd wedi cronni ac unrhyw golledion yn sgil amhariad. Ni chaiff ychwanegiadau sy'n costio llai na £500 eu cyfalafu.

yn parhau...

## Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol – parhad ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020

### 1. POLISI'AU CYFRIFYDDU – parhad

#### Stociau

Caiff stociau eu datgan gan ddefnyddio'r isaf o'r gost neu'r amcangyfrif o'r pris gwerthu, namyn y costau cwblhau a gwerthu. Mae'r gost yn cynnwys deunyddiau uniongyrchol, a phan fydd hynny'n berthnasol, costau llafur uniongyrchol a'r gorbenion hynny sydd wedi'u hysgwyddo wrth ddod â'r stociau i'w lleoliad a'u cyflwr presennol. Caiff eitemau a gedwir i'w dosbarthu heb gydnabyddiaeth neu am gydnabyddiaeth enwol eu mesur gan ddefnyddio'r isaf o'r gost o gael eitemau newydd yn eu lle neu'r gost.

Y gwerth realeiddiadwy net yw'r amcangyfrif o'r pris gwerthu namyn yr amcangyfrif o'r holl gostau cwblhau a'r costau sydd i'w hysgwyddo wrth farchnata, gwerthu a dosbarthu.

#### Trethiant

Fel elusen, mae hawl gan Llenyddiaeth Cymru i gael ei heithrio rhag talu treth ar incwm ac enillion cyfalaf a ddaw i law, a hynny o dan adrannau 478-489 o Ddeddf Treth Gorfforaethol 2010 ac adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y caiff y rhain eu defnyddio at ddibenion yr amcanion elusennol yn unig.

#### Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i gychwyn drwy ddefnyddio'u gwerth pan wnaed y trafodiad a'u mesur wedi hynny drwy ddefnyddio gwerth y setliad.

#### Asedau ariannol sylfaenol:

##### Dyledwyr

Caiff dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill eu cydnabod drwy ddefnyddio gwerth y setliad sy'n ddyledus ar ôl cynnig unrhyw ddisgownt masnachu. Rhoddir gwerth i ragdaliadau drwy ddefnyddio'r swm a ragdalwyd yn net o unrhyw ddisgowntiau masnachu sy'n ddyledus.

#### Rhwymedigaethau ariannol

##### sylfaenol: Credydwyr a darpariaethau

Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan elusen rhwymedigaeth bresennol yn deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo cyllid i drydydd parti, a phan ellir mesur neu amcangyfrif yn ddibynadwy y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth. Caiff credydwyr a darpariaethau eu cydnabod fel arfer gan ddefnyddio swm y setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ddisgowntiau masnachu sy'n ddyledus.

#### Polisi rhwymedigaethau

Caiff rhwymedigaethau eu cydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt ddod yn daladwy.

#### TAW anadferadwy

Caiff TAW anadferadwy ei chodi yn erbyn y categori o adnoddau a wariwyd ar ei gyfer.



**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol – parhad**  
ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020

**1. POLISIÂU CYFRIFYDDU – parhad**

**Arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod**

Mae arian a symiau sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian parod, adnau a gaiff eu dal yn ôl y galw gan fanciau, buddsoddiadau hylifol byrdymor eraill sydd â dyddiadau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai, a gorddrafftiau banc. Dangosir gorddrafftiau banc o fewn y benthyciadau yn y rhwymedigaethau presennol.

**Pensiynau**

Mae gan yr elusen gynllun cyfraniadau diffiniedig er budd ei weithwyr. Caiff asedau'r cynllun eu dal ar wahân i asedau'r elusen. Caiff cyfraniadau sy'n daladwy eu codi ar y cyfrif elw a cholled yn y flwyddyn y maent yn daladwy a'u codi yn erbyn cronfeydd anghyfyngedig.

**2. CYFRIFYDDU ALLWEDDOL: AMCANGYFRIFON A FFURFIO BARN**

Wrth ddilyn polisiâu cyfrifyddu'r elusen, mae gofyn i'r ymddiriedolwyr ffurfio barn a gwneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau am symiau cario ymlaen asedau a rhwymedigaethau nad ydynt ar gael yn amiwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig wedi'u seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

Caiff yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sy'n sail iddynt eu hadolygu'n gyson. Caiff diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifyddu eu cydnabod yn y cyfnod pan gaiff yr amcangyfrif ei ddiwygio os bydd y diwygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw'n unig, neu yng nghyfnod y diwygio a chyfnodau yn y dyfodol os bydd y diwygio'n effeithio ar y cyfnod presennol ac ar gyfnodau yn y dyfodol.

**3. RHODDION A CHYMYNRODDION**

|          | 2020         | 2019         |
|----------|--------------|--------------|
|          | £            | £            |
| Rhoddion | <u>2,647</u> | <u>3,391</u> |

**4. GWEITHGAREDDAU MASNACHU ERAILL**

|                 | 2020          | 2019          |
|-----------------|---------------|---------------|
|                 | £             | £             |
| Gwerthu llyfrau | 10,408        | 9,377         |
| Llogi Tŷ Newydd | <u>18,049</u> | <u>17,862</u> |
|                 | <u>28,457</u> | <u>27,239</u> |

yn parhau...

**Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol – parhad**  
ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020

**5. INCWM BUDDSODDI**

|                  | 2020         | 2019         |
|------------------|--------------|--------------|
|                  | £            | £            |
| Llog derbyniadwy | <u>1,203</u> | <u>1,197</u> |

**6. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL**

|                       | 2020             | 2019             |
|-----------------------|------------------|------------------|
|                       | £                | £                |
| Incwm o weithgareddau | 214,332          | 204,914          |
| Grantiau              | <u>929,659</u>   | <u>955,245</u>   |
|                       | <u>1,143,991</u> | <u>1,160,159</u> |

Mae'r grantiau a dderbyniwyd, sydd wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel a ganlyn:

|                          | 2020           | 2019           |
|--------------------------|----------------|----------------|
|                          | £              | £              |
